Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Rhif: 20/2011

www.cymru.gov.uk

# Gwerthuso'r Ymgyrch i Annog Defnydd o Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer Plant yng Nghymru

# Gwerthuso’r Ymgyrch i Annog Defnydd o Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer Plant yng Nghymru

Maria McDonnell, Mark Gilliland

**KPMG**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn rhannu’r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Ceri Greenall
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 82 5872
E-bost: ceri.greenall@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011

ISBN 978 0 7504 6714 8

© Hawlfraint y Goron 2011

**Nodyn: Cefndir yr adroddiad hwn**

Ar gyfer Llywodraeth Cymru'n unig y lluniwyd yr adroddiad hwn.

Ac eithrio o dan yr amgylchiadau prin a nodir yn yr adroddiad, nid ydym wedi dilysu dibynadwyedd na chywirdeb unrhyw wybodaeth a gafwyd wrth i ni wneud ein gwaith.

Nid yw'r adroddiad hwn yn addas i ddibynnu arno gan unrhyw barti sydd eisiau ennill hawliau yn erbyn KPMG at unrhyw ddiben neu mewn unrhyw gyd-destun.

Bydd unrhyw barti sy'n cael gafael ar yr adroddiad hwn neu gopi ohono (o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu fel arall) ac yn dewis dibynnu ar yr adroddiad hwn (neu unrhyw ran ohono) yn gwneud hynny o'i ben a'i bastwn ei hun. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith, nid yw KPMG yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb ac ni fydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr adroddiad hwn mewn perthynas ag unrhyw barti arall heblaw Llywodraeth Cymru. .

**Cynnwys**

Rhestr Termau

I Crynodeb Gweithredol 4

1 Cyflwyniad 13

2 Adolygu'r Dystiolaeth 19

3 Adolygiad o'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA 29

4 Mesur defnydd o DLA 42

5 Ymgynghori â Cyngor ar Bopeth 63

6 Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol 75

7 Ymgynghori â Chleientiaid Cyngor ar Bopeth 80

8 Casgliadau ac Argymhellion 95

Atodiad 1 Adolygiad o'r Llenyddiaeth 105

Atodiad 2 Astudiaethau Achos 131

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **ALl** | Awdurdod Lleol |
| **BABH** | Cyngor Da: Iechyd Da |
| **CAB / CABx** | Canolfan Cyngor ar Bopeth/Canolfannau Cyngor ar Bopeth |
| **DLA** | Lwfans Byw i'r Anabl |
| **DCMW** | Plant Anabl yn Cyfri Cymru |
| **DWP** | Adran Gwaith a Phensiynau |
| **ENR** | Pobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion |
| **ESA** | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| **ESF** | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| **GI** | Gogledd Iwerddon |
| **HMRC** | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| **IPC** | Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus |
| **IS** | Cymhorthdal Incwm |
| **JSA** | Lwfans Ceisio Gwaith |
| **KPI** | dangosydd perfformiad allweddol |
| **ONS** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| **SSA** | Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **VFM** | Gwerth am Arian |
| **WHS** | Arolwg Iechyd Cymru |
| **WTE** | Cyfwerth ag Amser Llawn |

# I. Crynodeb Gweithredol

## I.1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £500,000 ar gyfer y cyfnod 2009-2011 er mwyn cynorthwyo Cyngor ar Bopeth Cymru i gyflwyno ymgyrch beilot i annog y defnydd o Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar gyfer Plant yng Nghymru (Ymgyrch DLA).

Comisiynwyd KPMG i werthuso effeithiolrwydd yr Ymgyrch. Amcanion y gwerthusiad hwn oedd amcangyfrif yr effaith y mae'r Ymgyrch wedi'i chael ar gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio'r budd-daliadau hyd yma, pwyso a mesur effaith debygol yr Ymgyrch yn y dyfodol a gwerthuso sut y gweithredir yr Ymgyrch.

Ymgymerwyd â'r dasg mewn pedwar prif gyfnod:

- Cyfnod A – Cychwyn y Prosiect
- Cyfnod B – Adolygiad bwrdd gwaith o amrywiaeth o lenyddiaeth ar y defnydd o fudd-daliadau ac adroddiadau cynnydd Cyngor ar Bopeth yn ogystal â dadansoddiad o ystadegau swyddogol ar y llwyth achosion budd-daliadau a ryddhawyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- Cyfnod C – Ymgynghori â chynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth Cymru a Chanolfannau lleol, rhanddeiliaid cysylltiedig, a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Roedd hefyd yn cynnwys gwaith ymchwil ansoddol a meintiol gyda theuluoedd.
- Cyfnod D – Dadansoddi ac adrodd ar yr holl ganfyddiadau.

## I.2. Adolygu'r dystiolaeth

Mae llawer wedi cael ei gofnodi am yr amrywiaeth eang o rwystrau i hawlio budd-daliadau lle y gwyddys eu bod yn effeithio ar y cyfraddau defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg gwybodaeth am y budd-daliadau sydd ar gael neu'r cymhwysedd i'w derbyn, y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol, anawsterau wrth gwblhau ffurflenni swyddogol, a phryderon ynglŷn â chanlyniad hawliadau.

Mae'r llenyddiaeth yn nodi ffyrdd gwahanol o gynyddu'r defnydd, gan gynnwys targedu pobl ar adegau o newid mawr yn eu bywydau a defnyddio canolwyr dibynadwy fel meddygon teulu. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth hefyd yn cydnabod bod angen mwy o ymchwil a gwybodaeth, am y nifer nad ydynt yn hawlio'r budd-daliadau yn ogystal â thystiolaeth o beth sy'n gweithio orau ac i bwy. Yn olaf, mae yna anhawster ychwanegol yn bodoli wrth asesu effaith gweithgareddau defnyddio a gwahaniaethu rhwng effaith y rhain ac effaith digwyddiadau neu weithgareddau eraill.

Golyga hyn fod yna heriau arbennig wrth gynllunio gweithgareddau wedi'u targedu ac wrth fonitro effaith, gan na fydd gweithgareddau o'r fath yn gwireddu'r canlyniadau disgwyliedig o bosibl a hwyrach na fydd ganddynt sail ddigonol o dystiolaeth i'w cyfiawnhau.

Roedd adolygiad o'r adroddiadau sy'n bodoli ar gynlluniau defnyddio eraill yn awgrymu bod perfformiad, o'i fesur fel Gwerth am Arian (VFM), yn amrywio ar draws y cynlluniau. Fodd bynnag, amrywiai'r cynlluniau hyn hefyd o ran eu dull o weithredu, y grŵp cleientiaid a dargedir a'r ffocws budd-dal lles sy'n ei gwneud hi'n anodd barnu'n bendant a oedd cynlluniau a ganolbwyntiai ar un budd-dal penodol yn fwy neu'n llai llwyddiannus o ran cynyddu defnydd o gymharu â chynlluniau a gwmpasai gyfres o fudd-daliadau. Yr hyn sy'n amlwg yw bod defnyddio gwiriadau budd-daliadau llawn yn ffactor allweddol wrth gynyddu incwm.

## I.3. Adolygiad o'r Ymgyrch i Annog Defnydd o Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)

Dyfarnwyd £500,000 i Cyngor ar Bopeth Cymru i gynnal cynllun peilot dwy flynedd o hyd i annog defnydd o DLA. O ran perfformiad, llwyddodd yr Ymgyrch i gyrraedd ei ddangosyddion perfformiad allweddol (KPI) o £3 miliwn. Methodd o ychydig â chyrraedd ei ddangosydd ar gyfer cleientiaid, a chynorthwyodd 2,818 o gleientiaid o gymharu â'r targed o 3,000.  Fodd bynnag, nodir mai adlewyrchu budd-daliadau a gadarnhawyd yn unig y mae'r perfformiad, ac felly mae'n annhebygol fod yr holl gynnydd mewn budd-daliadau gwirioneddol wedi'u cofnodi.

Mae dibynnu ar gleientiaid i gadarnhau budd-daliadau ynghyd â diffyg eglurder ynglŷn ag union ffocws yr Ymgyrch, ac adroddiadau cyfansawdd am fudd-daliadau yn golygu nad yw'n bosibl pennu effeithiolrwydd cyffredinol yr Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA, mesur ei heffaith ar y defnydd o DLA na chael asesiad cywir o'r holl fanteision ychwanegol y gellir eu priodoli i'r Ymgyrch. Er hynny, o ran y cyllid a neilltuwyd ar ei chyfer, mae'r perfformiad yn dangos cymhareb gwerth am arian o 1:6 am bob punt a wariwyd, sy'n rhesymol o gymharu â chynlluniau mewn mannau eraill ac o ystyried mai cynllun peilot oedd hwn.

Fodd bynnag, roedd y perfformiad yn amrywio'n sylweddol ar draws y Canolfannau ac roedd hi'n amlwg, o'u hallbwn isel, fod gweithredu'r Ymgyrch wedi bod yn her i rai Canolfannau. Ond roedd gan Ganolfannau eraill lefelau isel o atgyfeiriadau er gwaethaf ymdrechion lleol i rwydweithio a hyrwyddo, a allai awgrymu mai lefelau isel o alw sydd yna yn yr ardaloedd hyn am wasanaethau cyngor DLA i blant ag anabledd a'u teuluoedd.

Dangosodd gwaith ymgynghori â Cyngor ar Bopeth a Llywodraeth Cymru fod costau gweinyddu a gweithredu'r Ymgyrch yn fach ac yn gymesur â'r cyllid a neilltuwyd ar ei chyfer. Fodd bynnag, gallai trefniadau rheoli mwy cadarn ar ran Llywodraeth Cymru a Cyngor ar Bopeth fod wedi cynyddu effaith yr Ymgyrch.

## I.4. Mesur y defnydd o DLA

Yng Nghymru, bu cynnydd cyson yn y llwyth achosion DLA i rai rhwng 0 a 18 oed cyn gostwng eto ym mis Tachwedd 2010. Dros gyfnod o bedair blynedd, cynyddodd llwyth achosion rhai rhwng 0 a 18 oed ar gyfradd uwch na chyfanswm y llwyth achosion DLA ar gyfer Cymru. Yn ddiddorol, fodd bynnag, nid oedd y cynnydd yn y llwyth achosion ar gyfer rhai rhwng 0 a 18 oed yn ystod yr Ymgyrch (h.y. rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010 (1.2%)) mor amlwg ag y bu yn ystod y ddwy flynedd cyn dechrau'r Ymgyrch (7.3%). Gallai hyn awgrymu nad yw'r Ymgyrch wedi cael effaith sylweddol ar y defnydd o DLA.

Y tueddiad cyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf o ran DLA, Lwfans Gofalwr a'r Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) oedd cynnydd yn y llwyth achosion. Fodd bynnag, roedd canran y cynnydd yn llwyth achosion DLA yn sylweddol is na llwyth achosion JSA ac nid yw hyn yn awgrymu fod cysylltiad cryf rhwng defnydd o DLA ac effaith y dirwasgiad.

Roedd cylch gorchwyl yr aseiniad hwn yn cydnabod y byddai'n anodd iawn amcangyfrif cyfanswm y boblogaeth sy'n gymwys i hawlio DLA yng Nghymru am amryw o ffactorau a gwelwyd bod hyn yn wir. Er bod yna ystod o ffynonellau data ar y nifer posibl o blant sydd ag anghenion iechyd, mae cyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â phob ffynhonnell gan gynnwys materion yn ymwneud â hunangofnodi, cydgrynhoi bandiau oedran a data wedi dyddio. Yn bwysicach, efallai nad yw pob un o'r diffiniadau o anabledd a ddefnyddir yn cyd-fynd o anghenraid â meini prawf iechyd 'gweithredol' y DLA (h.y. nid yw anghenion gofal / symudedd yn brawf 'meddygol' yn yr ystyr fanwl) gan olygu na fyddai gan bawb y cofnodir eu bod yn dioddef o salwch ac afiechyd anghenion gofal a symudedd a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn DLA pe baent yn ei hawlio.

Felly, roedd ein gallu i wneud sylwadau ar gyfraddau defnyddio mewn unrhyw ffordd ystyrlon yn gyfyngedig ac ni ellir rhoi sylwadau cywir a chadarn ar faint y boblogaeth sy'n gymwys. O'r herwydd, ni ellir pennu nifer y bobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion (ENRs).

### I.5. Ymgynghori â Cyngor ar Bopeth

Wrth ymgynghori â chynrychiolwyr o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth lleol, gwelwyd eu bod yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a rhwydweithio, ac yn derbyn atgyfeiriadau gan amryw o sefydliadau. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod yna angen parhaus i hyrwyddo'r gwasanaeth a nodi cymhwysedd ymhlith teuluoedd â phlentyn anabl.

Tynnodd y Canolfannau sylw at amryw o rwystrau i gynyddu defnydd. Yn benodol, o ran teuluoedd â phlentyn ag anabledd, dangosodd y Canolfannau ei bod yn well gan rai teuluoedd beidio ag ystyried fod gan eu plentyn anabledd, naill ai er mwyn canolbwyntio ar yr hyn roedd y plentyn yn gallu'i wneud yn dda, neu am fod yna amharodrwydd i dderbyn yr anabledd, neu ddifrifoldeb yr anabledd, neu ei effaith ar eu plentyn.

Ystyriai'r Canolfannau fod yr Ymgyrch wedi ehangu eu gwybodaeth am y gwasanaethau budd-daliadau lles sy'n ymwneud â phlant ag anabledd a chafodd y wybodaeth hon ei throsglwyddo i aelodau eraill o staff y Canolfannau, gan gynyddu gallu'r Canolfannau yn lleol. Dyma ganlyniad ychwanegol a ddylai fod yn gynaliadwy y tu hwnt i'r Ymgyrch hon.

Cynigiai pob Canolfan wiriad budd-daliadau llawn i deuluoedd, a dangosodd hyn fod llawer ohonynt yn derbyn DLA ond yn aml, nid oeddynt yn ymwybodol fod budd-daliadau eraill cysylltiedig ar gael. Roedd y Canolfannau'n ystyried bod yr Ymgyrch wedi'i gweinyddu'n dda ac yn llwyddiannus ar y cyfan o ran manteision gwirioneddol i deuluoedd, gan ddangos fod dull o weithredu drwy ddefnyddio asesiad cyfannol yn sicrhau bod yr Ymgyrch mor effeithiol â phosibl i deuluoedd.

Ystyriai'r Canolfannau fod angen parhau'r Ymgyrch er mwyn sicrhau bod ENRs yn ymgeisio ac yn llwyddo, ac i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y premiwm cywir. Nodwyd y byddai unrhyw ostyngiad yn y cyllid yn arwain at lai o gleientiaid yn derbyn cymorth gan y Canolfannau ac o bosibl, amser aros hirach am gymorth.

## I.6. Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol

Roedd sefydliadau a ymgysylltai â Cyngor ar Bopeth i atgyfeirio cleientiaid am gyngor a chymorth penodol yn gadarnhaol am y gwasanaethau a ddarparwyd. Nodent eu bod yn brin o amser, adnoddau ac arbenigedd yn gyffredinol i allu darparu cymorth a chyngor cynhwysfawr ar fudd-daliadau cysylltiedig ag anabledd, ac roeddynt yn cydnabod arbenigedd Cyngor ar Bopeth a'u gwybodaeth am y system fudd-daliadau.

Mewn cyferbyniad, roedd cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol yn fwy beirniadol o'r dull o weithredu a fabwysiadwyd gan Cyngor ar Bopeth, a oedd, yn rhannol, yn adlewyrchu eu siom parhaus ynglŷn â phenderfyniad Cynulliad Cymru i gyfeirio cyllid trwy Cyngor ar Bopeth. Fodd bynnag, adlewyrchai'n rhannol hefyd eu siom ynglŷn â pherfformiad Cyngor ar Bopeth, a oedd yn cadarnhau eu safbwynt y byddent wedi bod mewn sefyllfa well i gyflwyno ymgyrch effeithiol i annog defnydd, o ystyried eu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â phlant anabl.

## I.7. Ymgynghori â chleientiaid Cyngor ar Bopeth

Ymatebodd cyfanswm o 178 o ymatebwyr i arolwg drwy'r post. Roedd gan ganran amlwg o'r ymatebwyr ddau neu fwy o blant ag anableddau ac roedd incwm blynyddol dros hanner yr ymatebwyr yn sylweddol is na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru.

Ar gyfartaledd, derbyniai teuluoedd £93.66 ychwanegol yr wythnos mewn budd-daliadau, sy'n awgrymu bod cyfran amlwg o deuluoedd wedi gallu ychwanegu canran sylweddol at eu hincwm blynyddol. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod yr arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer byw o ddydd i ddydd gydag ychydig o'r ymatebwyr yn ei gynilo. Byddai hyn yn awgrymu fod yr Ymgyrch yn targedu/ cynorthwyo'r rhai mwyaf anghenus.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi ymgeisio am fudd-daliadau drwy Cyngor ar Bopeth wrth iddynt ddod yn ymwybodol o'u hawl ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol o unrhyw sefydliadau eraill a oedd yn darparu cyngor. Ar lafar y byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi clywed am yr Ymgyrch DLA / cymorth a gynigid gan Cyngor ar Bopeth, a hysbysebion oedd y ffordd leiaf cyffredin o ddod yn ymwybodol ohonynt, sydd o bosibl yn awgrymu fod hysbysebu'n llai effeithiol o gymharu â chlywed ar lafar a chysylltiadau mwy personol eraill. Ychydig iawn a ymgeisiodd ar ôl colli eu gwaith, sy'n awgrymu mai effaith gyfyngedig gafodd y dirwasgiad ar y defnydd o fudd-daliadau'n ymwneud ag anabledd.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn eithriadol o gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth, gydag ychydig ohonynt yn awgrymu gwelliannau.

## I.8. Casgliadau ac Argymhellion

### ***Effaith yr Ymgyrch***

*Perfformiad*

Mae asesiad o berfformiad Cyngor ar Bopeth yn dangos bod yr Ymgyrch wedi llwyddo i gyrraedd ei tharged budd-daliadau ond wedi methu â chyrraedd ei tharged cleientiaid.

Cynyddodd ystadegau llwyth achosion DLA i rai rhwng 0 a 18 oed dros gyfnod yr Ymgyrch ond mae diffyg data penodol ar berfformiad DLA sy'n gysylltiedig â'r Ymgyrch yn golygu nad yw'n bosibl gwneud sylwadau ar y cynnydd canrannol y gellid ei briodoli i'r Ymgyrch. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai effaith gyfyngedig gafodd y dirwasgiad ar y niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau'n ymwneud ag anabledd. Yn yr un modd, mae diffyg data cadarn ar y nifer posibl o blant ag anghenion iechyd yn golygu nad yw'n bosibl gwneud sylwadau pendant a chywir ar faint y boblogaeth gymwys ac yn sgil hynny, nifer yr ENRs.

*Gweithredu'r Ymgyrch*

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru gyllid i Cyngor ar Bopeth Cymru dreialu Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA. Hwylusodd hyn y broses o ddyrannu cyllid yn gyflym ar draws yr holl ALlau a galluogi Cyngor ar Bopeth i fanteisio ar ei fenter BABH ond nid yw'n eglur a fyddai proses gaffael cyhoeddus wedi arwain at well canlyniadau yn y pen draw.

Roedd cost gweinyddu a gweithredu'r Ymgyrch yn fach ac yn gymesur â'r cyllid ar ei chyfer. Ond gallai trefniadau rheoli cadarnach fod wedi cynyddu effaith yr Ymgyrch.

Fodd bynnag, mae'n bosibl bod goruchwyliaeth fanylach a herio beirniadol gan Llywodraeth Cymru, ynghyd â dulliau rheoli cadarnach gan Cyngor ar Bopeth, wedi helpu i wella canlyniadau ac effaith.

Yn gyffredinol, er hynny, mae'r perfformiad yn dangos cymhareb Gwerth am Arian resymol o 1:6 o gymharu â chynlluniau lled gymaradwy mewn mannau eraill a chan ystyried mai cynllun peilot oedd hwn. Hefyd, mae perfformiad cryf iawn mewn Canolfannau penodol yn awgrymu ei bod hi'n bosibl i ddarparwyr cyngor cyffredinol fod yr un mor llwyddiannus, os nad yn fwy llwyddiannus, na darparwyr arbenigol wrth ddarparu gwasanaeth cyngor penodedig i grŵp buddiant penodol.

*Beth sy'n llwyddo*

Cynhaliodd y Canolfannau amryw o weithgareddau gan gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r Ymgyrch, datblygu ystod eang o gysylltiadau a rhwydweithiau atgyfeirio, a darparu allgymorth, ymweliadau cartref a gwaith achos.

Gwelir nifer o themâu allweddol eglur:

- Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod rhwydweithio cyson a rhagweithiol â sefydliadau perthnasol wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch.
- Targedu grwpiau penodol o gleientiaid â llwybrau atgyfeirio clir.

*Argymhellion*

| | |
|---|---|
| *Ffocws yr Ymgyrch* | Mae Llywodraeth Cymru'n egluro'r nod penodol ac, yn sgil hynny, ffocws yr Ymgyrch DLA h.y. y defnydd o DLA yn erbyn cynyddu incwm.<br><br>Golyga hyn os mai sicrhau cymaint o incwm â phosibl yw'r nod penodol, yna argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn caffael cynllun defnyddio budd-daliadau lluosog. |
| *Gwiriad Budd-daliadau Llawn* | Dylai unrhyw Ymgyrch yn y dyfodol fabwysiadu dull gweithredu'n seiliedig ar wiriad budd-daliadau llawn, waeth a yw Ymgyrch o'r fath yn canolbwyntio ar un neu fwy o fudd-daliadau penodol ai peidio, a thrwy hynny sicrhau cymaint o incwm â phosibl i'r teulu a gwella effaith gyffredinol yr Ymgyrch. |

| | |
|---|---|
| *Caffael* | Yn y dyfodol, dylid caffael Ymgyrch drwy broses gaffael gyhoeddus i geisio sicrhau tryloywder, mwy o gystadleuaeth ac arloesedd o ran y dull o weithredu a gwella gwerth am arian. |
| *Cynlluniau Gweithredu* | Dylai darparwr(wyr) llwyddiannus lunio cynlluniau gweithredu clir gan ddefnyddio tystiolaeth o'r llenyddiaeth o'r hyn sy'n llwyddo, a dylai gofnodi mewnbwn a chanlyniadau ar draws y cynlluniau. |
| *Rheoli, Monitro, Adrodd a Gwerthuso* | Rhoi trefniadau adrodd clir ar waith gan gynnwys eglurder ynglŷn â'r data perfformiad sydd i'w gasglu a'i ddadansoddi, gan gofio'r angen am ymdrech gymesur. Dylid monitro trefniadau adrodd yn effeithiol dros gyfnod yr Ymgyrch a dylai'r rhain a'r data perfformiad hwyluso gwerthusiad o effaith yr Ymgyrch. |

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Ym mis Gorffennaf 2009, darparodd Llywodraeth Cymru £500,000 ar gyfer y cyfnod 2009-2011 er mwyn cynorthwyo Cyngor ar Bopeth Cymru i gyflwyno cynllun peilot i edrych ar y ffyrdd gorau o gynyddu incwm cartrefi teuluoedd â phlant anabl. Cyflwynodd Cyngor ar Bopeth Cymru yr ymgyrch hon i annog defnydd o Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ar gyfer plant yng Nghymru (Ymgyrch DLA, Ymgyrch) er mwyn cynyddu'r defnydd o fudd-daliadau fel rhan o'r fenter a oedd eisoes ar y gweill ganddynt drwy Gymru – Cyngor Da: Iechyd Da (BABH).

Comisiynwyd KPMG i werthuso effeithiolrwydd yr Ymgyrch DLA, gyda nodau penodol i:

- Amcangyfrif yr effaith y mae'r ymgyrch wedi'i chael hyd yn hyn ar annog mwy o bobl i ddefnyddio budd-daliadau.
- Gwerthuso sut y gweithredir yr Ymgyrch i weld a yw'n cael ei gweinyddu'n effeithiol a faint mae'n ei gostio i Lywodraeth Cymru a Cyngor ar Bopeth i wneud hynny, wedi'i fesur yn erbyn y cynnydd yn y defnydd o fudd-daliadau.
- Dod i gasgliadau ar ba ymgyrchoedd lleol fu'n fwyaf llwyddiannus a pham, a nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o'r dulliau hyn, ac i ba raddau y gellid eu defnyddio'n ehangach.
- Gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu'r ymgyrch yn y dyfodol i annog defnydd o DLA a darparu cyngor ar ymarferoldeb cynllun cyffredinol neu gynllun defnyddio budd-daliadau lluosog.

## 1.2 Yr angen i werthuso

Ysgogwyd y gwerthusiad hwn gan nifer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod annog y defnydd o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, fel ffordd o gynyddu incwm, yn hanfodol wrth weithio tuag at amcan tlodi plant 2020 ac i gyflawni'r amcanion yn "Cymru'n Un" sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, anghydraddoldeb a chynhwysiant ariannol.
- Mae diweithdra wedi cynyddu'n aruthrol ers dechrau'r dirwasgiad yn 2008 ac wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar y system les ledled Cymru. Mae goblygiadau'r

dirywiad economaidd hwn yn amlygu pwysigrwydd polisïau sy'n ceisio cynyddu incwm personol ac incwm cartrefi ac mae'n bwysig bod cynlluniau fel y rhain yn gweithio'n effeithiol.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i nodi unrhyw welliannau i gynlluniau a ariennir gan y Llywodraeth er mwyn sicrhau'r effaith orau i bobl ar incwm isel a'r rhai mwyaf anghenus ac i sicrhau bod cynlluniau a ariennir gan y llywodraeth yn cael eu gweinyddu'n effeithlon. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod yr Ymgyrch yn cynnig Gwerth am Arian (VFM).
- Amcangyfrifwyd nad yw cyfran sylweddol o'r rheiny sy'n gymwys i gael DLA yn ei hawlio.

## 1.3 Cylch gorchwyl

Dyma'r pwyntiau cyflenwi penodol yn y cylch gorchwyl ar gyfer Gwerthuso'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA ar gyfer Plant yng Nghymru:

*O ran effaith yr Ymgyrch:*

- Dadansoddi tueddiadau hawlio budd-daliadau cyn ac ers gweithredu'r Ymgyrch, gyda golwg ar benderfynu:
  a. a welwyd unrhyw newidiadau sylweddol wedi i'r Ymgyrch ddechrau; a
  b. sut mae maint y newidiadau hyn yn cymharu â'r adnoddau a fuddsoddwyd yn yr Ymgyrch.
- Cymharu'r tueddiadau a welwyd yng Nghymru gydag ardaloedd cymharu priodol er mwyn penderfynu:
  a. sut mae'r tueddiadau yng Nghymru'n cymharu ag ardaloedd eraill lle gweithredwyd ymgyrchoedd tebyg; a
  b. sut mae'r tueddiadau yng Nghymru'n wahanol i ardaloedd lle na weithredwyd ymgyrchoedd a lle na ffurfiwyd polisïau ar gyfer cynyddu defnydd ar lefel leol.
- Cymharu defnydd mewn teuluoedd â phlant yng Nghymru â'r defnydd o DLA yn gyffredinol yng Nghymru ers 2007 i roi tystiolaeth bellach o effaith yr Ymgyrch.

- Amcangyfrif potensial y budd-daliadau nas defnyddiwyd, fel ffordd o ganfod potensial dyfodol yr Ymgyrch.
- Penderfynu i ba raddau y mae'r Ymgyrch yn cael dylanwad sylweddol ar benderfyniadau pobl i hawlio (neu beidio â hawlio) budd-daliadau.
- Darparu tystiolaeth i weld a yw'r dirwasgiad a'r ansefydlogrwydd economaidd wedi cael unrhyw effaith ar gyfraddau a niferoedd sy'n hawlio (h.y. a yw pwysau ariannol ar deuluoedd plant a phobl ifanc anabl wedi ysgogi newid yn y canrannau sy'n hawlio).
- Defnyddio'r llenyddiaeth, a lle bo'n bosibl, data gwirioneddol, i gymharu ymgyrchoedd i annog defnydd sy'n canolbwyntio ar un budd-dal penodol â rhai sy'n cwmpasu cyfres o fudd-daliadau er mwyn gweld a oedd gwahaniaeth yn eu llwyddiant i gynyddu defnydd.

*O ran gweithredu'r Ymgyrch:*

- Trefnu amcangyfrif o gostau gweinyddu/gweithredu'r Ymgyrch i Lywodraeth Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru a darparu asesiad o werth am arian.
- Pwyso a mesur hyn yn erbyn y cynnydd yn y defnydd o fudd-daliadau a ddaeth yn sgil yr Ymgyrch.
- Casglu gwybodaeth fanwl am sut y gweithredir yr Ymgyrch yn ardaloedd yr Awdurdodau Lleol (ALlau) a thrwy'r wybodaeth hon, nodi pa elfennau o'r prosesau y gellid eu gwella a sut byddai hyn yn cyfrannu at y nod o gynyddu'r defnydd ymhellach.
- Nodi enghreifftiau o ddulliau llwyddiannus a llai llwyddiannus a darparu awgrymiadau ar gyfer symud ymlaen.

## 1.4 Methodoleg

Ymgymerwyd â'r gwaith mewn pedwar prif gyfnod:

- Cyfnod A – Cychwyn y Prosiect

Diben Cyfnod A oedd rhoi'r prosiect ar waith. Cynhaliwyd cyfarfod o Grŵp Llywio'r Prosiect ar ddechrau'r aseiniad i drafod y cwmpas a'r materion allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r gwerthusiad.

- Cyfnod B – Adolygiad Bwrdd Gwaith

  Roedd hwn yn cynnwys adolygu a dadansoddi'r canlynol:

  - Llenyddiaeth berthnasol ar ddiwylliant budd-daliadau a rhwystrau sy'n atal pobl rhag hawlio budd-daliadau gan ddefnyddio amryw o adroddiadau fel y'u gwelir yn Atodiad 1. Yn ogystal, cynhaliwyd adolygiad o'r adroddiadau sydd ar gael ar werthusiadau o gynlluniau defnyddio eraill er mwyn cymharu ymgyrchoedd sy'n ceisio cynyddu defnydd o fudd-daliadau unigol ag ymgyrchoedd sy'n cwmpasu pecyn o fudd-daliadau.
  - Dogfennau allweddol oedd yn ymwneud â'r Ymgyrch. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o'r holl ddiweddariadau prosiect Cyngor ar Bopeth sydd ar gael ac adroddiadau cynnydd cysylltiedig ar weithgareddau a pherfformiad.
  - Llwyth achosion DLA cyn ac ers gweithredu'r Ymgyrch, gan ddefnyddio ystadegau a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ogystal â llwyth achosion amryw o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Hefyd, gwnaed cymhariaeth â Phrydain yn gyffredinol a Gogledd-ddwyrain Lloegr.
  - Y data iechyd sydd ar gael er mwyn ceisio amcangyfrif nifer y bobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion (ENRs) er mwyn sefydlu faint sy'n hawlio budd-daliadau ac i bwyso a mesur effaith gymesur y cynllun.

- Cyfnod C – Gwaith Maes

  - Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau lled strwythuredig â Rheolwr Prosiect DLA Cyngor ar Bopeth yn ogystal â rheolwyr Canolfannau lleol a Chynghorwyr DLA a oedd yn rhan o'r gwaith o reoli a gweithredu'r Ymgyrch. Cynhaliwyd grŵp ffocws dilynol gyda grŵp o Gynghorwyr y Canolfannau er mwyn ystyried nifer o faterion yn fwy manwl.

- Cynhaliwyd arolwg drwy'r post wedi'i ddosbarthu drwy'r Canolfannau lleol gyda thua hanner yr ymgeiswyr llwyddiannus. I gefnogi'r ymatebion hyn, cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau ansoddol manwl â deg o deuluoedd.
- Hefyd, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o nifer o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol i archwilio'u safbwyntiau ar yr Ymgyrch hyn yn hyn. Yn eu plith roedd:
    - ➢ Cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru
    - ➢ Cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol
    - ➢ Cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid lleol a nodwyd gan y Canolfannau.

- Cyfnod D – Dadansoddi ac Adrodd
  Mae holl ganfyddiadau'r ymchwil uchod wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

O ran y canfyddiadau a geir yn yr adroddiad hwn, dylid ystyried y canlynol:

- Efallai na fydd y canrannau'n dod i gyfanswm o 100 yn sgil dalgrynnu.
- Fel arfer, nodir canrannau llai na 0.5% fel 0%.
- Bydd y canrannau'n dod i fwy na 100 mewn cwestiynau gyda sawl ateb.
- Os yw'r gell sylfaen yn llai na 100, gofynnir i'r darllenydd fod yn ofalus wrth drin y canlyniadau.
- Dylid pwysleisio mai sylwadau a safbwyntiau goddrychol ymgynghoreion yw canfyddiadau'r ymgynghoriad ac ni ellir gwirio eu cywirdeb ffeithiol.

## 1.5 Trefn yr adroddiad

| **Adran** | **Cynnwys** |
|---|---|
| **Adran 2** | Adolygu'r Dystiolaeth |
| **Adran 3** | Adolygu'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA |
| **Adran 4** | Mesur y Defnydd o DLA |
| **Adran 5** | Ymgynghori â Cyngor ar Bopeth |
| **Adran 6** | Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol |

| Adran | Cynnwys |
|---|---|
| **Adran 7** | Ymgynghori â Chleientiaid Cyngor ar Bopeth |
| **Adran 8** | Casgliadau ac Argymhellion |

## 1.6 Cydnabyddiaethau

Hoffai KPMG ddiolch i bawb a gyfrannodd i’r adroddiad gwerthuso hwn, yn arbennig cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru a Chanolfannau Cyngor ar Bopeth, a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol yn ogystal â chleientiaid Cyngor ar Bopeth a ymatebodd i’n harolwg a’r rhai a gymrodd ran mewn cyfweliadau manwl.

# 2 Adolygu'r Dystiolaeth

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn disgrifio cyd-destun strategol yr Ymgyrch i Annog Defnydd o'r DLA ac yn defnyddio adroddiadau gan grwpiau anabledd sy'n nodi'r costau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â magu plentyn ag anabledd.

Wedyn, mae'n edrych ar y llenyddiaeth sydd ar gael ar ddiwylliant budd-daliadau a rhwystrau sy'n atal pobl rhag hawlio budd-daliadau, gan nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o adroddiadau ac ymgyrchoedd mewn ardaloedd eraill neu yn y gorffennol. Yn benodol, mae'n edrych ar werthusiadau sydd ar gael o ymgyrchoedd tebyg neu gysylltiedig mewn ardaloedd eraill yn y DU, ac yn ceisio cymharu ymgyrchoedd sy'n ceisio cynyddu'r defnydd o fudd-daliadau unigol ag ymgyrchoedd sy'n cwmpasu pecyn o fudd-daliadau i benderfynu a oes unrhyw wahaniaethau o ran eu llwyddiant i gynyddu defnydd.

## 2.2 Rhesymeg y polisi

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers peth amser bod annog pobl i ddefnyddio budd-daliadau nawdd cymdeithasol, fel modd o gynyddu incwm, yn allweddol o ran gweithio tuag at amcan tlodi plant 2020 a chyflawni'r amcanion yn "Cymru'n Un" sy'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, anghydraddoldeb a chynhwysiant ariannol.

Sefydlwyd rhesymeg y polisi ar gyfer yr Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA yn eglur mewn amryw o strategaethau, gan gynnwys:

- Strategaeth Tlodi Plant Cymru sy'n nodi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau iechyd ac addysg a'r canlyniadau economaidd i blant mewn teuluoedd ar incwm isel rhwng 2011-2014.
- Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru sy'n cynnwys cynyddu incwm fel thema ar ei phen ei hun yn y Strategaeth oherwydd natur arbenigol y cyngor a'r cymorth sy'n angenrheidiol a'r amser sydd ei angen i sicrhau bod budd-daliadau'n cael eu derbyn

gan y bobl sydd â hawl i'w derbyn. Mae'n tynnu sylw at gynhalwyr fel grŵp allweddol sy'n llai tebygol o hawlio'r budd-dal y mae ganddynt hawl i'w dderbyn.

Hefyd, mae ymchwil yn dynodi bod teuluoedd â phlentyn ag anabledd yn wynebu anawsterau ariannol ac yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na theuluoedd eraill. Er enghraifft, mae adroddiad gan Cyswllt Teulu[1] yn tynnu sylw at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â magu plentyn anabl ac effeithiau'r dirwasgiad presennol ar deuluoedd. Yn ogystal, dangosodd yr adroddiad bod teuluoedd â phlant anabl yn arbennig yn gweld y system fudd-daliadau'n gymhleth ac anodd i'w defnyddio. Argymhellodd Cyswllt Teulu y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod teuluoedd yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn a galwodd ar y Llywodraeth i weithredu ar fyrder i symleiddio'r systemau budd-daliadau.

## 2.3 Rhwystrau

Cydnabyddir bod defnyddio budd-daliadau'n fater cymhleth ac amlweddog a cheir consensws cryf bod nifer o rwystrau cyffredin yn atal pobl rhag hawlio budd-daliadau sy'n effeithio ar y cyfraddau sy'n eu defnyddio a llwyddiant neu fethiant yr ymgyrchoedd i annog defnydd ohonynt.

Daw hyn yn glir yng nghanfyddiadau corff mawr o lenyddiaeth sy'n ymwneud â'r defnydd o fudd-daliadau ym Mhrydain a Gogledd Iwerddon. Hefyd, craffwyd yn helaeth ar ymdrechion y llywodraeth i gynyddu'r defnydd, gan amlygu pwysigrwydd defnyddio budd-daliadau i fynd i'r afael â thlodi ac i gyfrannu at gynhwysiant a lles cymdeithasol.

Mae adolygiad o'r ymchwil i'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag hawlio budd-daliadau'n nodi bod y prif rwystrau'n cynnwys barn y darpar hawlwyr ynglŷn â chymhwysedd, stigma ac ofni cael eu gwrthod neu wneud camgymeriadau, a rhwystrau gweinyddol neu rwystrau'n ymwneud â systemau, fel llenwi ffurflenni cymhleth neu ddiffyg gwybodaeth a manylion.

[1] Counting the Costs Survey 2010, The financial reality for families with disabled children (http://www.cafamily.org.uk/pdfs/CountingtheCosts2010.pdf)

Mae llawer o'r ymchwil hefyd wedi nodi neu wneud argymhellion ar sut i oresgyn rhwystrau ac felly i gynyddu'r defnydd, ac mae ymgynghori â derbynyddion budd-daliadau wedi nodi sbardunau penodol i hawlio ac enghreifftiau o welliannau a fyddai'n annog mwy o bobl i hawlio'r hyn sydd ganddynt yr hawl i'w dderbyn. Mae Atodiad 1 yn cynnwys manylion am yr adroddiadau a adolygwyd.

## 2.4 Rhesymau dros beidio â hawlio

Roedd y llenyddiaeth yn amlygu amrywiaeth eang o resymau pam nad yw ENRs yn hawlio. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Diffyg ymwybyddiaeth neu wybodaeth am y budd-daliadau penodol sydd ar gael.
- Diffyg ymwybyddiaeth o'r cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau penodol.
- Camddealltwriaeth ynghylch sut mae budd-daliadau'n gweithio a chymhlethdod y system.
- Stigma a chysylltiadau negyddol hawlio budd-daliadau, yn arbennig budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.
- Pryderon ynglŷn â chanlyniad hawliadau, ofni cael eu gwrthod neu sut y gallai'r canlyniad effeithio ar fudd-daliadau eraill neu ofn gwneud camgymeriad ac unrhyw effeithiau dilynol.
- Anawsterau wrth gwblhau ffurflenni swyddogol, gan gynnwys cael anhawster deall cyfarwyddiadau a nodiadau esboniadol.
- Dim awydd i gwblhau ffurflenni / ymdrin â phrosesau biwrocrataidd.
- Amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol ac awydd i ddiogelu preifatrwydd.
- Yr her o fedru cyrraedd swyddfeydd budd-daliadau a'r amserau aros cysylltiedig.
- Cred nad yw'r swm a dderbynnir yn werth yr ymdrech sydd ei hangen i ymgeisio.

## 2.5 Cynyddu'r defnydd

Roedd y llenyddiaeth yn amlygu amrywiaeth eang o ffyrdd i gynyddu defnydd, gan gynnwys y canlynol:

- Gallai dull rhagweithiol o weithredu fod yn fwy llwyddiannus na chyhoeddusrwydd cyffredinol. Clustnodwyd ymweliadau cartref fel modd o gynyddu'r defnydd, yn arbennig ymhlith pobl hŷn.
- Un thema allweddol yw'r syniad o gysylltiad personol, yn aml gyda chanolwr dibynadwy a allai fod yn ffrind neu'n gyswllt proffesiynol. Byddai hyn yn awgrymu y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau defnyddio budd-daliadau fabwysiadu dulliau rhagweithiol.
- Yn aml, gall newidiadau mewn amgylchiadau personol pobl fod yn sbardun i'w hannog i holi ynghylch cymhwysedd, a fyddai'n awgrymu y dylid targedu pobl ar adegau arbennig o'u bywydau fel genedigaeth neu farwolaeth, cyrraedd oed pensiwn neu golli gwaith.
- Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o'u cymhwysedd a rhaid codi ymwybyddiaeth.
- Gall biliau cartref uchel fod yn sbardun, yn arbennig os yw rhywun yn cael anhawster i ymdopi ar ei incwm cyfredol.
- Roedd y thema gweithio mewn partneriaeth yn gyffredin a chydnabuwyd, er y gallai'r llywodraeth wneud mwy i annog defnydd, na allai oresgyn pob rhwystr ar ei phen ei hun. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn amrywio o bartneriaethau anffurfiol i weithio gyda chanolwyr dibynadwy fel meddygon teulu. Roedd peth o'r dystiolaeth yn awgrymu bod partneriaethau sefydledig hirdymor yn fwy effeithiol na phartneriaethau newydd mewn mentrau a ariennir.
- Cydnabuwyd y gellid gwella'r gwaith o dargedu ar lefel leol trwy gyfuno'r ffynonellau data a rhannu data (lle y caniateir hyn yn gyfreithlon).

## 2.6 Gwerthusiadau o gynlluniau defnyddio eraill

Cynhaliodd KPMG ymarfer bwrdd gwaith er mwyn cymharu cynlluniau a ganolbwyntiai ar un budd-dal penodol â rhai sy'n cwmpasu cyfres o fudd-daliadau er mwyn penderfynu a oedd yna unrhyw wahaniaeth rhyngddynt o ran eu llwyddiant i gynyddu defnydd.

Roedd nifer o heriau allweddol yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn sy'n effeithio ar ei ddefnyddioldeb ac ar y casgliadau a ddeilliodd ohono:

- Dangosodd adolygiad o'r llenyddiaeth ac ymgynghori ag ystod o randdeiliaid perthnasol mai ychydig o adroddiadau oedd ar gael ar werthusiadau ffurfiol o gynlluniau defnyddio.
- O'r gwerthusiadau hyn, roedd rhai'n canolbwyntio ar fudd-dal neu fudd-daliadau penodol, ac eraill yn canolbwyntio ar gynyddu defnydd o fudd-daliadau h.y. roeddynt yn cwmpasu pob budd-dal a grant cymwys. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed y cynlluniau hynny a ganolbwyntiai ar fudd-dal penodol yn aml yn sôn am fanteision cyfansawdd drwy ystod o fudd-daliadau. Ymhellach, mae'r math o ddata perfformiad a gofnodwyd, gwahaniaethau yn y modd y cofnodwyd data a chadernid y data a gofnodwyd yn ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliadau pendant ar ba ddull oedd fwyaf llwyddiannus.
- Hefyd, mae'r amrywiaeth o wahaniaethau ar draws y cynlluniau yn golygu y gallai'r gwahaniaeth o ran llwyddiant ddeillio o ffactorau eraill (er enghraifft, grwpiau targed neu fath o weithgareddau defnyddio) boed y cynllun yn canolbwyntio ar un budd-dal penodol neu'n cwmpasu cyfres o fudd-daliadau, ai peidio.
- Yn olaf, roedd yr adroddiadau a oedd ar gael yn amrywio'n sylweddol o ran eu manylder, gan gyfyngu ar y dehongliad o'r canlyniadau.

Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau sydd ar gael a chanlyniadau perfformiad allweddol ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau defnyddio.

**Tabl 1: Crynodeb o Gynlluniau Defnyddio mewn Mannau Eraill**

| **Cynllun, Materion Perthnasol a Pherfformiad** |
|---|
| **Hawlio Cynllun Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) a Budd-dal Tai (HB) yng Nghymru**<br>Darparodd Llywodraeth Cymru £4.5 miliwn ar gyfer gweithgaredd i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau dros bedair blynedd, gan ganolbwyntio ar Fudd-dal y Dreth Gyngor a Budd-dal Tai.<br>*Ystyriaethau*<br>Yn bennaf, adroddai'r ALlau ar berfformiad yn ôl newidiadau cyffredinol yn llwyth achosion a gwariant HB a CTB, ac ni ellid priodoli'r cyfan i'r Cynllun Hawlio. |

Olrheiniodd ychydig o ALlau bob derbynnydd budd-dal yn ôl i ffynhonnell/rheswm dros eu hawliad fel eu bod yn gallu nodi'n gywir pa rai oedd wedi deillio o'r gweithgareddau hawlio HB a CTB, ond nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi gwneud hynny.

Gweithiai rhai ALlau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fel Cyngor ar Bopeth a adroddai'n annibynnol ar lwyddiannau hawlio. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, roedd y cynnydd a gadarnhawyd yn cwmpasu amrywiaeth o fudd-daliadau a grantiau.

*Perfformiad*

Mae'n anodd gwneud sylwadau ar berfformiad cyffredinol y Cynllun, ond cafwyd y wybodaeth ganlynol gan ALlau unigol:

- Llwyddodd Ynys Môn i ennill dros £235,000 o fudd-daliadau i breswylwyr lleol, sy'n awgrymu cymhareb Gwerth am Arian o 1:10.
- Sicrhaodd Pen-y-bont ar Ogwr £694,500 mewn HB a CTB mewn cyfnod o ddwy flynedd, sy'n awgrymu cymhareb Gwerth am Arian o 1:8.
- Buddsoddodd Wrecsam £12,000 mewn cynghorydd a sicrhau £77,000 sy'n awgrymu cymhareb Gwerth am Arian o 1:6.
- Derbyniodd CAB Rhondda Taf £25,000 gan ALl Rhondda Cynon Taf i gefnogi ei Gynllun. Dangosodd adborth gan CAB Rhondda Taf fod y buddsoddiad hwn wedi arwain at adenillion o £506,000 ar draws ystod o fudd-daliadau sy'n awgrymu cymhareb Gwerth am Arian o 1:20.

**Gwasanaeth Budd-daliadau Lles Mencap Cymru**

Mae Mencap Cymru yn darparu gwasanaeth cynghori pwrpasol ar fudd-daliadau lles i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd/cynhalwyr yn Sir Gaerfyrddin a llinell gymorth ffôn drwy Gymru gyfan - y ddau wasanaeth yn rhan-amser.

*Ystyriaethau*

Gwasanaeth rhagweithiol wedi'i dargedu yw gwasanaeth Sir Gaerfyrddin. Llinell gymorth adweithiol yw'r llinell ffôn ac nid yw'n darparu'r un lefel o gymorth â gwasanaeth Sir Gaerfyrddin.

*Perfformiad*

Dangosodd gwaith ymgynghori â Mencap y perfformiad canlynol:

Gwasanaeth uniongyrchol:

- £110,000
- Cymhareb Gwerth am Arian = 1:7

Gwasanaeth ffôn:

- £76,000
- Cymhareb Gwerth am Arian = 1:4.

**Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol (SSA), Gogledd Iwerddon (GI)**

Cyllidodd SSA Raglen Hawlio Budd-daliadau dros dair blynedd wedi'i chyflwyno mewn partneriaeth â Cyngor ar Bopeth yng Ngogledd Iwerddon. Roedd y Rhaglen yn canolbwyntio ar ystod o grwpiau cleientiaid wedi'u targedu ac amrywiaeth o wahanol fudd-daliadau.

*Ystyriaethau*

Drwy'r Rhaglen, llwyddodd yr Asiantaeth i dreialu cyfres o ddulliau, methodoleg, grwpiau targed a budd-daliadau, gan gynnwys targedu pobl oedd yn derbyn DLA a thargedu teuluoedd â phlentyn ag anabledd. Roedd yr holl bobl a dargedwyd eisoes yn derbyn o leiaf un budd-dal y wladwriaeth. Cysylltodd SSA â'r cleientiaid a'u hannog i gysylltu â'u Canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

Yn ddiddorol, y fenter benodol ar gyfer targedu teuluoedd ag un plentyn ag anabledd oedd yr un lleiaf llwyddiannus o gymharu â mentrau oedd yn targedu pensiynwyr hŷn (dros 75 oed), rhai o dan 60 oed a dderbyniai gymhorthdal incwm ac ati. Er i'r gwaith arwain at gyfraddau ymateb uchel, ni chafwyd cyfradd gyfatebol o hawliadau llwyddiannus. Y rheswm am hyn oedd bod y rhan fwyaf o'r teuluoedd a dargedwyd eisoes yn derbyn yr holl fudd-daliadau yr oeddynt yn gymwys i'w derbyn.

Un canfyddiad allweddol o'r Rhaglen oedd bod segmentu grwpiau cwsmeriaid priodol a defnyddio hidlyddion incwm isel addas ychwanegol yn fwy llwyddiannus na thargedu mwy cyffredinol.

*Perfformiad*

Dangosodd gwerthusiad annibynnol y perfformiad canlynol dros gyfnod o dair blynedd:

- Cynorthwywyd 12,075 o gleientiaid
- £14.1 miliwn o gynnydd mewn budd-daliadau (sef y cynnydd mewn budd-daliadau a ddilyswyd gan yr SSA h.y. canlyniadau cywir llawn)
- Cymhareb Gwerth am Arian = 1:13.

**Cyngor ar Fudd-daliadau Lles Canser Macmillan/ Cyngor ar Bopeth Belfast**

Darparodd Macmillan Cancer gyllid i Cyngor ar Bopeth ar gyfer darparu Gwasanaeth Cyngor Budd-daliadau Lles arbennig i gleifion canser, eu teuluoedd a chynhalwyr yn y tri phrif ysbyty yn Belfast.

*Ystyriaethau*

| |
|---|
| Darparodd y gwasanaeth hwn wasanaethau cyngor lles cyfannol i gleifion canser mewn ysbytai ac roedd yn cynnwys gwiriad budd-daliadau llawn. Roedd y cynnydd a gofnodwyd yn cynnwys pob budd-dal lles yn ogystal â grantiau fel grant Macmillan.<br>*Perfformiad*<br>Dangosodd gwerthusiad annibynnol y perfformiad canlynol dros gyfnod o 2.9 o flynyddoedd:<br>- Cynorthwywyd 3,412 o gleientiaid<br>- £4.8 miliwn o gynnydd mewn budd-daliadau<br>- Cymhareb Gwerth am Arian = 1:7. |
| **Prosiect Cyngor ar Fudd-daliadau Macmillan/Cyngor ar Bopeth Rhydychen**<br>Sefydlwyd Prosiect Cyngor Budd-daliadau Macmillan/Cyngor ar Bopeth Rhydychen i ddarparu cyngor ar fudd-daliadau, fel gwasanaeth cleifion allanol, i bobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, câi ei reoli gan un cynghorydd budd-daliadau llawn amser.<br>*Perfformiad*<br>Dynododd adroddiad ar y prosiect y perfformiad canlynol dros ei flwyddyn gyntaf:<br>- Cynorthwywyd 261 o gleientiaid<br>- £308,000 o gynnydd mewn budd-daliadau<br>Cymhareb Gwerth am Arian = heb ei chofnodi. |
| **Prosiect Cyngor Macmillan / Cyngor ar Bopeth De Cumbria**<br>Partneriaeth rhwng Macmillan a Cyngor ar Bopeth oedd hon a'r cyllid wedi'i ddarparu gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Cumbria. Cynyddodd nifer y staff o bedwar i saith gweithiwr achosion rhan-amser.<br>*Perfformiad*<br>Dangosodd adroddiad ar y prosiect y perfformiad canlynol dros gyfnod o dair blynedd:<br>- Cynorthwywyd 731 o gleientiaid<br>- £2.8 miliwn o gynnydd mewn budd-daliadau<br>Cymhareb Gwerth am Arian = heb ei chofnodi. |

Un dangosydd llwyddiant yw'r Gwerth am Arian sy'n gysylltiedig â chynllun h.y. faint o fudd-daliadau a enillwyd fel cymhareb o'r cyllid. Mae Tabl 1 yn dangos fod perfformiad wedi amrywio ar draws y cynlluniau gwahanol, gyda'r Gwerth am Arian yn amrywio o £4 am bob punt a wariwyd mewn prosiect Mencap i £20 mewn prosiect Cyngor ar Bopeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y cynlluniau hyn yn amrywio o ran eu dull gweithredu, y

grŵp cleientiaid a dargedwyd a ffocws y budd-dal lles. O’r herwydd, mae’n anodd dod i gasgliad cadarn a oedd cynlluniau a ganolbwyntiai ar un budd-dal penodol yn fwy neu’n llai llwyddiannus am gynyddu defnydd o gymharu â’r rheiny a gwmpasai gyfres o fudd-daliadau.

Cwestiwn allweddol ar gyfer unrhyw weithgaredd annog defnydd yw hwn: a yw’r ffocws ar gynyddu defnydd o fudd-dal penodol (er enghraifft, os gwyddys fod nifer yr ENRs yn uchel, neu fod rheolau cymhwysedd yn newid gan gynyddu nifer y darpar dderbynyddion), neu, fel arall, a yw’r ffocws ar gynyddu incwm cartrefi, beth bynnag fo’r budd-dal lles neu’r grant (er enghraifft, fel rhan o fenter yn erbyn tlodi).

Mae’r adolygiad o’r cynlluniau’n awgrymu y gallai’r grŵp cleientiaid a dargedir a gweithgareddau annog defnydd penodol fod yn ffactor allweddol wrth gynyddu defnydd, a bod gwiriad budd-daliadau llawn yn ffactor allweddol wrth gynyddu incwm.

## 2.7 Crynodeb

Mae llawer wedi cael ei gofnodi am yr amrywiaeth eang o rwystrau i hawlio budd-daliadau lle y gwyddys eu bod yn effeithio ar y cyfraddau hawlio. Mae’r rhain yn cynnwys diffyg gwybodaeth am y budd-daliadau sydd ar gael neu’r cymhwysedd i’w derbyn, y stigma sy’n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd, amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol, anawsterau wrth lenwi ffurflenni swyddogol, a phryderon ynglŷn â chanlyniad hawliadau.

Mae’r llenyddiaeth yn amlygu ffyrdd gwahanol o gynyddu’r defnydd, gan gynnwys targedu pobl ar adegau o newid mawr yn eu bywydau a defnyddio canolwyr dibynadwy fel meddygon teulu. Fodd bynnag, mae’r llenyddiaeth yn cydnabod hefyd bod angen mwy o ymchwil a gwybodaeth, ar y nifer nad ydynt yn hawlio budd-daliadau ac ar beth sy’n gweithio orau ac i bwy. Yn olaf, mae yna anhawster ychwanegol yn bodoli wrth asesu effaith gweithgareddau hawlio a cheisio gwahaniaethu rhwng effeithiau’r rhain ac effeithiau digwyddiadau neu weithgareddau eraill.

Golyga hyn fod yna heriau arbennig wrth lunio gweithgareddau wedi'u targedu ac wrth fonitro effaith, ac efallai nad yw gweithgareddau o'r fath yn arwain at y canlyniadau a ddisgwylir ac nad oes ganddynt y sylfaen dystiolaeth i'w cyfiawnhau.

Mae adolygiad o'r adroddiadau sydd ar gael ar gynlluniau defnyddio eraill yn awgrymu bod perfformiad, o'i fesur fel Gwerth am Arian, yn amrywio ar draws y cynlluniau. Fodd bynnag, amrywiai'r cynlluniau hyn hefyd o ran eu dull o weithredu, y grŵp cleientiaid a dargedent a ffocws y budd-dal lles sy'n ei gwneud hi'n anodd dod i gasgliad cadarn a oedd cynlluniau a ganolbwyntiai ar un budd-dal penodol yn fwy neu'n llai llwyddiannus o ran cynyddu defnydd o gymharu â chynlluniau oedd yn cwmpasu cyfres o fudd-daliadau. Yr hyn sy'n amlwg yw bod defnyddio gwiriadau budd-daliadau llawn yn ffactor allweddol wrth gynyddu incwm.

# 3 Adolygiad o'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn rhoi trosolwg o'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA, y model ar gyfer ei gyflwyno a data perfformiad o'i ddechrau hyd at fis Mawrth 2011.

Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y DLA ac yn dangos sut gallai derbyn DLA agor y drws i fudd-daliadau eraill.

## 3.2 Cefndir / Trosolwg o'r Ymgyrch

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru £250,000 y flwyddyn ar gyfer y cyfnod 2009-2011 i Cyngor ar Bopeth Cymru dreialu cynllun i gynyddu incwm cartref teuluoedd â phlant anabl.

Fel y gwelwyd ym Mhennod 2, dangosodd gwaith ymchwil ac adroddiadau a ddarparwyd gan Cyswllt Teulu fod teuluoedd â phlant anabl yn llawer mwy tebygol o fod mewn tlodi oherwydd y costau uwch sy'n gysylltiedig â magu plentyn ag anabledd ac yn sgil y colli incwm sy'n gysylltiedig â bod naill ai'n unig riant neu, mewn teuluoedd â dau riant, yr angen mewn llawer o achosion i un o'r rhieni roi'r gorau i weithio. Cydnabuwyd hefyd fod nifer sylweddol o deuluoedd â phlant anabl yng Nghymru nad oeddynt yn hawlio'r DLA y maent yn gymwys i'w dderbyn.

Gweithredwyd yr Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA fel rhan o fenter BABH y Canolfannau Cyngor ar Bopeth i ddarparu cyngor cyffredinol a lles cydgysylltiedig drwy bractisau meddygon teulu a lleoliadau iechyd ledled Cymru.

Yn rhannol, diben hyn oedd sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu'n gyflym ar draws yr holl ALlau heb yr oedi a fyddai'n gysylltiedig â phroses dendro ffurfiol. Cydnabu Llywodraeth Cymru fod gan Cyngor ar Bopeth arbenigedd sylweddol o ran darparu cyngor ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a bod ganddo wybodaeth sylweddol am y system fudd-daliadau. Yn ogystal, ystyriai y byddai Cyngor ar Bopeth yn manteisio ar ei

fenter BABH ac yn manteisio'n llawn ar yr arbenigedd, a'r cysylltiadau a grëwyd, a thrwy hynny'n cynyddu effaith y cyllid sy'n gysylltiedig â'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA.

Mae adolygiad o adroddiadau cynnydd Cyngor ar Bopeth yn dangos bod yr Ymgyrch wedi cael cyhoeddusrwydd ym mhractisau meddygon teulu a chanolfannau iechyd, gan fanteisio ar y fenter BABH. Hefyd, datblygodd y Canolfannau ystod eang o gysylltiadau a rhwydweithiau atgyfeirio, drwy sefydliadau statudol a'r trydydd sector.

### *3.2.1 Mater sy'n codi*

Mae'n werth nodi bod cylch gorchwyl yr aseiniad hwn yn cyfeirio'n benodol at werthuso'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA ar gyfer Plant yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y Llythyron o Gynigion i Cyngor ar Bopeth am yr arian yn cyfeirio at Fenter Annog Defnydd o Fudd-daliadau Anabledd ac roedd agweddau tebyg i'w gweld mewn deunyddiau hyrwyddo eraill gan gynnwys cyhoeddiadau gweinidogol ar yr Ymgyrch, er enghraifft, "Mynd i'r afael â thlodi plant drwy annog plant anabl i hawlio budd-daliadau".

Golygai hyn nad oedd ffocws Cyngor ar Bopeth ar gyfer yr Ymgyrch yn ymwneud bob amser, nac yn llwyr, â chynyddu defnydd o DLA ond yn hytrach ynglŷn â chynyddu incwm i'r teulu cyfan gan ystyried y grantiau oedd ar gael (yn ymwneud ag anabledd ac eraill), credydau treth a grantiau o ffynonellau heblaw'r llywodraeth. Mewn mater cysylltiedig, adroddwyd ar y cynnydd a gadarnhawyd yn gyfansawdd yn hytrach nag yn ôl y math o fudd-dal.

## 3.3 Lwfans Byw i'r Anabl

Budd-dal di-dreth i blant ac oedolion anabl yw'r Lwfans Byw i'r Anabl i'w helpu gyda'r costau ychwanegol sy'n codi yn sgil anabledd. Mae ar gael i rai ag anabledd corfforol neu feddyliol a'r rheiny y mae eu hanabledd yn ddigon difrifol i fod angen cymorth neu oruchwyliaeth wrth ofalu amdanynt eu hunain.

Budd-dal nad yw'n galw am gynnal prawf modd yw DLA ac fel arfer, nid yw cynilion neu incwm yn effeithio arno h.y. gellir ei dalu beth bynnag fo'r incwm, cynilion neu'r cofnod o

gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol. Mae’n ddi-dreth ac nid oes cyfyngiad ar sut y gellir ei wario. Gall rhywun dderbyn DLA hyd yn oed os yw’n gweithio neu’n astudio.

Mae dwy ran, neu ‘elfen’ i DLA:

- Elfen ofal – os oes angen cymorth ar rywun i ofalu am ei hun neu os yw angen goruchwyliaeth i gadw’n ddiogel.
- Elfen symudedd – os na all rhywun gerdded neu os yw angen cymorth i symud. Bydd rhai pobl yn gymwys i gael un elfen yn unig, a gallai eraill gael y ddwy.

Hefyd, telir yr elfen ofal a’r elfen symudedd ar wahanol gyfraddau, yn dibynnu ar sut y mae’r anabledd yn effeithio ar y sawl sy’n ei hawlio.

### *3.3.1 Agor y drws i fudd-daliadau eraill*

Gallai derbyn DLA agor y drws i fudd-daliadau eraill h.y. os yw rhywun yn derbyn DLA, yna gallai fod â hawl i amryw o fathau eraill o gymorth. Weithiau, bydd yr hawl yn dibynnu ar fod yn derbyn elfen benodol o DLA neu gyfradd arbennig o DLA.

Y budd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd a’r Credydau Treth a effeithir yw:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Budd-dal y Dreth Gyngor
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith.

Budd-daliadau eraill posibl yw:

- Grantiau Effeithlonrwydd Ynni – grant i helpu gydag insiwleiddio’r cartref a gwelliannau gwresogi eraill.

- Cynllun Motability – gallai derbyn y gyfradd uwch o elfen symudedd y DLA olygu y gallech fanteisio ar Gynllun Motability. (Drwy'r cynllun hwn, gall rhywun ddefnyddio'u helfen symudedd i brydlesu neu brynu car, cadair olwyn neu sgwter).
- Eithrio rhag talu'r dreth ffordd (treth car) – gallai derbyn cyfradd uwch elfen symudedd y DLA arwain at eithrio rhag talu'r dreth ffordd.
- Bathodyn Glas – bydd cyfradd uwch elfen symudedd y DLA yn rhoi hawl i dderbyn Bathodyn Glas sy'n rhoi consesiynau parcio. (Gallai rhywun fod yn gymwys os nad ydynt yn derbyn cyfradd uwch elfen symudedd y DLA, cyn belled â'u bod yn bodloni rhai amodau penodol).
- Teithio rhatach ar drafnidiaeth gyhoeddus – mae'n bosibl y bydd derbynyddion y DLA yn cael prynu Cerdyn Trên i Bobl Anabl i'w galluogi nhw, a pherson sy'n teithio gyda nhw, i deithio'n rhatach ar lawer o deithiau trên.

Yn olaf, os yw rhywun yn derbyn DLA, yna mae'n bosibl y gall y sawl sy'n gofalu amdano hawlio Lwfans Gofalwr. Yn wir, gall cynhalwyr sy'n anabl neu'n sâl hawlio DLA eu hunain hefyd, hyd yn oed os ydynt eisoes yn derbyn, neu'n gymwys i dderbyn Lwfans Gofalwr.

Yn hyn o beth, mae DLA yn fudd-dal pwysig ynddo'i hun a hefyd, mae'n agor y drws i fudd-daliadau eraill. Felly gallai gael effaith sylweddol ar deuluoedd â phlentyn anabl.

### 3.4 Dyraniad cyllid

Dyrannodd Cyngor ar Bopeth Cymru £30,000 (12%) y flwyddyn ar gyfer rheoli'r prosiect a chostau rhedeg cysylltiedig gan gynnwys cyfraniad at gostau cyflogi Rheolwr Prosiect rhan-amser a Chydgysylltydd Prosiect rhan-amser. Roedd y costau rheoli prosiect yn rhesymol o gymharu â chostau rheoli mentrau eraill a ariennir e.e. prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Roedd y dull hwn o weithredu'n sicrhau bod un sianel ganolog rhwng Llywodraeth Cymru a Cyngor ar Bopeth ar gyfer cysylltu'n gyffredinol ac i dynnu arian i lawr ac adrodd ar ganlyniadau. Hefyd, galluogodd Cyngor ar Bopeth i gydgysylltu hyfforddiant ar draws rhwydwaith y Canolfannau a hwyluso diwrnodau

gwybodaeth chwarterol i gynghorwyr DLA. Bu'r dull hwn o weithredu'n fanteisiol i Cyngor ar Bopeth hefyd, drwy ei gwneud yn bosibl iddo goladu gwybodaeth berthnasol ar gyfer ymchwil polisi cymdeithasol ac i lobïo am newid lle bo angen.

Dyrannwyd y £220,000 a oedd yn weddill ar draws y rhwydwaith o Ganolfannau lleol i sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal ar sail ALl, beth bynnag fo poblogaeth /maint yr ALl. Sicrhaodd hyn fod un Cynghorydd mewn Canolfan ym mhob un o'r 22 ardal ALl, yn unol â'r Llythyr o Gynnig. Golygai hyn fod gan bob ardal ALl o leiaf 0.2 Cynghorydd cyfwerth ag amser llawn (WTE), h.y. tua saith awr yr wythnos, yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth pwrpasol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Bernid mai'r dull yma o weithredu oedd y mwyaf ymarferol a theg, o ystyried y byddai cyllid o lai na £10,000 i bob ardal ALl yn golygu na fyddai'n bosibl i bob Canolfan ddarparu unrhyw wasanaeth sylweddol. Mae Tabl 2 yn dangos dosbarthiad yr arian ar draws y rhwydwaith o Ganolfannau lleol ac ardaloedd ALlau.

**Tabl 2: Dyraniad Cyllid**

| **Canolfannau** | **Ardal Awdurdod Lleol** | **Cyllid** |
|---|---|---:|
| Rhydaman | Sir Gaerfyrddin | £10,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr | £10,000 |
| Caerffili | Blaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy | £30,000 |
| Caerdydd | Caerdydd | £10,000 |
| Ceredigion | Ceredigion | £10,000 |
| Conwy | Conwy | £10,000 |
| Cwm Cynon | Rhondda Cynon Taf | £5,000 |
| Sir Ddinbych | Sir Ddinbych | £10,000 |
| Gwynedd | Gwynedd | £10,000 |
| Merthyr Tudful | Merthyr Tudful | £10,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | Castell-nedd Port Talbot | £10,000 |
| Casnewydd | Casnewydd | £10,000 |

| Canolfannau | Ardal Awdurdod Lleol | Cyllid |
|---|---|---|
| Sir Benfro | Sir Benfro | £10,000 |
| Powys | Powys | £10,000 |
| Rhondda Taf | Rhondda Cynon Taf | £5,000 |
| Abertawe | Abertawe | £10,000 |
| Torfaen | Torfaen | £10,000 |
| Bro Morgannwg | Bro Morgannwg | £10,000 |
| Wrecsam | Wrecsam a Sir y Fflint | £20,000 |
| Ynys Môn | Ynys Môn | £10,000 |
| **Cyfanswm** | | **£220,000** |

Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth

Fel y dangosir yn Nhabl 2, cyfunwyd yr adnoddau ar draws nifer fach o ardaloedd ALlau. Penderfynodd tair Canolfan (Blaenau Gwent, Caerffili a Sir Fynwy) gyfuno eu hadnoddau i gyflogi dau Gynghorydd DLA rhan-amser a darparodd Cyngor ar Bopeth Wrecsam wasanaeth yn ALlau Wrecsam a Sir y Fflint. Cafodd cyllid ar gyfer Rhondda Cynon Taf ei ddosbarthu'n gyfartal i Ganolfannau Cwm Cynon a Rhondda Taf.

### 3.5 Perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Roedd Llythyron o Gynigion Llywodraeth Cymru yn pennu'r dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) canlynol:

- Gweld 1,500 o gleientiaid trwy Gymru bob blwyddyn.
- Cynhyrchu £1.5 miliwn y flwyddyn o fudd-daliadau a gadarnhawyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei darparu ym mhob un o'r 254 swyddfa Cyngor ar Bopeth yng Nghymru.

Felly, gosododd Cyngor ar Bopeth Cymru y targedau perfformiad canlynol i'r Canolfannau ar gyfer pob ardal ALl:

- Cynorthwyo 70 o gleientiaid bob blwyddyn.
- £70,000 y flwyddyn mewn budd-daliadau.

Mae Tabl 3 yn amlinellu perfformiad cyffredinol yn erbyn KPIs y Llythyron o Gynigion. Mae hwn yn dangos bod 2,818 o gleientiaid wedi derbyn cymorth, gydag enillion a gadarnhawyd o £3 miliwn, sy'n awgrymu cyfartaledd o £1,065 y cleient. Felly, cyrhaeddodd yr Ymgyrch ei tharged budd-daliadau er iddi fethu â chyrraedd ei tharged cleientiaid o 3,000 dros ddwy flynedd. Yn seiliedig ar y mewnbwn cyllid, mae perfformiad yn dangos cymhareb Gwerth am Arian o 1:6.

**Tabl 3: Perfformiad yn erbyn y Targedau**

| | Targedau'r Llythyr o Gynnig | Cyfanswm Alldro | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Cleientiaid | 3,000 | 2,818 | 94% |
| Budd-daliadau | £3 miliwn | £3 miliwn | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth

Mae Tabl 4 yn dangos y cynnydd a gadarnhawyd o rwydwaith y Canolfannau ar draws pob ALI o fis Mehefin 2009 i Fehefin 2011. Mae'n dangos bod nifer y cleientiaid a gynorthwywyd a chynnydd a gadarnhawyd yn amrywio'n eithaf sylweddol rhwng Canolfannau lleol, er bod yr Ymgyrch wedi cyrraedd y targed budd-daliadau cyffredinol a osodwyd yn y Llythyr o Gynigion.

**Tabl 4: Cleientiaid a Chynnydd a Gadarnhawyd, Mehefin 2009 – Mehefin 2011[2]**

| Awdurdod | Darparwyd gan | Nifer y Cleientiaid a Gynorthwywyd | Cynnydd a Gadarnhawyd |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | CAB Caerffili | 74 | £75,000 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | CAB Pen-y-bont ar Ogwr | 77 | £31,127 |
| Caerffili | CAB Caerffil | 389 | £222,520 |
| Caerdydd | CAB Caerdydd | 84 | £51,773 |
| Sir Gaerfyrddin | CAB Rhydaman | 121 | £111,578 |
| Ceredigion | CAB Aberteifi | 142 | £106,794 |
| Conwy | CAB Conwy a'r Cylch | 52 | £30,216 |

[2] Esboniad:

| | |
|---|---|
| Mwyaf llwyddiannus | Lleiaf llwyddiannus |

| Awdurdod | Darparwyd gan | Nifer y Cleientiaid a Gynorthwywyd | Cynnydd a Gadarnhawyd |
|---|---|---:|---:|
| Sir Ddinbych | CAB Sir Ddinbych a’r Cylch | 95 | £411,110 |
| Sir y Fflint | CAB Wrecsam | 121 | £151,324 |
| Gwynedd | CAB Gwynedd | 156 | £67,368 |
| Merthyr Tudful | CAB Merthyr Tudful | 58 | £46,247 |
| Sir Fynwy | CAB Caerffili | 56 | £27,269 |
| Castell-nedd Port Talbot | CAB Castell-nedd | 194 | £200,664 |
| Casnewydd | CAB Casnewydd | 212 | £405,472 |
| Sir Benfro | CAB Ardal Penfro | 100 | £138,418 |
| Powys | CAB Powys | 110 | £185,257 |
| Rhondda Cynon Taf | CABx Cwm Cynon a Rhondda Taf | 297 | £172,795 |
| Abertawe | CAB Abertawe | 117 | £155,282 |
| Torfaen | CAB Torfaen | 10 | £11,604 |
| Bro Morgannwg | CAB Bro Morgannwg | 65 | £35,134 |
| Wrecsam | CAB Wrecsam | 194 | £204,467 |
| Ynys Môn | CAB Ynys Môn | 94 | £159,717 |
| Cyfanswm | | 2,818 | £3,001,136 |

Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth

Prif sylwadau:

- Roedd niferoedd y cleientiaid a gynorthwywyd yn amrywio o 10 yn Nhorfaen i 389 yng Nghaerffili.
- Roedd y cynnydd a gadarnhawyd yn amrywio o £11,600 yn Nhorfaen i £411,110 yn Sir Ddinbych.
- Ni chyrhaeddwyd y targed cleientiaid (70 y flwyddyn) yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr ALlau (n=15) ac ni chyrhaeddodd dros hanner ardaloedd yr ALlau y targed budd-daliadau (£70,000 y flwyddyn) (n=12).

Er y gellid priodoli’r amrywiad mewn perfformiad yn rhannol i faint poblogaeth ardal yr ALl[3], mae’n annhebygol mai dyma’r unig reswm o ystyried bod Ceredigion (un o’r ALlau

[3] Ni does cydberthyniad rhwng maint poblogaeth a nifer y teuluoedd a allai fod yn gymwys, ond mae’n rhesymol disgwyl y byddai gan ALlau mwy o faint nifer uwch o deuluoedd cymwys nag ALlau llai o faint.

lleiaf) wedi cyrraedd ei darged cleientiaid a Chaerdydd (yr ALl mwyaf) heb wneud hynny.

Roedd rhai Canolfannau yn wynebu nifer o broblemau a heriau a gafodd effaith andwyol ar eu hallbwn. Er enghraifft, effeithiodd salwch hirdymor aelodau o'r staff ar berfformiad yng Nghanolfannau Conwy a Thorfaen. Wynebodd CAB Caerdydd heriau gweithredol a effeithiodd ar yr Ymgyrch ac adlewyrchwyd hyn yn ei allbwn isel iawn. O ganlyniad, rhoddwyd trefniadau lleol ar waith i sicrhau bod y Canolfannau hyn yn dyrannu digon o adnoddau i'r Ymgyrch er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu targedau lleol, ond fel y mae'r data perfformiad yn ei ddangos, ni fu'r rhain yn llwyddiannus.

Ymhlith rhesymau eraill dros yr amrywiad mewn perfformiad, roedd gwahaniaethau o ran faint y gellid elwa ar y fenter BABH. Roedd prosiectau BABH rhai Canolfannau wedi canolbwyntio ar y ddarpariaeth iechyd meddwl i oedolion a olygodd fod yn rhaid i'r Canolfannau hyn ddatblygu cysylltiadau â sefydliadau oedd yn darparu gwasanaethau i blant ag anabledd, ac mae wedi cymryd amser i olrhain canlyniadau atgyfeiriadau at wasanaethau Cyngor ar Bopeth. Gwelwyd enghraifft o hyn ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy, lle parhaodd lefelau atgyfeirio'n isel er gwaethaf gwaith rhwydweithio a hyrwyddo. Awgrymai hyn mai lefel isel o angen oedd yna yn yr ALlau hyn. Fodd bynnag, fel y nodwyd, cyfunodd Blaenau Gwent a Sir Fynwy eu hadnoddau â Chaerffili a olygodd fod y tri ALl wedi elwa ar y nifer angenrheidiol o gynghorwyr arbenigol a alluogodd y Canolfannau hyn i ailgyfeirio adnoddau yn ôl anghenion cleientiaid.

## 3.6 Dehongli a dadansoddi

Rhaid pwysleisio nifer o bwyntiau amlwg ynglŷn â'r broses o ddehongli a dadansoddi'r data perfformiad hwn.

- Cyfeiria cynnydd a gadarnhawyd at fudd-daliadau a gofnodwyd gan y Canolfannau lleol ac maent yn cynnwys ystod o fudd-daliadau ariannol gan gynnwys DLA a budd-daliadau lles eraill fel Lwfans Gofalwr, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac ati. Drwy ymgynghori â CAB, cadarnhawyd nad oedd pob Canolfan yn gallu darparu

dadansoddiad ôl-weithredol o gynnydd yn ôl y math o fudd-dal at ddibenion y gwerthusiad hwn[4].

- Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd ar gynnydd DLA gwirioneddol dros gyfnod yr Ymgyrch hyd yn hyn, gan ei gwneud yn anodd rhoi sylwadau pendant ar effeithiolrwydd yr Ymgyrch o ran y defnydd o DLA yn unig.

  Golyga hefyd nad yw'r data perfformiad ar gyfer yr Ymgyrch DLA hon yn hwyluso cymhariaeth rhwng ymgyrchoedd annog defnydd sy'n canolbwyntio ar un budd-dal penodol ac ymgyrchoedd sy'n cwmpasu cyfres o fudd-daliadau er mwyn gweld a oes unrhyw wahaniaeth yn eu llwyddiant i gynyddu defnydd.

- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Canolfannau lleol yn dibynnu ar olrhain cyn-gleientiaid neu gleientiaid sy'n dychwelyd atynt i gadarnhau llwyddiant hawliad a/neu apêl benodol am fudd-dal. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos, a hynny i raddau helaeth am mai cyfyngedig yw'r cymorth gweinyddol sydd gan y Canolfannau a chaiff adnoddau eu blaenoriaethu ar gyfer cynorthwyo cleientiaid ac ymgymryd â gwaith achos. O'r herwydd, mae'n debygol na chofnodwyd yr holl fudd-daliadau a gadarnhawyd, ond nid yw'n bosibl asesu na mesur lefel y diffyg.

  Mae hon yn her wrth geisio pennu effeithiolrwydd yr Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA, ac wrth asesu'n gywir yr holl fudd-daliadau ychwanegol y gellir eu priodoli i'r Ymgyrch.

  Mewn cyferbyniad, sefydlodd cynllun defnyddio yng Ngogledd Iwerddon gyswllt eglur rhwng Cyngor ar Bopeth GI, a ddarparai'r cynllun, a'r SSA a oedd yn cyllido'r cynllun ac sy'n gweinyddu budd-daliadau lles yng Ngogledd Iwerddon. Galluogodd hyn yr SSA i olrhain pob cleient a gynorthwywyd gan Cyngor ar Bopeth GI, ac i gofnodi'n gywir a chadarnhau'r holl fanteision ariannol. Yn rhannol, roedd rhaid gwneud hyn gan fod cyllido'r cynllun defnyddio wedi'i seilio ar fodel cyllido yn ôl allbwn, ond roedd hefyd yn cynrychioli'r berthynas waith agos a'r bartneriaeth rhwng Cyngor ar Bopeth a'r SSA.

[4] Cadwodd rhai Canolfannau gofnodion ysgrifenedig a gofnodai £1,504,097 o fudd-daliadau. Roedd 56% (£842,294) o'r ffigur hwn ar gyfer DLA.

- Argymhellir bod Cyngor ar Bopeth Cymru yn archwilio dichonoldeb ac ymarferoldeb olrhain a monitro cleientiaid gyda'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr[5] (heb dorri Deddf Diogelu Data), a bod trafodaethau o'r fath yn cael eu hwyluso gan Lywodraeth Cymru. Yn y dyfodol, byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl asesu'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA yn gywir ac yn drwyadl, a byddai'n asesu'r holl fudd-daliadau ychwanegol y gellir eu priodoli i'r Ymgyrch hefyd.

## 3.7 Gweinyddu'r Ymgyrch

Cadarnhaodd gwaith ymgynghori â Cyngor ar Bopeth a chynrychiolwyr o Uned y Trydydd Sector, yn Llywodraeth Cymru, fod cost gweinyddu a gweithredu'r Ymgyrch yn isel ac yn gymesur â chyfanswm y cyllid sydd ar gael. Ni wnaed unrhyw awgrymiadau sylweddol o ran newid neu wella'r gwaith o weinyddu'r Ymgyrch.

Disgrifiwyd goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o'r Ymgyrch fel 'goruchwyliaeth ysgafn', gan adlewyrchu unwaith eto'r angen am ymdrech gymesur, y gofyniad i ddyrannu cyllid mewn modd amserol a'r ffaith mai cynllun peilot oedd yr Ymgyrch. Golygodd hyn fod angen rhywfaint o hyblygrwydd a lle ar Cyngor ar Bopeth i brofi amryw o ddulliau gweithredu ac i addasu gweithgareddau yn ôl gwybodaeth, profiad ac arferion yr ardaloedd lleol.

Fodd bynnag, golygodd yr 'oruchwyliaeth ysgafn' hon fod peth diffyg eglurder ynglŷn â ffocws gweithgareddau a olygodd nad oedd pob Canolfan yn canolbwyntio eu gweithgareddau ar ddefnydd o DLA, ac ni chafodd cynnydd a gadarnhawyd ar y defnydd o DLA yn benodol ei gofnodi'n ffurfiol. Arweiniodd hefyd at ddiffyg dadansoddiad beirniadol a her i Cyngor ar Bopeth ar ei ddulliau gweithredu a'i berfformiad.

---

[5] Mae'r Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr (DCS) yn rhan o'r Gwasanaeth Pensiynau, Anabledd a Gofalwyr (PDCS) sy'n asiantaeth weithredol yn perthyn i DWP.

Yn yr un modd, roedd Cyngor ar Bopeth yn rheoli'r prosiect drwy ddull rheoli cyfranogol a chydweithio gyda Chanolfannau lleol, yn enwedig y Canolfannau a oedd yn ymdrechu'n galed i weithredu'r Ymgyrch yn effeithiol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r amrywiadau eang mewn perfformiad, a pherfformiad gwael rhai o'r Canolfannau yn enwedig, efallai y byddai agwedd fwy cadarn gyda'r Canolfannau a dull gwahanol o ddosbarthu'r cyllid rhyngddynt wedi bod yn fwy addas, yn enwedig yn yr ail flwyddyn. Er enghraifft, darparodd CAB Wrecsam wasanaethau'n llwyddiannus drwy Wrecsam a Sir y Fflint a gellid bod wedi ystyried y dull gweithredu hwn mewn lleoliadau eraill.

## 3.8 Crynodeb

Dyfarnwyd £500,000 i Cyngor ar Bopeth Cymru dros ddwy flynedd er mwyn cynnal cynllun peilot i annog defnydd o DLA. O ran perfformiad, llwyddodd yr Ymgyrch i gyrraedd ei KPI budd-daliadau o £3 miliwn, ond methodd o ychydig â chyrraedd ei KPI cleientiaid, drwy gynorthwyo 2,818 o gleientiaid yn erbyn targed o 3,000.

Mae dibynnu ar gleientiaid i gadarnhau budd-daliadau, diffyg eglurder ynglŷn â ffocws yr Ymgyrch a chofnodi budd-daliadau'n gyfansawdd yn golygu nad yw'n bosibl pennu effeithiolrwydd cyffredinol yr Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA, na mesur ei heffaith ar y defnydd o DLA, na gwneud cywir o'r holl fudd-dal ychwanegol y gellir ei briodoli i'r Ymgyrch. Er hyn, ar sail y cyllid a neilltuwyd ar gyfer yr Ymgyrch, mae perfformiad yn dangos cymhareb gwerth am arian o 1:6 am bob punt a wariwyd, sy'n rhesymol o gymharu â chynlluniau mewn mannau eraill ac o ystyried mai cynllun peilot oedd hwn.

Fodd bynnag, amrywiai'r perfformiad yn sylweddol rhwng y Canolfannau. Yn wir, ni chyrhaeddodd dros hanner ardaloedd yr ALlau (n=12) y targed ac roedd hi'n amlwg bod gweithredu'r Ymgyrch yn her i rai Canolfannau fel y tystiai eu hallbwn isel. Fodd bynnag, roedd lefelau atgyfeiriadau isel gan Ganolfannau eraill er gwaethaf eu gwaith rhwydweithio a hyrwyddo lleol, a gallai hyn awgrymu mai galw isel sydd am wasanaethau cyngor DLA i blant ag anabledd a'u teuluoedd yn yr ardaloedd hyn.

Roedd cost gweinyddu a gweithredu’r Ymgyrch yn isel ac yn gymesur â’r cyllid. Fodd bynnag, gallai rheoli mwy cadarn fod wedi cynyddu effaith yr Ymgyrch.

# 4 Mesur defnydd o DLA

## 4.1 Cyflwyniad

Mae’r Bennod hon yn edrych ar nifer y bobl ifanc rhwng 0 a 18 oed sy’n derbyn DLA yng Nghymru a chyfanswm y bobl sy’n derbyn DLA yng Nghymru er mwyn darparu tystiolaeth o effaith yr Ymgyrch.

Mae’n edrych hefyd ar sut mae tueddiadau yng Nghymru’n cymharu â rhai Prydain gyfan ac yn benodol, rhai Gogledd-ddwyrain Lloegr.

Dewiswyd Gogledd-ddwyrain Lloegr am mai’r ardal hon yw’r un debycaf i Gymru o holl ranbarthau Lloegr, o ran dangosyddion economaidd-gymdeithasol yn cynnwys cyfraddau cyflogaeth, enillion, canlyniadau iechyd er enghraifft salwch cyfyngus hirdymor, derbynyddion lles ac etifeddiaeth ddiwydiannol. Hefyd, nid yw Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi gweithredu unrhyw ymgyrch benodol i annog defnydd.[6].

Cymharwyd data DWP ar lwyth achosion DLA rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2011 (y datganiad diweddaraf) er mwyn cyflwyno tueddiadau o ran defnydd cyn ac ers gweithredu’r Ymgyrch[7]. Defnyddiwyd y cyfnod hwn o amser gan mai data Awst 2009 yw’r dyddiad agosaf yn dilyn dechrau’r Ymgyrch ym Mehefin 2009, a byddai’r Ymgyrch yn weithredol erbyn Awst 2009.

Hefyd, mae’r Bennod hon yn archwilio llwyth achosion ar gyfer amryw o fudd-daliadau eraill (y Lwfans Gofalwyr a’r Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)) i geisio penderfynu a yw’r tueddiadau yn y llwyth achosion yn debyg i lwyth achosion DLA, a darparu tystiolaeth yn

---

[6] Nid oedd gwaith ymgynghori ag amrywiaeth o sefydliadau anabledd cenedlaethol a DWP yn awgrymu unrhyw ranbarth a oedd wedi gweithredu ymgyrchoedd tebyg.

[7] Mae’r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA i deuluoedd â phlant ag anableddau yng Nghymru yn cynnwys plant rhwng 0 a 18 oed. Fodd bynnag, mae datganiadau DWP swyddogol ar lwyth achosion DLA yn adrodd ar rai 18 oed o fewn band oedran rhwng 18 a 24 oed. Contractwyd DWP i ddadagregu’r band 18-24 oed a darparu data ar gyfer rhai 18 oed yn unig. Felly, mae’r ystadegau yn y Bennod hon ar dderbynyddion rhwng 0 a 18 oed yn gyfuniad o ddatganiadau swyddogol DWP mewn perthynas â rhai rhwng 0 a 17 oed a gwybodaeth a ddarparwyd yn uniongyrchol gan DWP mewn perthynas â rhai 18 oed.

sgil hynny i weld a yw'r dirwasgiad a'r ansefydlogrwydd economaidd yn ei sgil wedi cael unrhyw effaith ar gyfraddau a niferoedd y bobl sy'n hawlio DLA.


Yn olaf, mae'r Bennod hon yn archwilio dichonoldeb amcangyfrif niferoedd y bobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion, fel ffordd o bwyso a mesur y potensial ar gyfer dyfodol yr Ymgyrch.

## 4.2 Dadansoddiad o'r llwyth achosion DLA yng Nghymru

Dengys Ffigur 1 gyfanswm y derbynyddion DLA yng Nghymru rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010. Mae hwn yn dangos bod cynnydd cyson wedi bod yn nifer y derbynyddion DLA rhwng Awst 2007 ac Awst 2010, gan gynyddu 5.9% o tua 231,300 yn Awst 2007 i 242,600 yn Awst 2010. Wedyn, cafwyd gostyngiad bychan yn y llwyth achosion i tua 242,300 yn Nhachwedd 2010 (gostyngiad o 0.1%).

Rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010, cafwyd cynnydd cyffredinol o 1.1% yn nifer y derbynyddion DLA yng Nghymru. Mae'n ddiddorol nodi nad yw'r cynnydd yn y llwyth achosion mor sylweddol rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010 (y cyfnod yr oedd yr Ymgyrch ar waith) ag yn y cyfnod rhwng Awst 2007 ag Awst 2009, cyn yr Ymgyrch, pan welwyd cynnydd o 3.7%.

**Ffigur 1: Cyfanswm y Llwyth Achosion DLA yng Nghymru**





Ffynhonnell: Ystadegau DWP

O ran teuluoedd a phlant yng Nghymru, mae Ffigur 2 yn dangos bod cynnydd cyson wedi bod yn nifer y derbynyddion DLA, o tua 21,470 yn Awst 2007 i 23,480 yn Awst 2010 (cynnydd o 9.4%), gyda gostyngiad bychan o 0.7% i 23,310 yn Nhachwedd 2010.

Cafwyd cynnydd hefyd yn y llwyth achosion DLA rhwng Awst 2009 ac Awst 2010, pan gynyddodd nifer y derbynyddion DLA (rhwng 0 a 18 oed) 1.9%, o 23,040 i 23,480 yn 2010. Byddai hyn yn awgrymu bod cyfran y derbynyddion DLA rhwng 0 a 18 oed wedi cynyddu ar raddfa uwch na chyfanswm y llwyth achosion DLA yn gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried diffyg data perfformiad DLA sy'n gysylltiedig â'r Ymgyrch, nid yw'n bosibl rhoi sylwadau pendant ar y rhesymau am hyn na phriodoli unrhyw gynnydd i effaith yr Ymgyrch.

Yn ddiddorol, fel gyda chyfanswm y llwyth achosion DLA yng Nghymru, nid oedd y cynnydd rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010 (1.2%) mor sylweddol ag yn y ddwy flynedd cyn i'r Ymgyrch ddechrau (7.3%). Gallai hyn awgrymu nad yw'r Ymgyrch wedi cael effaith sylweddol ar y defnydd o DLA.

**Ffigur 2: Llwyth Achosion DLA yng Nghymru (rhwng 0 a 18 oed)**




Ffynhonnell: Ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau

Dengys Tabl 5 nifer y derbynyddion DLA rhwng 0 a 18 oed ym mhob ALl unigol rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010. Roedd newidiadau yn y llwyth achosion yn amrywio'n

sylweddol ar draws yr ALlau, rhwng gostyngiad o 4.9% yng Ngheredigion i gynnydd o 18.7% yn Sir Ddinbych.

Hefyd, dangosir y newidiadau canrannol yn llwyth achosion pob ALl cyn yr Ymgyrch (Awst 2007 i Awst 2009) ac yn ystod yr Ymgyrch (Awst 2009 i Dachwedd 2010). Adlewyrchir y newidiadau hyn hefyd yn Ffigur 3.

Mae'r data'n dangos bod cynnydd llawer mwy yn y llwyth achosion rhwng Awst 2007 ac Awst 2009 (7.3%) nag yn ystod y cyfnod Awst 2009 i Dachwedd 2010 pan oedd yr Ymgyrch ar waith (1.2%).

**Tabl 5: Llwyth Achosion DLA rhwng 0 a 18 oed fesul ALl yng Nghymru**

| Awdurdod Lleol | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-07-Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-07-Awst-09 | Gwahaniaeth Awst-09-Tach-10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0.49 | 0.47 | 0.51 | 0.52 | 0.5 | 2.0% | 4.1% | -2.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.05 | 1.12 | 1.17 | 1.21 | 1.19 | 13.3% | 11.4% | 1.7% |
| Caerffili | 1.45 | 1.50 | 1.53 | 1.52 | 1.5 | 3.5% | 5.5% | -2.0% |
| Caerdydd | 2.24 | 2.33 | 2.38 | 2.43 | 2.4 | 7.1% | 6.2% | 0.8% |
| Sir Gaerfyrddin | 1.25 | 1.38 | 1.42 | 1.42 | 1.43 | 14.4% | 13.6% | 0.7% |
| Ceredigion | 0.41 | 0.41 | 0.39 | 0.40 | 0.39 | -4.9% | -4.9% | 0% |
| Conwy | 0.75 | 0.80 | 0.82 | 0.83 | 0.84 | 12.0% | 9.3% | 2.4% |
| Sir Ddinbych | 0.75 | 0.82 | 0.86 | 0.89 | 0.89 | 18.7% | 14.7% | 3.5% |
| Sir y Fflint | 1.01 | 1.04 | 1.09 | 1.08 | 1.09 | 7.9% | 7.9% | 0% |
| Gwynedd | 0.60 | 0.63 | 0.66 | 0.68 | 0.68 | 13.3% | 10.0% | 3.0% |
| Merthyr Tudful | 0.45 | 0.49 | 0.52 | 0.50 | 0.5 | 11.1% | 15.6% | -3.8% |
| Sir Fynwy | 0.46 | 0.48 | 0.51 | 0.52 | 0.52 | 13.0% | 10.9% | 2.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1.28 | 1.31 | 1.34 | 1.39 | 1.4 | 9.4% | 4.7% | 4.5% |
| Casnewydd | 1.12 | 1.14 | 1.18 | 1.19 | 1.2 | 7.1% | 5.4% | 1.7% |
| Sir Benfro | 0.86 | 0.91 | 0.91 | 0.95 | 0.93 | 8.1% | 5.8% | 2.2% |
| Powys | 0.77 | 0.79 | 0.83 | 0.83 | 0.79 | 2.6% | 7.8% | -4.8% |
| Rhondda Cynon Taf | 1.91 | 1.97 | 2.06 | 2.11 | 2.08 | 8.9% | 7.9% | 1% |
| Abertawe | 1.62 | 1.70 | 1.76 | 1.85 | 1.83 | 13% | 8.6% | 4% |
| Torfaen | 0.74 | 0.76 | 0.75 | 0.75 | 0.73 | -1.4% | 1.4% | -2.7% |
| Bro Morgannwg | 0.85 | 0.85 | 0.85 | 0.86 | 0.85 | 0% | 0% | 0% |
| Wrecsam | 1.01 | 1.04 | 1.10 | 1.13 | 1.14 | 12.9% | 8.9% | 3.6% |

| Awdurdod Lleol | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-07-Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-07-Awst-09 | Gwahaniaeth Awst-09-Tach-10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.42 | 0.43 | 7.5% | 0% | 7.5% |
| Cyfanswm | 21.47 | 22.34 | 23.04 | 23.48 | 23.31 | 8.6% | 7.3% | 1.2% |

Ffynhonnell: Ystadegau DWP


## 4.3 Dadansoddiad o’r Llwyth Achosion DLA ym Mhrydain a Gogledd-ddwyrain Lloegr

Cynyddodd y llwyth achosion DLA ar draws Prydain gyfan a Gogledd-ddwyrain Lloegr hefyd, fel y dangosir yn Ffigur 3.

Ym Mhrydain, cynyddodd cyfanswm y derbynyddion o bob oed 9.32% rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010, o 2.91 miliwn i 3.18 miliwn. Yn debyg i’r tueddiad yng Nghymru, roedd y cynnydd yn y cyfnod ar ôl Awst 2009 (2.74%) yn llai amlwg na’r cynnydd rhwng Awst 2007 ac Awst 2009 (6.4%).

Roedd y tueddiad yn llwyth achosion DLA Gogledd-ddwyrain Lloegr yn debyg i Gymru a Phrydain gyfan, er bod canran y cynnydd ychydig yn uwch yma nag yng Nghymru. Cynyddodd cyfanswm y derbynyddion DLA 6.68% rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010. Roedd hyn yn cymharu â 5.9% o gynnydd yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010, cafwyd cynnydd bach o 1.48% yn y llwyth achosion DLA, a oedd ychydig yn uwch na’r cynnydd o 1.14% yng Nghymru.

**Ffigur 3: Cyfanswm y Llwyth Achosion DLA yng Nghymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Phrydain**




| | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 231.33 | 235.72 | 239.86 | 242.6 | 242.3 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 165.71 | 170.15 | 174.2 | 176.72 | 176.78 |
| Prydain | 2,909.98 | 2,999.65 | 3,096.30 | 3,176.20 | 3,181.08 |


Ffynhonnell: Ystaegau DWP

Rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010, cynyddodd y llwyth achosion DLA ymhlith rhai rhwng 0 a 18 oed 6.57% ym Mhrydain gyfan.

Yn ddiddorol, rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010, gostyngodd y llwyth achosion DLA rhwng 0 a 18 oed 2.29% mewn gwirionedd ym Mhrydain, o gymharu â chynnydd o 1.2% yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod.

Yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr, cynyddodd cyfanswm y llwyth achosion ymhlith rhai rhwng 0 a 18 oed o 17,730 yn Awst 2007 i 19,050 yn Nhachwedd 2010 (cynnydd o 7.45%). Rhwng Awst 2009 ac Awst 2010, cynyddodd nifer y derbynyddion DLA 0.26%, a oedd yn gynnydd llawer is nag yng Nghymru (1.2%).

**Ffigur 4: Llwyth Achosion DLA rhwng 0 a 18 oed yng Nghymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Phrydain**





| | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 21.47 | 22.34 | 23.04 | 23.48 | 23.31 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 17.73 | 18.5 | 19 | 19.31 | 19.05 |
| Prydain | 359.63 | 375.29 | 392.23 | 405.96 | 383.26 |

Ffynhonnell: Ystadegau DWP

## 4.4 Lwfans Gofalwr

Dengys Ffigur 5 nifer y bobl oedd yn hawlio Lwfans Gofalwr yng Nghymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Phrydain gyfan.

**Ffigur 5: Lwfans Gofalwr yng Nghymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Phrydain**




| | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 31.24 | 32.33 | 33.76 | 35.1 | 35.44 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 26.82 | 27.88 | 29.47 | 31 | 31.49 |
| Prydain | 468.06 | 490.03 | 520.35 | 550.86 | 558.47 |

Ffynhonnell: Ystadegau DWP

Rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010, cynyddodd nifer y derbynyddion Lwfans Gofalwr ym Mhrydain 19.32%, tra bod cynnydd rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010 yn 7.33%. Roedd y cynnydd yn y llwyth achosion yn fwy amlwg ym Mhrydain gyfan o gymharu â naill ai Cymru neu Ogledd-ddwyrain Lloegr.

Cynyddodd nifer y bobl a dderbyniai Lwfans Gofalwr 13.44% yng Nghymru rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010, o gymharu â 17.41% yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Roedd y cynnydd rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010 hefyd yn uwch yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr (6.85%) o gymharu â Chymru (4.98%).

## 4.5 Lwfans Ceisio Gwaith

Dadansoddwyd llwyth achosion Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) gan fod yr ystadegau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd yn uniongyrchol.

Mae Tabl 6 yn dangos bod cynnydd sylweddol yn y JSA yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2007-2010, yn fwyaf amlwg rhwng Awst 2007 ac Awst 2009, pan gynyddodd niferoedd hawlwyr y JSA 37,980 (cynnydd o 98%). Mewn gwirionedd, gostyngodd y nifer hwn 12.9% rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010.

**Tabl 6: Llwyth Achosion JSA yng Nghymru**


| | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 | Gwahaniaeth Awst -07 - Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-09 - Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-07 - Awst-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 1.81 | 2.13 | 3.23 | 2.79 | 2.71 | 49.72% | -16.10% | 78.45% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.77 | 1.95 | 3.81 | 3.12 | 3.06 | 72.88% | -19.69% | 115.25% |
| Caerffili | 2.76 | 3.4 | 5.82 | 5.11 | 4.96 | 79.71% | -14.78% | 110.87% |
| Caerdydd | 4.48 | 5.44 | 9.28 | 9.06 | 8.98 | 100.45% | -3.23% | 107.14% |
| Sir Gaerfyrddin | 2.07 | 2.19 | 3.45 | 3.28 | 3.06 | 47.83% | -11.30% | 66.67% |
| Ceredigion | 0.64 | 0.58 | 0.85 | 0.78 | 0.93 | 45.31% | 9.41% | 32.81% |
| Conwy | 1.36 | 1.59 | 2.56 | 2.21 | 2.27 | 66.91% | -11.33% | 88.24% |
| Sir Ddinbych | 1.28 | 1.45 | 2.24 | 2 | 2.13 | 66.41% | -4.91% | 75.00% |
| Sir y Fflint | 1.6 | 1.79 | 3.47 | 2.96 | 2.82 | 76.25% | -18.73% | 116.88% |
| Gwynedd | 1.45 | 1.49 | 2.02 | 1.9 | 2.21 | 52.41% | 9.41% | 39.31% |
| Merthyr Tudful | 1.15 | 1.37 | 2.41 | 1.99 | 1.9 | 65.22% | -21.16% | 109.57% |
| Sir Fynwy | 0.62 | 0.74 | 1.52 | 1.29 | 1.21 | 95.16% | -20.39% | 145.16% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1.98 | 2.12 | 3.71 | 2.97 | 2.54 | 28.28% | -31.54% | 87.37% |
| Casnewydd | 2.21 | 2.58 | 4.68 | 4.04 | 4.06 | 83.71% | -13.25% | 111.76% |
| Sir Benfro | 0.91 | 1.04 | 2.15 | 2.22 | 2.3 | 152.75% | 6.98% | 136.26% |
| Powys | 1.1 | 1.18 | 1.98 | 1.61 | 1.65 | 50.00% | -16.67% | 80.00% |
| Rhondda Cynon Taf | 3.2 | 4.01 | 7.08 | 6.05 | 6.02 | 88.13% | -14.97% | 121.25% |
| Abertawe | 3.13 | 3.39 | 5.72 | 5 | 4.5 | 43.77% | -21.33% | 82.75% |
| Torfaen | 1.35 | 1.55 | 2.76 | 2.34 | 2.34 | 73.33% | -15.22% | 104.44% |
| Bro Morgannwg | 1.39 | 1.8 | 3.13 | 2.78 | 2.77 | 99.28% | -11.50% | 125.18% |
| Wrecsam | 1.59 | 1.88 | 3.42 | 2.98 | 2.93 | 84.28% | -14.33% | 115.09% |
| Ynys Môn | 1.07 | 1.13 | 1.61 | 1.71 | 1.65 | 54.21% | 2.48% | 50.47% |

| | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 | Gwahaniaeth Awst -07 - Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-09 - Tach-10 | Gwahaniaeth Awst-07 - Awst-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **38.92** | **44.8** | **76.9** | **68.19** | **67** | **72.15%** | **-12.87%** | **97.58%** |

Ffynhonnell: Ystadegau DWP

Mae Ffigur 6 yn dangos bod nifer y bobl a hawliai JSA wedi cynyddu 72.15% yng Nghymru rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010, o gymharu â 65.16% yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Y cynnydd ym Mhrydain gyfan oedd 68.55% rhwng Awst 2007 a Thachwedd 2010, a oedd yn llai amlwg na'r cynnydd yng Nghymru.

**Ffigur 6: Lwfans Ceisio Gwaith yng Nghymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr a Phrydain**




| | Awst-07 | Awst-08 | Awst-09 | Awst-10 | Tach-10 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | 38.92 | 44.8 | 76.9 | 68.19 | 67 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 46.38 | 52.12 | 81.67 | 75.95 | 76.6 |
| Prydain | 788.45 | 868.73 | 1,485.32 | 1,349.71 | 1,328.91 |

Ffynhonnell: Ystadegau DWP

## 4.6 Y berthynas rhwng DLA a'r dirwasgiad

Gwelwyd bod diweithdra wedi mwy na dyblu yng Nghymru rhwng brig y ffyniant a chyfnod gwaetha'r dirwasgiad a olygodd fod y wlad wedi'i heffeithio'n waeth nag unrhyw genedl arall yn y DU.

Mae ystadegau JSA yn dangos effaith y dirwasgiad a'r hinsawdd economaidd yn eglur, a chafodd effaith fwy ar Gymru nag ar Ogledd-ddwyrain Lloegr a Phrydain yn gyffredinol, fel y mae'r cynnydd uwch yn y llwyth achosion JSA yng Nghymru yn ei ddangos.

Cynyddodd y llwyth achosion DLA yng Nghymru flwyddyn ar ôl blwyddyn, nes gostwng ychydig ym mis Tachwedd 2011, a gwelwyd tueddiadau tebyg yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ac ym Mhrydain yn gyffredinol. Yn yr un modd, gwelwyd cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y defnydd o Lwfans Gofalwr yn y tair ardal.

Y tueddiad felly dros y pedair blynedd diwethaf oedd cynnydd yn llwyth achosion y tri budd-dal. Fodd bynnag, roedd y cynnydd canrannol yn llwyth achosion DLA ym mhob ardal yn sylweddol is nag ar gyfer JSA, ac mae'r cynnydd yn llwyth achosion DLA yng Nghymru wedi bod ychydig yn is nag ym Mhrydain gyfan, er ei fod yn uwch nag yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Hefyd, yn wahanol i JSA, gwelwyd cynnydd cyson yn y defnydd o DLA dros nifer sylweddol o flynyddoedd cyn 2007.

Nid yw'r dystiolaeth yn awgrymu felly bod cysylltiad cryf rhwng y defnydd o DLA ac effaith y dirwasgiad.

## 4.7 Amcangyfrif faint o bobl sydd â hawl nad ydynt yn dderbynyddion

Gofynnai'r cylch gorchwyl ar gyfer yr aseiniad hwn am amcangyfrif o faint o bobl sydd â hawl i dderbyn budd-daliadau nad ydynt yn dderbynyddion, fel ffordd o bwyso a mesur potensial yr Ymgyrch yn y dyfodol. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn golygu amcangyfrif nifer yr ENRs er mwyn sefydlu cyfradd defnyddio.

Cofnodi defnydd o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd[8] yn unig a wna DWP ac ni cheir unrhyw amcangyfrifon swyddogol o fudd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd fel DLA. Deillia hyn o'r cymhlethdod a'r anawsterau sy'n codi o geisio sicrhau amcangyfrif cywir o gyfanswm y boblogaeth sy'n gymwys i hawlio DLA (a budd-daliadau eraill nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd).

[8] Mae *Income Related Benefits Estimates of Take-Up in 2008-09* yn rhoi amcangyfrifon ar gyfer Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor a Lwfans Ceisio Gwaith.

Yn wir, comisiynodd DWP astudiaeth ddichonoldeb ar gyfradd hawlio DLA a Lwfans Gweini[9]. Dangosodd yr astudiaeth hon ei bod hi'n anodd nodi pwy sy'n gymwys i dderbyn DLA am nifer o resymau:

- Nid yw DLA yn dibynnu ar brawf modd ac felly mae'n amhosibl defnyddio data gweinyddol sy'n bodoli'n barod ar incwm i bennu pwy sy'n gymwys.
- Seiliwyd y meini prawf cymhwysedd ar anghenion symudedd a gofal unigolyn a gall y rhain fod yn anodd eu pennu, yn enwedig gan fod yr anghenion hyn yn newid dros amser.
- Caiff effaith anabledd ar anghenion ei gofnodi gan yr unigolyn ei hun felly mae'n ddibynnol ar allu asesu a chofnodi'n gywir.
- Gan fod cyflyrau iechyd yn anodd eu mesur, yn enwedig os oes problemau lluosog, mae'r wybodaeth y seilir penderfyniadau DLA arni yn fwy agored i ddehongliad nag sy'n wir am fudd-daliadau eraill. Mae'r ansicrwydd gwirioneddol hwn yn awgrymu bod y penderfyniad ynglŷn â DLA hefyd yn cynnwys elfen oddrychol ar ran y sawl sy'n penderfynu.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith fod cymhlethdodau o'r fath yn egluro pam y mae'r boblogaeth sy'n gymwys 'mewn gwirionedd' yn anodd ei diffinio [10], a nododd fod amcangyfrif maint y boblogaeth gymwys a chyfradd defnyddio yn anodd, os nad yn amhosibl. Er bod yr adroddiad yn cynnig cyfres o argymhellion a'r camau nesaf ar gyfer amcangyfrif defnydd o DLA, mae'n rhaid nodi mai ychydig o gynnydd a wnaeth y DWP i'r perwyl hwn.

## 4.8 Data iechyd

Er gwaethaf y problemau hyn a'r anawsterau cydnabyddedig, ystyriwyd amcangyfrif nifer yr ENRs drwy archwilio amrywiaeth o ffynonellau data sydd ar gael ar bobl

9 *The take-up rate of Disability Living Allowance and Attendance Allowance: Feasibility study;* gan Diana Kasparova, Alan Marsh a David Wilkinson.

10 Yn wir, barnodd y DWP nad oedd canlyniadau arolwg a gynhaliwyd ym 1998 ar gyfer amcangyfrif cyfradd hawlio DLA/Lwfans Gweini yn gadarn.

anabl yng Nghymru, tra'n cydnabod bod prinder dangosyddion cymdeithasol procsi ar gael ar gyfer nodi cartrefi â phlant ag anabledd.

Nodwyd y ffynonellau data iechyd posibl canlynol:

- Cofrestri Awdurdodau Lleol o Bobl ag Anableddau, 2010
- Arolwg Iechyd Cymru, 2010
- Cyfrifiad 2001
- Daffodil v1.0.

### *4.8.1 Cofrestri Awdurdodau Lleol o Bobl ag Anableddau*

Cyhoeddir Cofrestri Awdurdodau Lleol o Bobl ag Anableddau gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn Llywodraeth Cymru. Mae'r datganiad hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn crynhoi gwybodaeth am bobl ag anableddau sydd wedi cofrestru gydag Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

Dangosodd y datganiad diweddaraf fod 89,599 o bobl wedi'u cofrestru ar 31 Mawrth 2010, ac o'r rhain, roedd tua 5,000 yn blant rhwng 0 a 18 oed[11].

**Tabl 7: Cofrestri ALl**

| | **O dan 16 oed** | **16 oed a throsodd** | **Cyfanswm** |
|---|---:|---:|---:|
| Anableddau dysgu | 3,193 | 11,578 | 14,771 |
| | **O dan 18 oed** | **18 oed a throsodd** | **Cyfanswm** |
| Anabledd corfforol | 476 | 45,993 | 46,469 |
| Anabledd synhwyraidd | 743 | 27,616 | 28,359 |

Ffynhonnell: Cofrestri Awdurdodau Lleol o Bobl ag Anableddau, Mawrth 2010

Fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau'n gysylltiedig â'r data, yn ogystal â'r materion generig a nodwyd yn flaenorol:

- Mae cofrestru'n wirfoddol ac felly nid yw'n cofnodi pawb sydd ag anabledd. Ni wyddys pa ganran o blant ag anabledd sydd heb eu cofrestru.

[11] Cadarnhaodd y Gyfarwyddiaeth Ystadegol fod gwybodaeth ynglŷn ag oedran ond yn cael ei chasglu yn y grwpiau oedran hyn ac ni ellid darparu dadansoddiad manylach o oedran.

- Ni ellir rhagdybied bod gan bawb sydd wedi cofrestru anghenion gofal a symudedd a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn DLA, er y bydd rhai'n gymwys.
- Cydgrynhoir y data o dan 16 oed ar gyfer anableddau dysgu ac o dan 18 oed ar gyfer anableddau corfforol a synhwyraidd, sy'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r rheiny sydd rhwng 0 a 18 oed ar y Cofrestri.

O ddata DLA y DWP gwyddom fod 23,300 o blant yn rhan o lwyth achosion DLA yn Nhachwedd 2010. Mae hyn yn awgrymu nad yw Cofrestri'r ALlau yn ddangosydd cymdeithasol procsi cadarn na dibynadwy ar gyfer nodi cartrefi â phlant anabl.

*4.8.2 Daffodil*

System ar y we yw Daffodil a ddatblygwyd gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'n crynhoi mewn un lle y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cynllunio pa wasanaethau gofal a allai fod yn angenrheidiol yn y dyfodol.

Mae'n cymryd data o amryw o ffynonellau a chymhwysir cyfraddau niferoedd achosion yn ôl amcanestyniadau poblogaeth er mwyn amcangyfrif y niferoedd dros amryw o flynyddoedd.

**Tabl 8: Ystadegau Iechyd**

| **Data**[12] | **2011** |
|---|---|
| Iechyd meddwl (rhwng 5 a 15 oed) (Daw'r ffigurau o'r tabl ar niferoedd achosion o anhwylderau seiciatrig yn ôl rhyw ac oedran, 1999, yn yr adroddiad *The Mental Health of Children and Adolescents in Great Britain*, 1999, Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)) | 36,029 |
| Salwch cyfyngus hirdymor rhwng 0 a 15 oed (Arolwg Byw yng Nghymru. 2008) | 18,231 |
| Anabledd yn ôl diffiniad y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd rhwng 0 a 17 oed (*Prevalence of childhood disability and the characteristics and circumstances of disabled children in the UK*, Blackburn et al, BMC Paediatrics, 2010) | 45,473 |
| Anabledd difrifol rhwng 0 a 17 oed (*The health of children and young people, Chapter 10: Disability*, ONS, 2004) | 623 |

[12] http://www.daffodilcymru.org.uk

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r data, yn ogystal â'r materion generig a nodwyd yn flaenorol:

- Daw'r data o amrywiaeth o ffynonellau, felly mae'n debyg y bydd rhywfaint o ailadrodd cofnodion.
- Ni ellir rhagdybied bod gan bawb a gofnodwyd anghenion gofal a symudedd a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn DLA, er y bydd rhai'n gymwys.
- Mae rhywfaint o'r data wedi dyddio.
- Mae rhywfaint o'r data'n seiliedig ar hunangofnodi.

Mae'r data yn awgrymu y gallai fod llawer mwy o blant ag anabledd yng Nghymru nag sy'n derbyn DLA. Fodd bynnag, awgryma'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r data hwn nad yw'n ddangosydd cymdeithasol procsi cadarn na dibynadwy ar gyfer nodi cartrefi â phlant anabl.

### 4.8.3 *Cyfrifiad 2001*

Casglodd Cyfrifiad 2001 y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag iechyd yng Nghymru:

- roedd 36,435 o bobl ifanc rhwng 0 a 19 oed â salwch cyfyngus hirdymor.
- dywedodd 10,704 o bobl ifanc rhwng 0 a 19 oed fod eu hiechyd 'ddim yn dda'.
- nid oedd 585 o'r rhai rhwng 16 a 18 oed yn gweithio am eu bod yn sâl yn barhaol neu'n anabl.

Unwaith eto, fodd bynnag, mae yna gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r data, yn ogystal â'r materion generig a nodwyd yn flaenorol:

- Mae data Cyfrifiad 2001 bellach yn ddeng mlwydd oed ac mae yna ddiffyg gwybodaeth ychwanegol ar gyfer olrhain tueddiadau gan na chafodd nifer o'r cwestiynau a oedd o ddiddordeb yng Nghyfrifiad 2001 eu gofyn ym 1991.
- Cydgrynhoir data ar sail 0–19 oed sy'n golygu na ellir cymharu'n uniongyrchol â llwyth achosion DLA 0–18 oed , er y gellir dod i gasgliadau bras.
- Ni fyddai gan bawb a nododd eu bod yn dioddef o salwch ac iechyd gwael anghenion gofal a symudedd a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn DLA pe baent yn ymgeisio amdano, er y byddai rhai'n gymwys.

Mae'r data yn awgrymu bod nifer arwyddocaol o blant rhwng 0 a 19 oed â salwch cyfyngus hirdymor yng Nghymru (36,435) sy'n fwy na nifer y plant rhwng 0 a 18 oed sy'n derbyn DLA (23,400). Hyd yn oed ag ystyried y flwyddyn ychwanegol, awgryma hyn y gallai fod yna rai plant sy'n gymwys i dderbyn DLA ond nad ydynt yn ei hawlio. Er hynny, ni ellir pennu maint y boblogaeth gymwys na nifer yr ENRs yn bendant na dibynadwy, yn sgil y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â data Cyfrifiad 2001.

*4.8.4 Arolwg Iechyd Cymru, 2010*

Ffynhonnell wybodaeth am iechyd pobl yng Nghymru, y ffordd y defnyddiant y gwasanaethau iechyd, a'r pethau sy'n gallu effeithio ar iechyd pobl yw Arolwg Iechyd Cymru (WHS). Seiliwyd y canfyddiadau ar arolwg o sampl o'r boblogaeth gyffredinol sy'n byw ar aelwydydd preifat yng Nghymru.

Y canfyddiad allweddol mewn perthynas â phlant yw:

- bod 20% o blant yn dioddef salwch hirsefydlog yn ôl yr hyn a gofnodai'r Arolwg, gan gynnwys 6% oedd â salwch cyfyngus hirsefydlog.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r data, yn ogystal â'r materion generig a nodwyd yn 5.5.

- Gan fod Arolwg Iechyd Cymru'n dibynnu ar holiaduron hunan-lenwi, mae'r canlyniadau'n adlewyrchu dealltwriaeth rhieni eu hunain o iechyd eu plant yn hytrach nag asesiad clinigol o'u cyflwr meddygol.

Mae'r data hyn yn awgrymu bod gan tua 30,000 o blant rhwng 0 a 18 oed salwch cyfyngus hirdymor yng Nghymru, sy'n fwy na nifer y plant rhwng 0 a 18 oed sy'n derbyn DLA (23,400). Yn debyg i ddata'r Cyfrifiad, awgryma hyn y gallai fod yna rai plant sy'n gymwys i dderbyn DLA ond nad ydynt yn ei hawlio. Unwaith eto, ni ellir pennu maint y boblogaeth gymwys yn ei chyfanrwydd na nifer yr ENRs yn bendant na dibynadwy, yn sgil y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r WHS.

### *4.8.5 Crynodeb o’r Amcangyfrifon*

Mae’r heriau sy’n gysylltiedig â mesur defnydd o DLA, absenoldeb dangosyddion cymdeithasol procsi ar gyfer nodi cartrefi â phobl anabl, a’r cyfyngiadau sy’n gysylltiedig â’r data iechyd sydd ar gael, yn ei gwneud hi’n anodd gwneud sylwadau ar y cyfraddau defnyddio mewn unrhyw ffordd ystyrlon nac amcangyfrif nifer ENRs yn bendant a dibynadwy.

Yn ddiddorol, roedd yr SSA yng Ngogledd Iwerddon yn cydnabod y byddai’n fanteisiol cael amcangyfrifon o’r defnydd o nifer o fudd-daliadau (nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd), ac yn ôl daearyddiaeth, er mwyn darparu data mwy cadarn yn ymwneud â chyfraddau tlodi ac anfantais. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cydnabod y cyfyngiadau methodolegol ac ymarferol sylweddol yn ogystal â’r goblygiadau ariannol mawr oedd yn gysylltiedig â gwneud hyn ac ni weithredwyd y syniad.

## 4.9 Crynodeb

Yng Nghymru, cafwyd cynnydd cyson yn y llwyth achosion DLA i rai rhwng 0 a 18 oed cyn gostwng eto yn Nhachwedd 2010. Dros gyfnod o bedair blynedd, cynyddodd llwyth achosion rhai rhwng 0 a 18 oed ar raddfa uwch na chyfanswm y llwyth achosion DLA yng Nghymru.  Yn ddiddorol, fodd bynnag, nid oedd y cynnydd yn llwyth achosion rhai rhwng 0 a 18 oed yn ystod yr Ymgyrch (h.y. rhwng Awst 2009 a Thachwedd 2010 (1.2%)) mor sylweddol ag yn y ddwy flynedd cyn i’r Ymgyrch ddechrau (7.3%). Gallai hyn awgrymu nad yw’r Ymgyrch wedi effeithio’n sylweddol ar y defnydd o DLA.

Y tueddiad cyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf mewn perthynas â DLA, Lwfans Gofalwr a JSA oedd cynnydd mewn llwyth achosion. Fodd bynnag, roedd canran y cynnydd yn y llwyth achosion DLA yn sylweddol is nag ar gyfer JSA ac nid yw’n awgrymu bod cysylltiad cryf rhwng y defnydd o DLA ac effaith y dirwasgiad.

Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer yr aseiniad hwn yn cydnabod y byddai'n anodd iawn amcangyfrif cyfanswm y boblogaeth sy'n gymwys i hawlio DLA yng Nghymru am nifer o resymau a gwelwyd bod hyn yn wir. Er bod amryw o ffynonellau data ar gael ar nifer posibl y plant ag anghenion iechyd, mae cyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â phob ffynhonnell gan gynnwys materion yn ymwneud â hunangofnodi, cydgrynhoi bandiau oedran a data sydd wedi dyddio. Yn fwy arwyddocaol, efallai nad yw'r holl ddiffiniadau o anabledd a ddefnyddir o anghenraid yn cyd-fynd â meini prawf iechyd 'gweithredol' y DLA (h.y. nid yw anghenion gofal / symudedd yn brawf 'meddygol' pendant) sy'n golygu nad oes gan bawb y cofnodwyd bod ganddynt salwch neu iechyd gwael anghenion gofal a symudedd a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn DLA pe baent yn ymgeisio amdano.

Felly, roedd adrodd ar gyfraddau defnyddio mewn unrhyw ffordd ystyrlon mae'n anodd ac nid yw'n bosibl adrodd yn gywir na'n gadarn ar faint y boblogaeth gymwys na nifer yr ENRs.

# 5 Ymgynghori â Cyngor ar Bopeth

## 5.1 Cyflwyniad

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o'r Canolfannau a oedd yn rhan o waith yr Ymgyrch ar draws y 22 ALl yng Nghymru. Trafodwyd nifer o bynciau yn y cyfweliadau, gan gynnwys:

- Y gweithgareddau a gynhaliwyd
- Y rhesymeg dros eu dull gweithredu
- Canlyniadau
- Manteision ychwanegol
- Beth oedd yn effeithiol a beth oedd yn llai effeithiol
- Effaith ar wahanol grwpiau
- Arferion gorau a gwersi a ddysgwyd
- Gweinyddu'r Ymgyrch
- Dewisiadau eraill yn lle'r Ymgyrch.

Wedyn, cynhaliwyd grŵp ffocws gyda 12 o Gynghorwyr o bob rhan o'r rhwydwaith o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth lleol. Hefyd, ymgynghorwyd â Rheolwr y Prosiect yn Cyngor ar Bopeth Cymru.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriadau hyn.

## 5.2 Trosolwg o'r gweithgareddau

Trwy ymgynghori â chynrychiolwyr o'r rhwydwaith o Ganolfannau a dadansoddi adroddiadau cynnydd Cyngor ar Bopeth roedd hi'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r Canolfannau lleol wedi cynnal gweithgareddau i gychwyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch a hawl bosibl teuluoedd i fudd-daliadau'n ymwneud ag anabledd. Parhaodd y rhan fwyaf o'r Canolfannau i gynnal gweithgareddau hyrwyddo a rhwydweithio rheolaidd dros gyfnod yr Ymgyrch. Roedd gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Cysylltu ag amrywiaeth eang o sefydliadau rhanddeiliaid ar draws y gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a'r trydydd sector. Roedd hyn yn cynnwys ysgolion anghenion arbennig lleol, canolfannau iechyd, ysbytai a thimau gwasanaethau cymdeithasol oedd yn cyfrannu gwybodaeth i'r Ymgyrch DLA a gwasanaethau a chymorth Cyngor ar Bopeth. Hefyd, roedd yn cynnwys cyswllt ag ystod o sefydliadau grwpiau buddiant cyffredinol a phenodol fel Cychwyn Cadarn, Homestart, Mencap ac ABCD Cymru.

  Roedd y cyswllt yn amrywio o gyflwyniadau ffurfiol i fynychu cyfarfodydd timau staff lleol a galwadau ffôn cadw mewn cysylltiad rheolaidd.
- Gosod posteri mewn lleoliadau fel canolfannau iechyd lleol ac ysbytai.
- Hysbysebu mewn papurau newydd lleol ac ar y radio, llunio datganiadau i'r wasg a dosbarthu pecynnau gwybodaeth.

Defnyddiodd y rhan fwyaf o'r Canolfannau y cyllid i gyflogi un Cynghorydd penodedig a weithiai tua saith awr yr wythnos ac ar ddiwrnodau/adegau penodol o'r wythnos fel arfer. Rhoddodd nifer fechan o Ganolfannau yr arian yng nghronfeydd cyllid y staff craidd a thrwy hynny, sicrhau bod nifer o Gynghorwyr ar gael i weithio gyda theuluoedd â phlant anabl yn ôl yr angen.

Gweithredodd y rhan fwyaf o'r Canolfannau drwy gyfuniad o atgyfeiriadau ac apwyntiadau uniongyrchol a ganolbwyntiai ar blant o bob oedran a math o anabledd. Y prif eithriad i'r dull gweithredu hwn oedd Cyngor ar Bopeth Casnewydd.

**Cyngor ar Bopeth Casnewydd**

Gweithiodd CAB Casnewydd gyda Thîm Cynllunio Pontio y Gwasanaethau Cymdeithasol lleol. Mae'r Tîm hwn yn gweithio gyda theuluoedd a phlant rhwng 16 a 19 oed sy'n pontio rhwng gwasanaethau plant a'r ddarpariaeth i oedolion. Derbyniai CAB Casnewydd atgyfeiriadau uniongyrchol gan y Tîm Cynllunio Pontio a byddai wedyn yn cynnal gwiriad budd-daliadau llawn i helpu i gynyddu incwm y teulu. Mewn llawer o achosion, byddai'r plentyn eisoes yn derbyn DLA, ac felly byddai'r asesiad

yn canolbwyntio ar bennu a fyddai'n fwy manteisiol i'r teulu roi'r gorau i dderbyn Budd-dal Plant ac unrhyw Gredydau Treth Plant er mwyn i'r plentyn dderbyn y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA).

Yn sicr, mae llwyddiant CAB Casnewydd yn ganlyniad cadarnhaol iawn i'r Ymgyrch DLA o ran cynyddu incwm i deuluoedd. Fodd bynnag, ychydig o gyfraniad a wnaeth i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o DLA, un o amcanion penodol yr Ymgyrch DLA. Ar yr un pryd, mae canlyniadau perfformiad yn dangos mai Casnewydd oedd un o'r Canolfannau mwyaf llwyddiannus, o ran nifer y cleientiaid a gynorthwywyd a'r budd-daliadau a gadarnhawyd, gyda chymhareb Gwerth am Arian o 1:20.

Mae hyn yn codi cwestiwn ehangach ar gyfer Llywodraeth Cymru: beth ddylai'r canlyniad allweddol fod ar gyfer unrhyw Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA yn y dyfodol – cynyddu defnydd o DLA neu gynyddu incwm cartrefi?

Lle roedd hi'n bosibl, darparodd y Canolfannau wasanaethau yn swyddfeydd lleol y Canolfannau ac yn y lleoliadau allgymorth, a chynhaliwyd ymweliadau cartref, er bod nifer yr ymweliadau cartref wedi'u cyfyngu gan yr adnoddau a oedd ar gael.

Mewn llawer o achosion, mabwysiadodd y Cynghorwyr ddull gweithredu yn seiliedig ar waith achos, gan roi cymorth gyda llenwi ffurflenni cais am fudd-dal, cysylltu â sefydliadau perthnasol yn ôl yr angen, a chynorthwyo gydag unrhyw apeliadau lle'r oedd hynny'n ymarferol. Dywedodd llawer o'r Cynghorwyr fod gwaith achos yn llyncu llawer o'u hamser ar yr Ymgyrch ac nid oedd pawb yn gallu cefnogi pob un o'u cleientiaid trwy brosesau apelio hir oherwydd prinder adnoddau; yn yr achosion hyn, câi llawer o gleientiaid eu cyfeirio at gymorth Cynghorwyr eraill y Canolfannau..

## 5.3 Rhesymeg y dull gweithredu

Nododd y rhan fwyaf o'r Canolfannau fod ganddynt brofiad blaenorol o weithredu a darparu prosiectau cyngor lles ar ran Cyngor ar Bopeth a defnyddiwyd y wybodaeth a'r profiad o'r gwaith hwnnw i bennu'r dull mwyaf effeithiol o weithredu'r Ymgyrch i

annog defnydd o DLA. Cyfeiriodd nifer o Ganolfannau'n benodol at eu profiad o'r fenter BABH, gan fanteisio ar bartneriaethau a ffurfiwyd yn sgil y fenter honno.

Nododd bron bob Canolfan fod eu gweithgareddau cychwynnol wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r Ymgyrch a hawl pobl i DLA a budd-daliadau eraill cysylltiedig. Aeth y rhan fwyaf o'r Canolfannau ati i wneud hyn drwy gysylltu â sefydliadau perthnasol fel sefydliadau anabledd penodol a sefydliadau gofal iechyd eraill fel practisau gofal iechyd (a dargedai feddygon teulu ac ymwelwyr iechyd, er enghraifft) ac amrywiaeth o sefydliadau eraill yn y gymuned fel grwpiau mam a'i phlentyn.

Yn ddiddorol, nododd nifer o Ganolfannau ei bod hi'n amlwg, o'r cyswllt cychwynnol hwn, fod llawer o bobl yn ymwybodol o DLA ac yn aml, roeddynt eisoes yn ei hawlio, ond nid oeddynt yn ymwybodol o fudd-daliadau cysylltiedig eraill ac felly nid oeddynt yn manteisio ar y rhain. Dylanwadai hyn ar y ffocws penodol a'r gweithgareddau a roddwyd ar waith gan y Canolfannau hyn. Er enghraifft, dechreuodd llawer ymwneud â gwaith achos er mwyn helpu teuluoedd i gael yr holl fudd-daliadau oedd ar gael.

## 5.4 Canlyniadau

Roedd y rhan fwyaf o'r Canolfannau yn credu bod y defnydd ychwanegol o fudd-daliadau yn llawer mwy na gwariant yr Ymgyrch. Fodd bynnag, dywedodd ychydig o Ganolfannau fod yr Ymgyrch wedi bod yn araf yn cydio mewn rhai ardaloedd ac felly roedd y cynnydd yn y defnydd hyd yn hyn yn is na'r hyn a ragwelwyd.

Nododd nifer o Ganolfannau nad yw'r cynnydd a gadarnhawyd a oedd wedi'i gofnodi yn fesur cywir o'r cynnydd a sicrhawyd i gleientiaid mewn gwirionedd. Dywedodd rhai Canolfannau nad ydynt yn olrhain pob achos lle nad yw cleientiaid yn dod yn ôl atynt i ofyn am ganlyniad eu hawliad/apêl oherwydd bod adnoddau'n gyfyngedig. O ganlyniad, ni cheir unrhyw gofnod o rai achosion o gynnydd. Felly, gallai'r cynnydd a gadarnhawyd sydd wedi'i gofnodi fod yn sylweddol is na'r cynnydd a'r manteision a sicrhawyd i gleientiaid drwy gymorth Cyngor ar Bopeth mewn gwirionedd. Hefyd, nododd un Ganolfan y byddai'r Ymgyrch wedi cynhyrchu canlyniad ariannol

anuniongyrchol drwy godi ymwybyddiaeth o’r hawl i dderbyn DLA gan arwain rhai teuluoedd i wneud cais uniongyrchol neu i ofyn am gymorth drwy asiantaeth gymorth arall.

Dywedodd y Canolfannau i gyd eu bod wedi darparu gwiriadau budd-daliadau llawn i helpu teuluoedd i gynyddu’r hyn yr oedd ganddynt hawl iddo a chynyddu incwm eu teulu, gyda ffocws ar anghenion y teulu cyfan a chynyddu incwm. Golyga hyn fod cynnydd a gofnodwyd yn cynnwys amryw o fudd-daliadau lles eraill yn ogystal â budd-dal DLA fel Lwfans Gofalwr a Chredydau Treth. Yn ogystal, roedd Cynghorwyr y Canolfannau wedi mynychu diwrnod gwybodaeth gyda chynrychiolwyr amryw o sefydliadau’n ymwneud ag anabledd ac felly, roeddynt yn ymwybodol o grantiau Cronfa’r Teulu, er enghraifft, ac wedi helpu teuluoedd i ymgeisio amdanynt. Fel rhan o ddull cyfannol Cyngor ar Bopeth o ddarparu cymorth, derbyniai teuluoedd gymorth ar amryw o faterion cymdeithasol fel tai, gwasanaethau cyhoeddus a dyled lle y bo’n berthnasol.

Ar sail eu cyswllt â theuluoedd, nid oedd y rhan fwyaf o’r Canolfannau yn ymwybodol nac yn ystyried bod y dirwasgiad wedi cael effaith ar y defnydd o DLA.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn thema allweddol i’r holl Ganolfannau. Dechreuodd llawer o’r Canolfannau weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau llywodraeth a sefydliadau’r trydydd sector yn lleol. Yn arbennig, datblygodd llawer o Ganolfannau gysylltiadau ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau iechyd a gweithwyr iechyd proffesiynol lleol, yn ogystal ag ysgolion lleol.

## 5.5 Yr effaith ar wahanol deuluoedd

Yn y rhan fwyaf o achosion, cefnogodd y Canolfannau bob math o deuluoedd a phob math o anabledd. Amrywiai hyn o bobl â modd ariannol cyfyngedig i rai ar incwm uwch (a oedd wedi rhagdybied i gychwyn na fyddent yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol). Cynorthwywyd rhieni plant, yn ogystal â chynhalwyr eraill fel teidiau a neiniau a rhieni maeth.

Nododd rhai Canolfannau fod yr Ymgyrch wedi cael effaith fwy ar deuluoedd a phlant a oedd wedi mynd yn anabl, neu lle nad oedd diagnosis ffurfiol wedi'i roi o'r anabledd, neu mewn achosion o anhwylderau datblygu fel Awtistiaeth neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), nag ar deuluoedd lle'r oedd plentyn wedi'i eni ag anabledd a diagnosis wedi'i roi. Y rheswm am hyn yn aml oedd nad oedd y teuluoedd hyn yn ymwybodol o DLA a/neu eu cymhwysedd i dderbyn budd-daliadau'n ymwneud ag anabledd o gymharu â theuluoedd lle'r oedd plentyn wedi'i eni'n anabl neu lle'r oedd yr anabledd yn amlwg iawn a staff ysbytai wedi rhoi cyngor i rieni ynglŷn â DLA.

Yn olaf, awgrymodd rhai Canolfannau fod tystiolaeth anecdotaidd i ddangos bod yr Ymgyrch wedi llwyddo i dargedu rhieni unigol â phlant anabl. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros y llwyddiant hwn yw bod rhieni unigol yn troi at Cyngor ar Bopeth ar faterion eraill fel cyngor cyffredinol ar les, dyled a thai.

### 5.6 Beth weithiodd yn dda a ddim cystal

Nododd pob Canolfan fod yr amrywiaeth a'r math o weithgareddau a roddwyd ar waith wedi gweithio'n effeithiol ar y cyfan.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn thema gyffredin ar draws y Canolfannau. Yn arbennig, dywedodd y rhan fwyaf o'r Canolfannau fod cysylltu a chydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau statudol a gweithwyr proffesiynol wedi bod yn ddefnyddiol i sicrhau mwy o ddefnydd. Roedd hyn yn cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, ysgolion arbennig a nyrsys ysgolion.

Er enghraifft, cafwyd cyswllt cadarnhaol rhwng CAB Pen-y-bont ar Ogwr â'i adran gwasanaethau cymdeithasol yn lleol a thargedodd feithrinfeydd cyn ysgol. Dywedodd Ceredigion fod cyswllt â'i adran wasanaethau cymdeithasol yn lleol ac ymwelwyr iechyd wedi llwyddo i gynyddu defnydd.

Cafodd rhai Canolfannau lwyddiant drwy dargedu'n fwy manwl a chysylltu ag ysgolion arbennig sy'n ymdrin yn benodol â phlant ag anableddau. Er enghraifft,

datblygodd Caerdydd berthynas waith gadarnhaol gyda'r uned anghenion arbennig yn yr ysbyty lleol, a soniodd Sir Benfro fod perthynas waith gadarnhaol gyda nyrsys ysgol wedi arwain at nifer fawr o atgyfeiriadau. Yn yr un modd, targedodd Sir Benfro grwpiau mam a'i phlentyn gan gael peth llwyddiant, a gweld nad oedd teuluoedd â phlant bach bob amser yn ymwybodol o'r system fudd-daliadau. Nid oedd llawer o'r rhieni yn ymwybodol o'u hawl bosibl i dderbyn budd-daliadau anabledd.

Fodd bynnag, ni chofnododd pob Canolfan yr un lefelau o lwyddiant gyda'r un sefydliadau neu gysylltiadau. Yn wir, soniodd rhai Canolfannau am ddiffyg llwyddiant gyda chysylltiadau a oedd wedi bod yn llwyddiannus i Ganolfannau mewn mannau eraill. Dangosodd ymgynghori pellach â Chanolfannau ar y mater hwn fod angen parhau i rwydweithio a chadw mewn cysylltiad ag amrywiaeth eang o gysylltiadau, a datblygu'r cysylltiadau er mwyn sicrhau nifer rheolaidd o atgyfeiriadau. Er enghraifft, ar ôl ei gysylltiad cychwynnol ag ymwelwyr iechyd, parhaodd Ynys Môn y cysylltiad drwy fynychu eu cyfarfodydd chwarterol i'w hatgoffa am yr Ymgyrch DLA a rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt amdani, a bu'r dull gweithredu hwn yn llwyddiant.

Er bod y rhan fwyaf o'r Canolfannau wedi llwyddo i greu cysylltiadau ag ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio mewn canolfannau iechyd lleol, tynnodd sawl Canolfan sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â thargedu meddygon teulu a'r anawsterau i drosglwyddo'r neges i'r grŵp hwn. Roedd hyn yn bryder i'r Canolfannau gan yr ystyrid y byddai gan feddygon teulu gysylltiad uniongyrchol â llawer o blant ag anabledd nad oeddynt yn cael cyngor arbenigol ar eu hawl i dderbyn DLA a budd-daliadau eraill.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r Canolfannau y byddent yn hoffi parhau i godi ymwybyddiaeth a chefnogi mwy o deuluoedd ond eu bod wedi'u cyfyngu gan eu cyllid.

## 5.7 Rhwystrau i hawlio

Nododd y Canolfannau nifer o rwystrau i gynyddu defnydd o DLA a budd-daliadau lles eraill.

Nodwyd mai’r pedwar prif rwystr oedd:

- Gwybodaeth am fudd-daliadau’n ymwneud ag anabledd ac ymwybyddiaeth o gymhwysedd.

  Roedd rhai teuluoedd nad oeddynt yn ymwybodol o DLA a budd-daliadau lles eraill o hyd, yn enwedig os oedd y rhieni’n gweithio ac felly y tu allan i’r “system fudd-daliadau”.

  Yn yr un modd, er eu bod yn ymwybodol o fodolaeth y budd-dal DLA, awgrymwyd nad oedd rhai pobl yn ystyried eu bod yn gymwys, gan farnu mai budd-dal a ddibynnai ar brawf modd ydoedd a/neu nad oedd ar gael i deuluoedd oedd ag un neu ddau riant yn gweithio, a/neu byddai’n effeithio’n negyddol ar fudd-daliadau eraill.

  Yn yr un modd, awgrymwyd bod llawer o deuluoedd yn ymwybodol o DLA ac yn aml yn derbyn y budd-dal hwn eisoes, ond nad oeddynt yn ymwybodol o fudd-daliadau eraill y gallent fod yn gymwys i’w derbyn e.e. Lwfans Gofalwr a Chredydau Treth Plant.

  Roedd llawer o Ganolfannau’n cydnabod bod angen codi ymwybyddiaeth yn barhaol ynglŷn â chymhwysedd posibl i dderbyn budd-daliadau lles. Fodd bynnag, nododd rhai Canolfannau fod sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cyrraedd rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys teuluoedd a gweithwyr proffesiynol iechyd yn her sylweddol. Cydnabuwyd bod y lefel bresennol o gyllid sy’n gysylltiedig â’r Ymgyrch DLA yn cyfyngu ar weithgareddau marchnata. Roedd hyn yn peri i rai Canolfannau awgrymu bod angen ymgyrch hysbysebu ehangach wedi’i hysgogi gan y Cynulliad.

- Stigma

  Nodwyd fod rhai teuluoedd yn ystyried bod stigma’n gysylltiedig â’r defnydd o’r term “anabledd” ac roedd rhai teuluoedd yn amharod i’w plant gael eu stigmateiddio. Awgrymodd rhai Canolfannau y dylid defnyddio “anghenion ychwanegol” neu ymadrodd tebyg yn lle’r gair “anabledd”.

Rhwystr cysylltiedig oedd amharodrwydd rhieni/cynhalwyr i ystyried bod gan eu plentyn anabledd. Gallai hyn fod o ganlyniad i'w hawydd i fabwysiadu agwedd fwy positif a chanolbwyntio ar yr hyn y gallai eu plentyn ei wneud (yn hytrach na'r heriau a wynebai) neu gallai fod oherwydd amharodrwydd y rhiant i wynebu realiti am ba reswm bynnag.

- Y broses ymgeisio

  Awgrymwyd bod teuluoedd yn gweld y broses ymgeisio ei hun yn rhwystr, naill ai am fod y ffurflenni'n codi ofn arnynt, neu eu bod yn amharod i ddarparu'r wybodaeth bersonol a sensitif sy'n rhaid ei rhoi. Mewn rhai achosion, roedd teuluoedd wedi bod yn aflwyddiannus i gychwyn ac nid oeddynt yn gwybod fod proses ar gael ar gyfer apelio, neu nid oedd modd ganddynt o apelio, naill ai oherwydd y gost emosiynol, amser, neu wybodaeth a/neu allu.

  Mae'r Canolfannau wedi ceisio goresgyn hyn drwy ddarparu cymaint o gymorth â phosibl, ond nodwyd ganddynt nad yw hyn bob amser yn bosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

  Dywedodd nifer o Ganolfannau fod y broses ymgeisio'n gymharol araf, yn enwedig lle caiff ceisiadau eu cyfeirio at apêl. O ganlyniad, ni all cynghorwyr fynd drwy'r holl broses gyda'u cleientiaid bob amser a rhaid iddynt eu trosglwyddo i adrannau eraill yn eu Canolfannau.

- Cyfrifoldebau rhieni

  Dywedodd sawl Canolfan fod rhieni'n aml yn amharod i wneud cais am DLA gan eu bod yn ystyried y dylent fod yn gofalu am eu plentyn eu hunain heb gymorth, ac roeddynt yn ofni cael eu labelu fel pobl 'farus'.

## 5.8 Dysgu allweddol

Dywedodd y Canolfannau fod eu gwaith ar yr Ymgyrch wedi darparu nifer o wersi defnyddiol a fu'n fuddiol i'w gwaith yn y Canolfannau lleol. Er enghraifft, dywedodd sawl un o'r Canolfannau fod eu gwaith ar yr Ymgyrch wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth

ac ymwybyddiaeth iddynt o'r system fudd-daliadau sy'n ymwneud â phlant ag anabledd.

Ymhellach, mae'r Cynghorwyr yn y Canolfannau lleol wedi trosglwyddo'r wybodaeth hon i Gynghorwyr a gwirfoddolwyr eraill yn y Canolfannau, gan ychwanegu at eu sgiliau a'u cynorthwyo i gynyddu effaith y cyllid ar gyfer yr Ymgyrch DLA.

## 5.9 Effeithiau ychwanegol

Yr effaith ychwanegol fwyaf cyffredin o ran yr Ymgyrch oedd cynyddu gwaith partneriaeth â sefydliadau eraill. Yn arbennig, nododd sawl Canolfan eu bod wedi datblygu perthynas waith agos ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol, canolfannau iechyd ac ymwelwyr iechyd gyda'r rhan fwyaf o'r Canolfannau'n nodi bod y cysylltiadau hyn wedi arwain at atgyfeirio llawer o gleientiaid.

Hefyd, nododd llawer o Ganolfannau eu bod wedi llwyddo i ddatblygu cysylltiadau cryfach â sefydliadau trydydd sector lleol sy'n gweithio gyda phlant ag anableddau. Trwy'r cysylltiadau hyn, mae asiantaethau a sefydliadau lleol wedi dod yn ymwybodol hefyd o'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan Cyngor ar Bopeth, gan arwain at gynyddu nifer yr atgyfeiriadau mewn perthynas â materion heblaw defnydd o DLA, er enghraifft cyngor ar ddyled a thai.

Nododd rhai Canolfannau fod ymwneud â'r Ymgyrch DLA wedi arwain at gynyddu gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau cynghorwyr CAB. Awgrymodd rhai Canolfannau fod y fforymau chwarterol i gynghorwyr wedi'u galluogi i rannu profiadau, gwersi a ddysgwyd ac agweddau o arferion gorau, a bod hyn o fantais i'r rhwydwaith ehangach o Ganolfannau.

## 5.10 Gweinyddiaeth

Roedd y rhan fwyaf o'r Canolfannau yn ystyried bod yr Ymgyrch yn ategu'r prosiect BABH a'i bod wedi gweithio'n dda o safbwynt gweinyddol. Disgrifiwyd yr adrodd chwarterol fel "syml ond effeithiol" a nododd rhai Canolfannau fod y cyfarfodydd fforwm chwarterol a chyswllt parhaus â Chanolfannau eraill yn fecanweithiau

defnyddiol ar gyfer trafod achosion a rhannu arferion gorau. Tynnodd un Ganolfan sylw at y cymorth arbenigol oedd ar gael gan Cyngor ar Bopeth.

Soniodd rhai Canolfannau am yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â gwaith hyrwyddo yn ogystal â gwaith gyda chleientiaid ac awgrymwyd y gallai Cyngor ar Bopeth Cymru fod wedi cyfrannu mwy at ddatblygu deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer Cymru gyfan.

## 5.11 Dewisiadau eraill yn lle'r Ymgyrch ac absenoldeb y Cynllun

Roedd pob Canolfan o'r farn y byddai nifer sylweddol o gleientiaid o dan anfantais sylweddol pe na bai'r Ymgyrch ar waith. Roedd hyn yn cynnwys teuluoedd na fyddent yn ymwybodol o'u hawl i DLA ac na fyddent felly'n ymgeisio amdano, neu pe baent yn ymwybodol, efallai y byddent yn amharod i ymgeisio oherwydd cymhlethdod y ffurflen gais neu fiwrocratiaeth gyffredinol y broses. Golygai hyn na fyddai teuluoedd yn cael y budd-daliadau y gallent fod â hawl i'w derbyn, neu na fyddent yn derbyn y premiwm cywir.

Nid oedd y rhan fwyaf yn gweld unrhyw ffordd ymarferol arall o wneud y gwaith yn lle'r Ymgyrch. Er i lawer o Ganolfannau nodi eu bod eisoes yn cynnal gweithgareddau annog defnydd a chynorthwyo cleientiaid, nid oedd ganddynt ddull gweithredu wedi'i dargedu ac nid oeddynt yn targedu'r grŵp cleientiaid penodol hwn.

Er bod y rhan fwyaf o'r Canolfannau'n cydnabod y byddent yn parhau i gynorthwyo cleientiaid, nodwyd y byddai unrhyw leihad yn y cyllid yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i wneud hynny. Canlyniad hynny fyddai bod y Canolfannau'n cynorthwyo llai o gleientiaid ac o bosibl, gallai olygu amserau aros hirach i'r rhai fyddai'n derbyn cymorth.

Am y rhesymau hyn, roedd pob un o'r Canolfannau o'r farn y dylid parhau'r Ymgyrch. Dywedodd sawl un fod yr Ymgyrch wedi ennill momentwm dros y ddwy flynedd a'i bod yn dechrau cael effaith sylweddol ond bod mwy o waith i'w wneud o ran targedu teuluoedd penodol a'u cynorthwyo i gynyddu incwm y teulu.

## 5.12 Crynodeb

Awgrymodd gwaith ymgynghori â chynrychiolwyr o Ganolfannau lleol eu bod i gyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a rhwydweithio, gan dderbyn atgyfeiriadau gan amryw o sefydliadau. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod yna angen parhaus i hyrwyddo'r gwasanaeth a thynnu sylw at gymhwysedd teuluoedd â phlant anabl.

Soniodd y Canolfannau am amryw o rwystrau i gynyddu defnydd. Yn benodol, mewn perthynas â theuluoedd â phlant anabl, dywedodd y Canolfannau ei bod yn well gan rai teuluoedd beidio ag ystyried fod anabledd gan eu plentyn, naill ai am eu bod yn dymuno canolbwyntio ar yr hyn y gallai'r plentyn ei wneud yn dda, neu fod amharodrwydd i dderbyn yr anabledd, difrifoldeb yr anabledd, neu ei effaith ar eu plentyn.

Roedd y Canolfannau o'r farn bod yr Ymgyrch wedi cynyddu eu gwybodaeth am wasanaethau budd-daliadau lles sy'n ymwneud â phlant ag anabledd ac mae'r wybodaeth hon wedi'i throsglwyddo i aelodau eraill o staff y Canolfannau, gan gynyddu gallu lleol. Dyma ganlyniad ychwanegol a ddylai fod yn gynaliadwy y tu hwnt i'r Ymgyrch hon.

Roedd yr holl Ganolfannau yn cynnig gwiriad budd-daliadau llawn i deuluoedd, a ddangosodd fod llawer o deuluoedd yn derbyn DLA ond yn aml, nid oeddynt yn ymwybodol o fudd-daliadau eraill cysylltiedig. Roedd y Canolfannau yn ystyried bod yr Ymgyrch wedi'i gweinyddu'n dda ac yn llwyddiant ar y cyfan o ran manteision gwirioneddol i deuluoedd, gan ddangos fod dull gweithredu cyfannol wedi sicrhau bod yr Ymgyrch yn cael yr effaith fwyaf posibl ar deuluoedd.

Roedd y Canolfannau yn credu bod angen i'r Ymgyrch barhau er mwyn sicrhau bod ENRs yn ymgeisio ac yn llwyddo, ac i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y premiwm cywir. Nodwyd y byddai unrhyw leihad yn y cyllid yn golygu y byddai'r Canolfannau'n cynorthwyo llai o gleientiaid, a gallai olygu amserau aros hirach i'r rhai a fyddai'n derbyn cymorth.

# 6 Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol

## 6.1 Cyflwyniad

Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o amryw o sefydliadau a oedd wedi gweithio mewn partneriaeth â Cyngor ar Bopeth fel rhan o'r Ymgyrch. Roedd yr ymgynghoriadau'n holi eu barn ar yr Ymgyrch, beth oedd wedi gweithio'n dda, heb weithio cystal, dull y Canolfannau Cyngor ar Bopeth o gyflawni'r Ymgyrch a dulliau eraill o wneud y gwaith ar wahân i'r Ymgyrch. Hefyd, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol, gan gynnwys y canlynol: Cyswllt Teulu, Mencap, Cerebra, Cronfa'r Teulu a Barnardo's. Mae'r Bennod hon yn adrodd ar y themâu a'r sylwadau allweddol gan y rhanddeiliaid hyn.

## 6.2 Sefydliadau Rhanddeiliaid Cenedlaethol

Mae'n bwysig nodi bod cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol wedi lobïo ar y cychwyn am ymgyrch bwrpasol i gefnogi teuluoedd â phlant anabl. Yn benodol, roedd Ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru[13] (DCMW) wedi llunio adroddiad tasglu yn dangos bod teuluoedd â phlentyn (neu blant) anabl gryn yn llawer mwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na theuluoedd heb blentyn anabl, a'u bod yn wynebu costau byw uwch ar incwm cryn dipyn yn is. Hefyd, roedd DCMW wedi cynnig syniadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgyrch o'r fath yn seiliedig ar gynghorwyr arbenigol,[14] gyda gwaith achos a darpariaeth ar gyfer ymweliadau cartref.

Fel y nodwyd ym Mhennod 3, dosbarthodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer Ymgyrch bwrpasol drwy Cyngor ar Bopeth. Roedd cynrychiolwyr o sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol yn siomedig ynglŷn â hyn, o ystyried eu rôl o lobïo am gyllid a'u syniadau ar gyfer ymgyrchu. Yn benodol, roeddynt yn ystyried y byddai rhai o'u sefydliadau wedi bod mewn sefyllfa well i gyflwyno ymgyrch effeithiol i gynyddu'r

[13] Caiff DCMW ei arwain gan 10 sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl, ac mae'n ymgyrchu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gwneud plant a phobl ifanc anabl yn flaenoriaeth.
[14] Yr hyn a olyga DCMW drwy gyfeirio at gynghorwyr 'arbenigol' yw pobl sy'n deall anghenion plant anabl a'u teuluoedd ac sy'n gallu rhoi cyngor ar fudd-daliadau.

niferoedd sy’n hawlio budd-daliadau o ystyried eu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â phlant ag anabledd. Adlewyrchir hyn yn eu sylwadau ymgynghorol.

Mae’n werth nodi hefyd nad oedd cynrychiolwyr y sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol yn ystyried mai ymgyrch i gynyddu defnydd o DLA oedd yr ymgyrch hon: yn debyg i Cyngor ar Bopeth, roeddynt yn gweld yr ymgyrch fel cynllun i gynyddu defnydd o fudd-daliadau ar gyfer plant ag anabledd.

### *6.2.1 Dull gweithredu*

Ar y cyfan, roedd barn y cynrychiolwyr am y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Cyngor ar Bopeth yn fwy beirniadol na chadarnhaol. Roedd y sylwadau beirniadol hyn yn seiliedig ar eu cyswllt cychwynnol â Cyngor ar Bopeth a Chanolfannau lleol, ac adborth anecdotaidd gan ychydig o deuluoedd a chan hynny, nid ydynt o anghenraid yn adlewyrchu’r gwasanaeth fel y mae.

Dyma’r pwyntiau a wnaed:

- Nid oedd digon o arbenigedd/dealltwriaeth gan Gynghorwyr Cyngor ar Bopeth ynglŷn â’r cronfeydd cyllid a’r grantiau sydd ar gael i blant ag anabledd nac ynglŷn ag anghenion plant ag anabledd a’u teuluoedd.
- Roedd rhai Canolfannau’n nodi bod ganddynt broblemau ynglŷn â chapasiti ac adnoddau staff.
- Roedd yna broblemau’n ymwneud â chael gafael ar wasanaethau, yn bennaf yn ystod y flwyddyn gyntaf, er bod cyflwyno llinell gyngor i Gymru gyfan wedi lleddfu rhywfaint ar hyn; er hynny, roedd prinder ymweliadau cartref ac oriau agor cyfyngedig mewn rhai Canolfannau wedi achosi rhai anawsterau lleol o ran cael gafael ar wasanaethau.

Fodd bynnag, ar yr ochr gadarnhaol, roedd y cynrychiolwyr yn cydnabod arbenigedd Cyngor ar Bopeth ar ystod o faterion cyngor eraill, er enghraifft materion yn ymwneud â dyled, a grantiau a budd-daliadau nad oeddynt yn gysylltiedig ag anabledd, fel credydau treth gwaith.

*6.2.2 Perfformiad yr Ymgyrch*

Nododd cynrychiolwyr mai gwybodaeth gyfyngedig oedd ganddynt am berfformiad yr Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA dros yr amser y bu'n weithredol ac awgrymodd fod yna ddiffyg adborth a chyfathrebu ar ran Cyngor ar Bopeth. Efallai bod y feirniadaeth yn annheg gan mai'r protocol derbyniol fyddai i gyfathrebu ddigwydd drwy Lywodraeth Cymru ac yn wir, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod adroddiadau cynnydd wedi cael eu darparu ar gyfer y Grŵp Gorchwyl Hawliau ar Waith i Blant a Phobl Ifanc Anabl[15] yr oedd y cynrychiolwyr hyn yn aelodau allweddol ohono.

Ar y cyfan, fodd bynnag, mynegodd y cynrychiolwyr siom ynglŷn â pherfformiad Cyngor ar Bopeth[16] gan nodi nad oedd gystal ag y byddai disgwyl iddo fod mewn rhai Canolfannau o ystyried poblogaeth eu dalgylchoedd. Mewn cyferbyniad â hyn, soniodd y cynrychiolwyr am wasanaethau cyngor Mencap yn Sir Gaerfyrddin, gan awgrymu eu bod yn cynrychioli elw gwell ar fuddsoddiad na'r hyn a gyflawnwyd gan lawer o'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth[17].

Ar y cyfan, ystyriai'r cynrychiolwyr bod cyfle i gyfuno sgiliau Cyngor ar Bopeth a'u sefydliadau anabledd drwy wella cydweithredu a chydgysylltu ar lefel uwch er mwyn cynyddu effaith yr Ymgyrch.

*6.2.3 Heriau/rhwystrau i hawlio*

Roedd y cynrychiolwyr yn ystyried bod y term 'anabledd' yn rhwystr i hawlio budd-daliadau gan na fydd rhai rhieni'n labelu eu plant yn 'anabl', neu am eu bod efallai'n ei chael yn anodd derbyn bod gan eu plentyn anabledd.

---

[15] Tasglu yw hwn a sefydlwyd gan y Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae'n cynnwys aelodau ymgyrch DCMW ac uwch swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

[16] Ar adeg yr ymgynghoriad, roedd hwn yn seiliedig ar y data perfformiad hyd at Fawrth 2011 – 2,044 o gleientiaid wedi'u cynorthwyo a £1,962 miliwn o gynnydd a gadarnhawyd.

[17] O gymharu â pherfformiad Cyngor ar Bopeth gwelir bod gwasanaeth Mencap wedi perfformio'n well na hanner y Canolfannau, ond yn yr un modd, gwelodd hanner arall y Canolfannau elw gwell ar fuddsoddiad na'r hyn a gyflawnwyd gan Mencap.

Hefyd, câi hygyrchedd ei weld fel rhwystr i hawlio budd-daliadau. Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod rhai rhieni'n ei chael yn anodd cyrraedd swyddfeydd Cyngor ar Bopeth a barnent y byddai cynyddu'r ddarpariaeth ymweliadau cartref yn helpu i oresgyn y broblem hon.

## 6.3 Sefydliadau Partner Lleol

Ymgynghorwyd â nifer o sefydliadau a oedd wedi rhyngweithio â'r Ymgyrch ar lefel leol er mwyn cael eu barn ar effaith a gwaith yr Ymgyrch yn lleol.

### *6.3.1 Ymwybyddiaeth*

Roedd yr holl sefydliadau'n ymwybodol o Cyngor ar Bopeth cyn yr Ymgyrch. Cysylltodd Canolfannau lleol â'r holl sefydliadau i'w hysbysu am y gwasanaethau ychwanegol oedd yn cael eu darparu.

### *6.3.2 Perfformiad*

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r Ymgyrch a'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y Canolfannau lleol. Roeddynt yn cydnabod bod cymorth y Canolfannau wedi helpu eu sefydliadau nhw am eu bod ar y cyfan yn brin o amser, adnoddau ac arbenigedd i allu darparu cymorth cynhwysfawr gyda chyngor a chymorth budd-daliadau anabledd. Dywedodd llawer eu bod yn atgyfeirio cleientiaid yn awtomatig at Cyngor ar Bopeth am wiriad budd-daliadau llawn.

Dywedodd ymatebwyr fod ganddynt berthynas waith dda â Chanolfannau Cyngor ar Bopeth lleol ac roedd hyn yn eu helpu i wella eu gwaith partneriaeth.

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn gweithio'n dda o ran gweithgareddau Cyngor ar Bopeth, nododd ymatebwyr fod y cymorth cyfannol a ddarparent yn golygu bod y teulu cyfan yn derbyn cymorth, nid dim ond y plentyn dan sylw, ac roedd hyn yn fanteisiol iawn wrth gynyddu incwm. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr fod dull Cyngor ar Bopeth o dargedu, gan ganolbwyntio ar ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol a chanolfannau meddygol lleol i hyrwyddo'r Ymgyrch, yn effeithiol o ran helpu i nodi'r rheiny oedd yn gymwys i gael budd-daliadau.

### *6.3.3 Heriau i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio*

Soniodd yr ymatebwyr am nifer o heriau i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau, gan gynnwys:

- Y stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau.
- Rhieni'n amharod i dderbyn bod gan eu plentyn anabledd neu'n teimlo efallai nad oedd yr anabledd yn ddigon difrifol iddynt fod yn gymwys neu i gyfiawnhau hawlio budd-daliadau.
- Pobl heb eu hyfforddi'n llenwi ffurflenni, gan olygu nad oedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir neu'n briodol wrth wneud cais am fudd-daliadau.

### *6.3.4 Dulliau eraill ar wahân i'r Ymgyrch*

Er bod rhai sefydliadau'n darparu gwiriadau budd-daliadau sylfaenol, nododd cynrychiolwyr nad oedd yr un ohonynt yn darparu'r gwasanaeth hwn yn benodol ar gyfer plant ag anabledd. Nodwyd hefyd na allai'r un sefydliad arall gymharu â Cyngor ar Bopeth o ran ei wybodaeth am y system fudd-daliadau.

## 6.4 Crynodeb

Roedd gan sefydliadau a ymgysylltai â Cyngor ar Bopeth i atgyfeirio cleientiaid am gyngor a chymorth penodol yn gadarnhaol eu barn am y gwasanaethau oedd yn cael eu darparu. Nododd y sefydliadau hyn eu bod ar y cyfan yn brin o amser, adnoddau ac arbenigedd i allu darparu cymorth cynhwysfawr gyda chymorth a chyngor budd-daliadau anabledd, ac roeddynt yn cydnabod arbenigedd a gwybodaeth Cyngor ar Bopeth ynglŷn â'r system fudd-daliadau. Mewn cyferbyniad, roedd cynrychiolwyr y sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol yn fwy beirniadol o'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Cyngor ar Bopeth, a adlewyrchai'n rhannol y siom a deimlent ynglŷn â phenderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y pryd i gyfeirio cyllid trwy Cyngor ar Bopeth. Fodd bynnag, roedd hefyd yn adlewyrchu eu siom ynglŷn â pherfformiad Cyngor ar Bopeth ar y cychwyn, a atgyfnerthodd eu barn y byddent wedi bod mewn sefyllfa well i gyflwyno ymgyrch effeithiol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau, o ystyried eu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â phlant ag anabledd.

# 7 Ymgynghori â Chleientiaid Cyngor ar Bopeth

## 7.1 Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriadau â theuluoedd a gynorthwywyd gan Cyngor ar Bopeth.

Cynhaliodd KPMG arolwg drwy'r post gyda sampl o gleientiaid a oedd wedi derbyn cymorth drwy'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA. Gofynnwyd i'r Canolfannau ddosbarthu arolwg[18] i hapsampl o tua 50% o'r cleientiaid. Dosbarthwyd cyfanswm o 1,000 arolwg yn y ffordd hon a dychwelodd 178 o ymatebwyr holiaduron wedi'u llenwi, sef cyfradd ymateb o 18%[19].

Hefyd, er mwyn archwilio effaith yr Ymgyrch ar deuluoedd yn fanylach, cynhaliwyd cyfweliadau ansoddol manwl â 10 teulu. Defnyddir rhai manylion o'r cyfweliadau hyn i arddangos canfyddiadau o'r arolwg ansoddol drwy'r post ac mae manylion llawn am y 10 astudiaeth achos i'w gweld yn Atodiad 2.

Ar gyfer yr arolygon post a'r cyfweliadau ansoddol, gofynnwyd cyfres o gwestiynau proffil i bob cleient ac yna gofynnwyd y canlynol iddynt:

- Beth wnaeth eu sbarduno i wneud cais am fudd-daliadau ac yn benodol a oedd hyn yn gysylltiedig â newidiadau yn eu hamgylchiadau.
- Sut y daethant yn ymwybodol o'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA.
- Effaith derbyn budd-daliadau ychwanegol a sut y defnyddiwyd yr incwm ychwanegol hwn.
- Eu barn a'u hagwedd tuag at y cymorth a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth.
- Gwelliannau.
- Unrhyw sylwadau eraill.

[18] Dosbarthwyd yr arolygon gan y Canolfannau yng Nghymru am resymau'n ymwneud â diogelu data,.

[19] Noder nad atebodd yr holl ymatebwyr bob cwestiwn a oedd yn berthnasol iddynt. Felly, mae'r rhif sylfaen yn amrywio ar draws y cwestiynau a chaiff ei nodi ym mhob siart a thabl perthnasol yn y Bennod hon. Daw'r holl ddata ansoddol o'r arolwg a'r canfyddiadau ansoddol o'r astudiaethau achos.

## 7.2 Proffil yr Ymatebwyr

### *7.2.1 Rhyw ac oedran*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi manylion am eu plant y dyfarnwyd budd-daliadau ychwanegol iddynt. O'r 164 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd gan 146 un plentyn yn derbyn budd-dalidadau ychwanegol, roedd gan 15 teulu ddau blentyn, a thri theulu dri phlentyn, yn derbyn budd-daliadau ychwanegol.

O'r 185 o blant y cyfeiriodd yr ymatebwyr atynt, roedd 71% yn fechgyn a 29% yn ferched. Amrywiai'r plant o ran oed rhwng blwydd oed ac 20 oed[20], a chyfartaledd oed y plant a dderbyniai fudd-daliadau ychwanegol oedd tua 10.8 oed.

### *7.2.2 Amgylchiadau cyfredol*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio sefyllfa gyfredol y prif enillydd incwm yn eu teulu. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (n=96; 60%) fod y prif enillydd incwm yn gyflogedig. Roedd yn gweithio naill ai mewn swydd lawn amser (n=63; 38%), neu mewn swydd ran-amser (n=20; 12%), neu'n hunangyflogedig (n=13; 8%). Dywedodd bron un o bob pump (n=39; 23%) fod y prif enillydd incwm yn gynhaliwr llawn amser.

Dywedodd 10% pellach (n=16) fod gan y prif enillydd incwm salwch neu anabledd hirdymor. Os yw'r canlyniadau hyn yn gynrychiadol o'r holl gleientiaid a gefnogwyd gan CAB, mae hyn yn awgrymu bod canran arwyddocaol o bobl sydd â salwch neu anabledd hirdymor hefyd yn gofalu am blentyn anabl.

**Tabl 9: Statws Economaidd y Prif Enillydd Incwm**

| Sefyllfa | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Gweithiwr mewn swydd lawn amser (30 awr neu fwy yr wythnos) | 63 | 38% |
| Cynhaliwr llawn amser | 39 | 23% |
| Gweithiwr mewn swydd ran-amser (llai na 30 awr yr wythnos) | 20 | 12% |
| Â salwch neu anabledd hirdymor | 16 | 10% |

[20] Dangosir oed y plentyn ar hyn o bryd, nid ei oed ar yr adeg y darparwyd cymorth gan CAB o reidrwydd.


| Sefyllfa | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hunangyflogedig (llawn amser neu ran-amser) | 13 | 8% |
| Cofrestrwyd yn ddi-waith | 8 | 5% |
| Arall | 4 | 2% |
| Mewn addysg llawn amser | 3 | 2% |
| Heb gofrestru'n ddi-waith ond yn chwilio am waith | 2 | 1% |
| Gartref/ddim yn chwilio am waith | 2 | 1% |

Sylfaen: 170 Ymatebydd

### 7.2.3 *Incwm*

Dengys Ffigur 7 gyfanswm yr incwm blynyddol a gofnodwyd gan deuluoedd, gan gynnwys enillion a budd-daliadau lles. Mae'n dangos bod incwm blynyddol dros hanner y teuluoedd yn llai na £20,000 (60%; n=104), ac incwm un o bob pump o'r teuluoedd rhwng £20,000 a £24,999 (205; n=34).

**Ffigur 7: Incwm Blynyddol**




Sylfaen: 173 Ymatebydd

Mae'n hysbys mai'r cyflog cyfartalog yng Nghymru yn 2010/11 oedd £26,832[21] a dynoda canlyniadau'r arolwg bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cael llai na'r swm hwn ac yn wir, roedd canran arwyddocaol yn cael cryn dipyn yn llai na hyn.


---

[21] Yn seiliedig ar enillion gros wythnosol o £516 ar gyfartaledd yng Nghymru (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, 2010), http://www.statswales.wales.gov.uk

## 7.3 Rhesymau dros wneud cais

Gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro'u rhesymau dros wneud cais am fudd-daliadau drwy Cyngor ar Bopeth h.y. a oedd newid yn eu hamgylchiadau personol wedi eu sbarduno i wneud cais neu a oeddynt wedi gwneud hynny am eu bod wedi dod yn ymwybodol o'u hawl i fudd-daliadau penodol. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Ffigur 8.

**Ffigur 8: Rhesymau dros wneud cais**




Sylfaen: 169 Ymatebydd

Dywedodd bron hanner (48%; n=15) yr ymatebwyr a roddodd reswm arall dros wneud cais drwy Cyngor ar Bopeth (18%; n=31) eu bod wedi gofyn am gymorth i lenwi'r ffurflenni (am eu bod yn eu cael yn anodd i'w llenwi neu am fod cais ganddynt am fudd-dal wedi cael ei wrthod yn flaenorol) neu gymorth i apelio yn erbyn penderfyniad diweddar ynglŷn â budd-dal.

### *7.3.1 Newid mewn amgylchiadau*

Dywedodd cyfanswm o 53 o ymatebwyr eu bod wedi gwneud cais am fudd-daliadau drwy Cyngor ar Bopeth yn sgil newid yn eu hamgylchiadau, neu yn sgil newid yn eu hamgylchiadau a hefyd eu bod wedi dod yn ymwybodol o'u hawl, a rhoddodd 50 ymatebydd fanylion ynglŷn â'r newid hwn yn eu hamgylchiadau.

O’r 50 ymatebydd yma, dywedodd dros eu hanner (58%, n=29) fod gan eu plentyn anghenion gofal a/neu symudedd ychwanegol neu fod cyflwr a fodolai’n barod wedi dirywio gan wneud y teulu’n gymwys i dderbyn budd-daliadau ychwanegol. Dywedodd ychydig dros draean yr ymatebwyr eu bod wedi dod yn brif gynhaliwr am blentyn gydag anghenion gofal neu symudedd ychwanegol (34%, n=17).

Yn ddiddorol, dim ond 10% (n=5) a wnaeth gais ar ôl mynd yn ddi-waith. Os yw’r canlyniadau hyn yn gynrychiadol o’r holl gleientiaid a gefnogwyd gan Cyngor ar Bopeth, mae hyn yn awgrymu mai effaith gyfyngedig a gafodd y dirwasgiad ar y niferoedd sy’n hawlio budd-dalidadau’n ymwneud ag anabledd.

**Tabl 10: Newid mewn Amgylchiadau**

| **Newid mewn amgylchiadau** | **Nifer** | **%** |
|---|---:|---:|
| Plant sydd ag anghenion gofal a/neu symudedd ychwanegol neu fod cyflwr a fodolai’n barod wedi dirywio | 29 | 58% |
| Wedi dod yn brif gynhaliwr am blentyn (neu blant) ag anghenion gofal a/neu symudedd ychwanegol | 17 | 34% |
| Arall | 6 | 12% |
| Mynd yn ddi-waith | 5 | 10% |
| Gostyngiad sylweddol mewn incwm | 5 | 10% |
| Gostyngiad mewn oriau gwaith | 3 | 6% |

Sylfaen: 50 Ymatebydd

Mae’r astudiaeth achos ganlynol yn dangos y math o newid mewn amgylchiadau sy’n sbarduno teulu i wneud cais am fudd-daliadau anabledd.

**Astudiaeth Achos**

Roedd bachgen 12 oed yn ddifrifol wael yn 2010. Er bod ei iechyd yn gwella bellach, mae ei olwg yn wan iawn ac mae angen cymorth un-i-un arno yn yr ysgol.

Mae teulu’r bachgen yn derbyn cyfradd ganol y DLA ac mae ei fam bellach yn derbyn Lwfans Gofalwr, sy’n golygu nad oes raid iddi weithio nawr ac mae’n gallu bod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion ei mab.

## 7.4 Ymwybyddiaeth

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn dod yn ymwybodol o’r Ymgyrch/cymorth DLA a gynigiai Cyngor ar Bopeth trwy glywed gan rywun arall yn bennaf (38%; n=65), gyda siarad yn uniongyrchol â Cyngor ar Bopeth yn ail agos (36%; n=62)[22]. Atgyfeiriad at Cyngor ar Bopeth oedd y drydedd ffordd fwyaf cyffredin o ddod yn ymwybodol (31%; n=53), ac roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr hyn wedi’u hatgyfeirio gan weithiwr cymdeithasol neu weithiwr iechyd proffesiynol arall gan gynnwys meddygon teulu.

**Tabl 11: Ymwybyddiaeth o Hawl**

| Ffynhonnell wybodaeth | Nifer | % |
|---|---|---|
| Clywed gan rywun arall e.e. teulu/ffrindiau | 65 | 38% |
| Siarad â Cyngor ar Bopeth a roddodd wybod i mi am fy hawl | 62 | 36% |
| Atgyfeiriad at Cyngor ar Bopeth | 53 | 31% |
| Arall | 15 | 9% |
| Hysbyseb/Poster | 13 | 8% |

Sylfaen: 171 Ymatebydd

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni roddodd yr ymatebwyr esboniad pellach dros ateb ‘arall’. Yn y ddau achos lle cafwyd esboniad, clywodd y ddau ymatebydd am eu hawl gan weithiwr cymorth.

Yn ddiddorol, yr ymateb lleiaf cyffredin oedd dod yn ymwybodol drwy hysbyseb/poster (8%; n=13). Gallai hyn awgrymu fod hysbysebu yn llai effeithiol o gymharu â chlywed gan eraill a chysylltiadau mwy personol eraill.

Mae’r cyfweliadau ansoddol manwl gyda theuluoedd yn cadarnhau’r ffaith bod llawer o deuluoedd wedi gofyn am gymorth gan Cyngor ar Bopeth ar ôl dod yn ymwybodol o’u hawl. Mae’n ddiddorol nodi bod llawer o’r teuluoedd y cynhaliwyd cyfweliadau â nhw wedi nodi bod gan eu plentyn (neu blant) anabledd ers nifer o flynyddoedd cyn iddynt wneud cais am DLA/budd-daliadau eraill. Mae hyn yn awgrymu y gallent fod

[22] Nid yw’n eglur o ganlyniadau’r arolwg pam roedd ymatebwyr yn siarad yn uniongyrchol â Chanolfannau Cyngor ar Bopeth h.y. os oeddynt wedi mynd atynt ar fater penodol yn ymwneud â DLA neu oherwydd eu bod wedi gweld poster yr Ymgyrch DLA, neu wedi mynd yno ynglŷn â materion eraill.

wedi colli budd-daliadau yr oeddynt yn gymwys i'w derbyn, a hynny ers nifer sylweddol o flynyddoedd mewn rhai achosion. Mae rhai o enghreifftiau'r astudiaethau achos yn dangos hyn.

**Astudiaeth Achos**

Mae gan Mrs H ddau o blant (merch 17 oed a mab 14 oed). Mae'r ddau blentyn wedi bod yn dioddef o epilepsi ers eu geni.

Roedd Mrs H wedi tybio mai budd-dal a ddibynnai ar brawf modd oedd DLA ac ni chredai fod anableddau ei phlant yn ddigon difrifol iddynt fod yn gymwys i'w dderbyn. Daeth yn ymwybodol y gallai fod hawl ganddi i'w dderbyn pan welodd daflen ynglŷn â'r Ymgyrch yn yr ysbyty lleol. Mae'r plant bellach yn derbyn cyfradd ganol y DLA.

Dywedodd Mrs H fod y teulu wedi cael trafferth i ymdopi'n ariannol pan oedd y plant yn llawer iau a byddent wedi elwa ar gael incwm ychwanegol y DLA ar yr adeg honno pe baent yn gwybod amdano.

**Astudiaeth Achos**

Mae Mr a Mrs F yn gofalu am ddyn ifanc anabl 18 oed. Nid oeddynt erioed wedi hawlio unrhyw fudd-daliadau felly nid oeddynt yn ymwybodol o'r system fudd-daliadau na'r cymorth y gallai CAB ei ddarparu.

Dywedodd y gwasanaethau cymdeithasol wrthynt y dylai'r dyn ifanc fod yn gymwys i dderbyn cyfradd uwch y DLA, ac awgrymwyd eu bod yn cysylltu â CAB. Dywedodd CAB wrthynt hefyd am y Credyd Treth Gwaith, a'r Lwfans Gofalwr, a gwnaed cais llwyddiannus am y rhain, a hefyd am ostyngiad yn eu bil dŵr.


## 7.5 Effaith Budd-dal DLA

### *7.5.1 Incwm ychwanegol*

Ar gyfartaledd, derbyniodd teuluoedd £93.66 yr wythnos yn ychwanegol mewn budd-daliadau ar ôl derbyn cymorth gan Cyngor ar Bopeth. Amrywiai'r ffigurau hyn o

dderbyn dim incwm ychwanegol i dderbyn £400 yr wythnos yn ychwanegol[23]. Mae Ffigur 9 yn dangos dadansoddiad o'r incwm ychwanegol a dderbyniwyd.

**Ffigur 9: Incwm Wythnosol Ychwanegol**




Sylfaen: 24 Ymatebydd

Rhoddodd 71 o'r 104 teulu gydag incwm blynyddol oedd yn llai na £19,999 wybodaeth am eu hincwm ychwanegol ar ôl derbyn cyngor gan Cyngor ar Bopeth. Mae hyn yn awgrymu bod y teuluoedd yn derbyn £92.09 yr wythnos yn ychwanegol mewn budd-daliadau, a fyddai'n golygu tua £4,789 y flwyddyn mewn budd-daliadau ychwanegol. Mae hyn yn awgrymu bod cyfran arwyddocaol o deuluoedd wedi gallu ychwanegu canran sylweddol at eu hincwm blynyddol o ganlyniad uniongyrchol i gymorth gan Cyngor ar Bopeth.

Hefyd, soniodd yr ymatebwyr am y gefnogaeth ychwanegol a'r cymorth ariannol a dderbyniwyd o ganlyniad i ddull Cyngor ar Bopeth o asesu'n gyfannol.

[23] Dilyswyd y ffigur hwn a'i gadarnhau gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth berthnasol. Roedd yr achos dan sylw'n ymwneud â theulu â dau o bant gydag anableddau difrifol. Dyfarnwyd DLA i'r teulu pan gysylltodd CAB â nhw gyntaf. Fodd bynnag, nid oedd y teulu'n ymwybodol o fudd-daliadau anabledd ychwanegol megis elfen anabledd y credydau treth. Hefyd, cynorthwyodd Cyngor ar Bopeth y fam i hawlio Lwfans Gofalwr, i gael y premiwm gofalwr, ac i gynyddu'r dyfarniad DLA ar gyfer gofal i'r gyfradd uchaf.

Dywedodd ychydig o ymatebwyr (n=8) eu bod wedi derbyn y Bathodyn Glas ar ôl cael cymorth gan Cyngor ar Bopeth. Dywedodd rhai ymatebwyr fod Cyngor ar Bopeth wedi'u helpu i gael arian ar gyfer eitemau penodol, er enghraifft:

- Grantiau/cymorth Cronfa'r Teulu (n=6)
- Grant ar gyfer dodrefn i'r cartref a/neu nwyddau trydanol a/neu gyfrifiadur (n=9).

### 7.5.2 *Defnydd o'r arian ychwanegol*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut oeddynt wedi defnyddio'r arian ychwanegol a dderbyniodd eu teulu drwy gymorth Cyngor ar Bopeth. Rhoddir dadansoddiad o'r ymatebion yn Nhabl 11. Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd byw o ddydd i ddydd (66%, n=112), yna gofal ychwanegol (34%; n=58) a hamdden (30%; n=50).

Yn ddiddorol, cynilion oedd yr ateb lleiaf cyffredin a roddwyd. Byddai'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr arian ychwanegol yn mynd i'r rheiny sydd fwyaf o'i angen.

**Tabl 12: Defnydd o Incwm Ychwanegol**

| **Defnydd** | **Nifer** | **%** |
|---|---:|---:|
| Byw o ddydd i ddydd | 112 | 66% |
| Gofal ychwanegol ar gyfer y plentyn (neu blant) ag anabledd | 58 | 34% |
| Hamdden e.e. tripiau teuluol | 50 | 30% |
| Trafnidiaeth | 34 | 20% |
| Arall | 26 | 15% |
| Gwyliau | 24 | 14% |
| Gwresogi | 19 | 11% |
| Cynilion | 12 | 7% |
| Costau seibiant | 3 | 2% |

Sylfaen: 169 Ymatebydd

**Astudiaeth Achos**

Mae Mrs A yn ofalwr maeth. Mae John wedi bod yn derbyn gofal maeth ganddi er pan oedd yn chwe wythnos oed. Mae John bellach yn 15 mis oed a daeth yn amlwg bod ganddo anableddau meddyliol a chorfforol.

Dywedodd Mrs A ei bod yn cael anhawster defnyddio'r gadair wthio oedd ganddi ar gyfer John ac awgrymodd aelod o'r staff y gallai fod yn gymwys i hawlio DLA ar ei gyfer. Roedd hi'n nerfus ynglŷn â llenwi'r ffurflenni, a chafodd gymorth gan CAB i wneud hyn. Roedd y cais yn llwyddiannus a thalwyd cyfradd ganol y DLA iddi.
O ganlyniad i'r incwm ychwanegol hwn (£47 yr wythnos), gallodd Mrs A brynu cadair wthio fwy addas i John sy'n diwallu ei anghenion yn well. Hefyd, gallodd Mrs A brynu dadleithydd ar gyfer ei ystafell wely er mwyn lleddfu heintiau ar ei frest. Hefyd, defnyddiwyd yr arian ychwanegol i brynu trampolîn i ddatblygu cryfder cyhyrol John.

**Astudiaeth Achos**

Mae gan Ms E fab awtistig 5 mlwydd oed sydd angen cymorth i fynd i'r toiled ac sy'n dioddef cyfnodau difrifol pan na all reoli'r hyn y mae'n ei wneud.
Cysylltodd Ms E â CAB ar ôl i'w chais am DLA gael ei wrthod a bellach mae hi'n derbyn cyfradd uchaf y DLA ar ôl cael cymorth gan CAB. Roedd ei mab hefyd yn gymwys i dderbyn Lwfans Symudedd.
Gallodd Ms E brynu pram arbennig oedd yn galluogi ei mab i wella'i symudedd, ynghyd â monitorau gwely, a gwaith i wella'r drws i'w ystafell er mwyn gallu mynd drwyddo'n haws ar frys. Hefyd, trodd ei ystafell yn 'ganolfan synhwyraidd fach'.

**Astudiaeth Achos**


Mae gan Mrs D fab 10 mlwydd oed sy'n cael trafferthion gyda'i gydbwysedd, sy'n olygu ei fod yn cwympo'n aml.
Ar ôl derbyn cymorth gan CAB, llwyddodd Mrs D i gael cymorth ar y gyfradd ganol ynghyd â Lwfans Gofalwr.
O ganlyniad i'r incwm ychwanegol, gallodd fforddio mynd â'i mab ar wyliau a phrynu trampolîn newydd iddo, na allai fod wedi'i wneud cyn hynny. Hefyd, gallodd fforddio talu iddo gael mynd i weithgareddau'r clwb pêl-droed.

## 7.6 Barn ar y cymorth a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth

Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio'r cymorth a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn gadarnhaol, gyda 89% (n=154) o'r ymatebwyr yn disgrifio'r gwasanaeth fel 'da iawn' a 8% (n=14) fel 'da'. Dim ond 3%

(n=6) oedd yn ystyried y gwasanaeth yn foddhaol. Ni ddisgrifiodd neb y gwasanaeth fel gwasanaeth gwael.

**Ffigur 10: Graddio'r Gwasanaeth**




Sylfaen: 174

### *7.6.1 Gwelliannau*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr awgrymu gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Manteisiodd saith ymatebydd ar y cyfle i roi sylwadau cadarnhaol ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth.

O'r rhai a awgrymodd welliannau (n=22), awgrymodd chwe ymatebydd welliannau neu sylwadau'n ymwneud â DWP, sef:

- Symleiddio'r ffurflenni cais (n=3)
- Ymestyn yr amser ar gyfer apelio (n=1)
- Gwella'r amser mae'n ei gymryd i brosesu cais (n=1)
- Agwedd amharod i helpu a darparu cymorth gan DWP (n=1).

O blith yr 16 ymateb arall, y themâu a'r awgrymiadau mwyaf cyffredin ar gyfer gwella sy'n ymwneud â Cyngor ar Bopeth oedd:

- Cynyddu darpariaeth a/neu lefel staffio'r gwasanaeth, gan gynnwys ymweliadau cartref, mwy o ddarpariaeth yn lleol a chymorth dilynol.

- Hygyrchedd (n=5), gan gynnwys llwyddo i fynd drwodd ar y ffôn ac amserau agor.
- Safleoedd mwy o faint (n=1)
- Sgiliau gwrando (n=1).

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

**"Byddai'n ddefnyddiol pe bai ymweliadau cartref ar gael."**

**"Hoffwn weld mwy o wasanaethau'n cael eu darparu yn lleol."**

**"Amserau agor cyfleus i rieni/cynhalwyr sy'n gweithio. Llinell ffôn uniongyrchol i'r CAB agosaf."**

Soniodd dau ymatebydd ynglŷn â phryd y dylid darparu cyngor, gydag un yn awgrymu ei bod hi'n well i gyngor fod ar gael pan oedd y diagnosis yn cael ei wneud ar y plentyn (yn yr ysbyty), a'r ymatebydd arall yn awgrymu ei bod yn well i Cyngor ar Bopeth roi cyngor tua 10-12 mis wedi'r diagnosis, gan eu bod yn poeni mwy am eu plentyn ar adeg y diagnosis ac yn llai abl i gofio'r holl gyngor a roddwyd.

## 7.7 Dyblygu gwasanaethau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr os oeddynt yn ymwybodol o unrhyw sefydliadau eraill sy'n darparu cyngor a chymorth ynglŷn â hawl i fudd-daliadau. Roedd llai nag un o bob pump (n=27; 19%) o'r ymatebwyr yn ymwybodol o sefydliadau eraill. Roedd yr ymatebion yn cynnwys[24]:

- Gwasanaethau ac asiantaethau statudol (n=14). Roedd hyn yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgol, Canolfannau Gwaith; Gwasanaethau Hawliau Lles yr ALl yn ogystal â www.direct.gov.uk.[25]

[24] Nododd un ymatebydd fwy nag un math o sefydliad.
[25] Directgov yw gwasanaeth digidol Llywodraeth y DU i bobl yng Nghymru a Lloegr. Mae'n darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol am wasanaethau cyhoeddus, gan eu crynhoi mewn un lle.

- Sefydliadau gwirfoddol (n=9). Roedd hyn yn cynnwys Barnardo's; Age Cymru; Cyswllt Teulu; Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth; Cyngor Ffoaduriaid Cymru.
- Cronfa’r Teulu (n=3).
- Arall (n=2)m gan gynnwys cyfeiriad at weithdy.

## 7.8 Cynyddu ymwybyddiaeth

Gofynnwyd i’r ymatebwyr ynglŷn â’r ffordd orau o roi gwybod i bobl am eu hawliau. Manteisiodd nifer fawr o ymatebwyr ar y cyfle i roi sylwadau a/neu wneud awgrymiadau (n=142).

Y prif themâu a godai o’r ymatebion hyn oedd:

- Cysylltu â phobl yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am eu hawl bosibl drwy eu ffonio a/neu drwy lythyr.
- Hysbysebu cyffredinol mewn papurau newydd, ar hysbysfyrddau cyhoeddus, posteri a thaflenni mewn llefydd fel ysgolion a meddygfeydd.

  Mae’n ddiddorol nodi hyn, gan mai dim ond 12% o’r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi dod yn ymwybodol o’r Ymgyrch drwy hysbysebu. Mae hyn yn awgrymu bod yr ymatebwyr yn dal i ystyried bod hysbysebu yn ddull effeithiol er na fu mor effeithiol â dulliau eraill hyd yn hyn.
- Defnyddio llyfrynnau gwybodaeth wedi’u dosbarthu drwy ysgolion, ysbytai ac ati.
- Dylai gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda phlant ag anabledd, er enghraifft meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, pediatregwyr, ymwelwyr iechyd a staff mewn ysgolion, roi gwybod i deuluoedd am eu hawliau,.
- Ymweld â Chanolfannau Cyngor ar Bopeth.
- Dylai cwmnïau gwasanaethau cyhoeddus roi gwybod am y gostyngiadau sydd ar gael i deuluoedd â phlant anabl.

## 7.9 Sylwadau ychwanegol

Rhoddwyd cyfle i’r ymatebwyr gynnig unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â’r gwasanaeth a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth. Dewisodd dros chwarter yr ymatebwyr roi

sylwadau (27%; n=49) a’r thema gyson oedd bod yr ymatebwyr yn werthfawrogol iawn o’r cymorth a gawsant gan Cyngor ar Bopeth. Roedd y sylwadau’n cynnwys:

**“Mae Cyngor ar Bopeth wedi bod yn fendith i mi. Ni fyddwn wedi ymdopi hebddynt – mae’r ffurflenni’n fy nychryn a byddwn wedi rhoi’r gorau iddi a heb gael y budd-daliadau y mae gen i hawl i’w derbyn.”**

**“Oni bai am Cyngor ar Bopeth, ni fyddwn yn gwybod am unrhyw fudd-daliadau y gallwn eu hawlio.”**

**“Ni allaf ddiolch digon am yr help a’r anogaeth a gefais gan eich staff, anhygoel!”**

**“Trwy sicrhau DLA i mi ar gyfer fy merch, mae wedi fy ngalluogi i leihau fy oriau gwaith, sy’n golygu fy mod yn blino llai ac yn ymdopi’n well â’i hanghenion hi.”**

**“Yr unig sylw yr hoffwn ei wneud yw fod cadw Cyngor ar Bopeth ar agor yn bwysig iawn i bobl fel fi ac eraill. Maen nhw’n ein helpu ni ac yn ein cynorthwyo ni drwy roi gwybodaeth, ac yn rhoi o’u hamser i chwilio am fanylion a llenwi ffurflenni. Maen nhw’n gwneud gwaith gwych.”**

## 7.10 Crynodeb

Ymatebodd cyfanswm o 178 o ymatebwyr i arolwg drwy’r post. Roedd gan ganran arwyddocaol o’r ymatebwyr ddau neu fwy o blant ag anableddau ac roedd incwm blynyddol dros hanner ohonynt yn sylweddol is na’r cyflog cyfartalog drwy Gymru.

Ar gyfartaledd, derbyniodd y teuluoedd £93.66 yr wythnos yn ychwanegol mewn budd-daliadau, sy’n awgrymu bod cyfran arwyddocaol o deuluoedd wedi gallu ychwanegu canran sylweddol at eu hincwm blynyddol. Nododd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr fod yr arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer byw o ddydd i

ddydd gydag ond ychydig o'r ymatebwyr yn ei gynilo. Byddai hyn yn awgrymu bod yr Ymgyrch yn targedu/cefnogi'r rheiny sydd fwyaf anghennus.

Ymgeisiodd y mwyafrif o'r ymatebwyr am fudd-daliadau drwy Cyngor ar Bopeth wrth iddynt ddod yn ymwybodol o'u hawl ac nid oedd y mwyafrif ohonynt yn ymwybodol o unrhyw sefydliadau eraill a oedd yn darparu cyngor. Clywed gan eraill oedd y ffordd fwyaf cyffredin o ddod yn ymwybodol o'r Ymgyrch/cymorth DLA a gynigiai Cyngor ar Bopeth a hysbysebu oedd y dull lleiaf cyffredin, a allai awgrymu bod hysbysebu'n llai effeithiol o gymharu â chlywed gan eraill a chysylltiadau mwy personol eraill. Ychydig iawn a ymgeisiodd ar ôl mynd yn ddi-waith, sy'n awgrymu mai effaith gyfyngedig a gafodd y dirwasgiad ar y niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau anabledd.

Yn gyffredinol, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r cymorth a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth gydag ond ychydig ohonynt yn awgrymu gwelliannau.

# 8 Casgliadau ac Argymhellion

## 8.1 Cyflwyniad

Mae’r Bennod hon yn crynhoi canfyddiadau pob un o gamau’r gwerthusiad.

Daw i gyfres o gasgliadau ynglŷn â’r effaith gafodd yr Ymgyrch hyd yn hyn ar gynyddu’r defnydd o fudd-daliadau, gan ddefnyddio data perfformiad Cyngor ar Bopeth yn ogystal â dadansoddi tueddiadau yn y defnydd o fudd-daliadau cyn ac ers gweithredu’r Ymgyrch. Mae wedyn yn sôn am y niferoedd posibl sydd â hawl nad ydynt yn dderbynyddion, mewn ymdrech i fesur yr effaith gafodd yr Ymgyrch ar gynyddu’r defnydd o fudd-daliadau ac fel modd o bwyso a mesur potensial yr ymgyrch i’r dyfodol.

Yna, mae’n sôn am weithrediad yr Ymgyrch ac yn rhoi asesiad o werth am arian o ran yr elw ar fuddsoddiad h.y. cymharu’r arian a ddarparwyd yn erbyn y defnydd ychwanegol o fudd-daliadau y gellir ei briodoli i’r ymgyrch.

Mae’n archwilio pa weithgareddau lleol oedd fwyaf llwyddiannus a pham, a pha wersi y gellir eu dysgu o’r dulliau hyn o weithredu; ac i ba raddau y gellid eu gweithredu’n ehangach.

Yn olaf, mae’n gwneud cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu’r cynllun i gynyddu’r defnydd o DLA yn y dyfodol.

## 8.2 Effaith yr Ymgyrch

### *8.2.1 Perfformiad*

Mae asesiad o berfformiad Cyngor ar Bopeth yn nodi bod yr Ymgyrch wedi llwyddo i gyrraedd ei dargedau budd-daliadau ond wedi methu o drwch blewyn â chyrraedd y targed cleientiad, fel y dangoswyd yn Nhabl 13.

**Tabl 13: Perfformiad yn erbyn y Targedau**

| | Targedau'r Llythyron o Gynigion | Cyfanswm alldro | % a Gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| Cleientiaid | 3, 000 | 2,818 | 94% |
| Budd-daliadau | £3 miliwn | £3 miliwn | 100% |

Ffynhonnell: Cyngor ar Bopeth

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod perfformiad yn amrywio'n sylweddol o Ganolfan i Ganolfan. Yn wir, methodd y mwyafrif o ardaloedd yr ALlau â chyrraedd y targed cleientiaid (n=15) a methodd dros hanner ardaloedd yr ALlau â chyrraedd y targed budd-daliadau (n=12). Gallai hyn awgrymu bod y targedau'n rhy heriol mewn ALlau penodol a heb fod yn ddigon heriol mewn ALlau eraill. Fodd bynnag, byddai dosbarthiad y Canolfannau a gyrhaeddodd y targedau a'r Canolfannau na lwyddodd i'w cyrraedd yn awgrymu bod ffactorau eraill wedi cael mwy o ddylanwad mewn llawer o achosion, gan gynnwys lefelau angen a'r amser a gymerai i ddatblygu partneriaethau llwyddiannus ac i'r rhain gael effaith.

Byddai dadansoddiad o ystadegau llwyth achosion DLA y DWP ar gyfer rhai rhwng 0 a 18 oed yn awgrymu bod cyfran y derbynyddion DLA rhwng 0 a 18 oed wedi cynyddu, ac wedi gwneud hynny ar raddfa uwch na chyfanswm y llwyth achosion DLA yn gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae diffyg data perfformiad DLA penodol mewn cysylltiad â'r Ymgyrch yn golygu nad yw'n bosibl rhoi sylwadau ar y cynnydd canrannol y gellid ei briodoli i'r Ymgyrch.

Yn ddiddorol, nid oedd y cynnydd yn y llwyth achosion DLA dros gyfnod yr Ymgyrch (1.2%) mor sylweddol ag yn y ddwy flynedd cyn dechrau'r Ymgyrch (1.2% o gymharu â 7.3%). Gallai hyn awgrymu nad yw'r Ymgyrch wedi cael effaith sylweddol ar y defnydd o DLA. Efallai bod hyn yn wir, ond nid yw o anghenraid yn adlewyrchiad negyddol o'r Ymgyrch yn gyffredinol, o ystyried bod llawer o'r Canolfannau wedi dweud bod nifer o gleientiaid eisoes yn derbyn DLA ond bod gwiriad budd-daliadau llawn wedi nodi budd-daliadau lles a grantiau eraill.

Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i nodi KPIs eglur iawn ar y cychwyn ac i roi systemau cadarn ar waith ar gyfer casglu'r dystiolaeth angenrheidiol ynglŷn â pherfformiad.

### 8.2.2 *Effaith y dirwasgiad*

Y tueddiad cyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf gydag amryw o fudd-daliadau lles fel DLA, Lwfans Gofalwr a JSA oedd cynnydd yn y llwyth achosion. Fodd bynnag, mae'r cynnydd canrannol yn y llwyth achosion DLA yn sylweddol is na llwyth achosion JSA ac nid yw hyn yn awgrymu bod cysylltiad cryf rhwng y defnydd o DLA ac effaith y dirwasgiad. Câi hyn ei gefnogi gan ganfyddiadau'r ymgynghoriad â chynrychiolwyr y Canolfannau nad oedd yn ystyried, ar sail eu cysylltiad â theuluoedd, fod y dirwasgiad wedi cael unrhyw effaith arwyddocaol ar y defnydd o DLA.

Hefyd, dangosodd canlyniadau arolwg o gleientiaid Cyngor ar Bopeth fod y newid mwyaf tebygol yn eu hamgylchiadau a'u sbardunodd i hawlio budd-daliadau'n ymwneud ag anabledd eu plentyn, gydag ond ychydig iawn yn gwneud cais yn sgil mynd yn ddi-waith. Awgrymai hyn mai effaith gyfyngedig a gafodd y dirwasgiad ar gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau anabledd.

### 8.2.3 *Pobl â hawl i fudd-daliadau nad ydynt yn eu hawlio*

Un ffordd o asesu effaith yr Ymgyrch, a phwyso a mesur ei hanghenion yn y dyfodol, yw amcangyfrif faint o bobl sydd â hawl i fudd-daliadau nad ydynt yn eu hawlio. Fodd bynnag, nid yw DWP yn cynhyrchu amcangyfrifon swyddogol o fudd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd, fel y DLA, am fod amcangyfrif yn fanwl pa nifer sy'n gymwys i hawlio'r budd-dal hwn yn waith cymhleth ac anodd.

Cyfeiriodd arolwg o ffynonellau data amgen ar y nifer posibl o blant ag anghenion iechyd at y cyfyngiadau sylweddol sy'n gysylltiedig â phob ffynhonnell. Yn fwyaf arwyddocaol, dangosodd na fyddai'r ystod o ddiffiniadau o anabledd a ddefnyddid o anghenraid yn cyfateb i feini prawf iechyd 'gweithredol' y DLA gan olygu na fyddai gan bawb y cofnodwyd bod ganddynt salwch neu iechyd gwael anghenion gofal a

symudedd a fyddai'n eu gwneud yn gymwys i dderbyn DLA pe baent yn ymgeisio amdano. Golyga hyn bod ein gallu i sôn am gyfraddau hawlio mewn unrhyw ffordd ystyrlon yn gyfyngedig ac nid yw'n bosibl rhoi sylwadau cywir na chadarn ar faint y boblogaeth gymwys a nifer yr ENRs.

## 8.3 Gweithredu'r Ymgyrch

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru arian i Cyngor ar Bopeth Cymru dreialu'r Ymgyrch i Annog Defnydd o DLA fel rhan o fenter BABH Cyngor ar Bopeth. Hwylusodd hyn y broses o ddyrannu cyllid yn gyflym ar draws yr ALlau heb yr oedi sy'n gysylltiedig â phroses dendro ffurfiol. Ystyriodd brofiad sylweddol Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor ar fudd-daliadau gan ystyried y gallai Cyngor ar Bopeth fanteisio ar ei fenter BABH.

Er bod rhaid cydnabod y rhesymau sy'n sail i'r penderfyniad, yr hyn sy'n llai eglur yw a fyddai caffael cyhoeddus wedi arwain at well canlyniadau. Yn ddamcaniaethol, gwelir bod caffael cyhoeddus yn cynnig tryloywder, yn helpu i wella ansawdd ac yn cynyddu cyfraddau cyflawni, ac felly sicrhau mwy o werth am arian. Er enghraifft, dengys ymchwil i gyngor ar ddyled fod y rhan fwyaf o'r cyngor a ddarparir yn ddi-dâl gan y llywodraeth yn y DU yn cael ei gaffael drwy dendr cyhoeddus, a bod hynny wedi helpu i wella ansawdd y ddarpariaeth ac wedi sicrhau mwy o werth am arian[26]. Yn yr achos hwn, mae'n anodd dweud a fyddai caffael cyhoeddus wedi sicrhau gwell Gwerth am Arian.

Nodwyd fod y dull a ddewiswyd yn destun siom i aelodau o'r sefydliadau rhanddeiliaid cenedlaethol a ystyriai eu bod nhw mewn sefyllfa well i ddarparu ymgyrch effeithiol ar gyfer annog pobl i hawlio budd-daliadau, o ystyried eu harbenigedd a'u gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â phlant ag anabledd. Atgyfnerthwyd eu barn gan eu hasesiad eu hunain o berfformiad Cyngor ar Bopeth a chymhariaeth â gwasanaethau tebyg gan grwpiau buddiant (anabledd) penodol a

---

[26] Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol – Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) – *Helping over-indebtedness consumers* (Chwefror 2010)

oedd yn awgrymu yn eu barn nhw gallai Cyngor ar Bopeth fod wedi bod yn fwy llwyddiannus.

Dangosodd gwaith ymgynghori â Cyngor ar Bopeth a Llywodraeth Cymru fod cost gweinyddu a gweithredu'r Ymgyrch yn isel ac yn gymesur â'r arian a ddarparwyd. Fodd bynnag, golygodd 'goruchwyliaeth ysgafn' Llywodraeth Cymru nad oedd hi'n gwbl eglur mai ffocws yr Ymgyrch oedd cynyddu'r defnydd o DLA ac mae'n bosibl y byddai herio perfformiad yn fwy beirniadol ac yn gynt wedi arwain at rai gwelliannau yn y Canolfannau oedd yn perfformio'n wael. Yn yr un modd, mae'n bosibl y byddai dull o rheoli cadarnach ar ran Cyngor ar Bopeth wedi bod yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael â pherfformiad gwael rhai Canolfannau.

Ar sail yr arian a ddarparwyd, mae perfformiad yn dangos cymhareb Gwerth am Arian o 1:6 yn gyffredinol. Roedd hyn yn rhesymol, er ychydig yn is na chynlluniau eithaf tebyg mewn mannau eraill, er enghraifft gwasanaethau cyngor lles Mencap yn Sir Gaerfyrddin, a Chyngor ar Fudd-daliadau Lles Macmillan/Cyngor ar Bopeth Belfast. Mae hyn o bosibl yn cefnogi'r ddadl y gallai ymarfer caffael cyhoeddus fod wedi sicrhau canlyniadau gwell a chynyddu'r Gwerth am Arian.  Yn yr un modd, er hynny, mae perfformiad cryf iawn mewn Canolfannau penodol yn awgrymu ei bod hi'n bosibl i ddarparwyr cyngor cyffredinol fod yr un mor llwyddiannus, os nad yn fwy llwyddiannus, na darparwyr arbenigol wrth ddarparu gwasanaeth cyngor pwrpasol i grŵp buddiant penodol.

I gloi, mae  hyn yn awgrymu bod lle i wella gweinyddiaeth yr Ymgyrch yn y dyfodol, er y pwysleisir ei bod hi'n bwysig bod y gwaith gweinyddu a rheoli'n gymesur â chyfanswm yr arian sydd ar gael. Eto, mae'r amrywiadau o ran perfformiad, na ellir eu priodoli i faint y boblogaeth yn unig a chan hynny, i nifer posibl o gleientiaid cymwys, yn awgrymu bod angen sicrhau perfformiad mwy effeithiol ar draws y Canolfannau drwy adrodd yn fwy trylwyr, herio beirniadol a rheoli mwy cadarn.

## 8.4 Yr hyn sy’n gweithio

Bu’r Canolfannau yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys hysbysebu’r Ymgyrch mewn meddygfeydd, canolfannau iechyd a lleoliadau eraill, datblygu ystod eang o gysylltiadau a rhwydweithiau atgyfeirio a darparu allgymorth, ymweliadau cartref a gwaith achos. Fodd bynnag, mae amrywiaeth a natur y gweithgareddau hyn a lefelau adrodd yr Ymgyrch yn gyffredinol, yn golygu ei bod yn anodd dod i gasgliad pendant ynghylch pa weithgareddau lleol oedd fwyaf llwyddiannus a pham, a pha wersi y gellir eu dysgu o’r dulliau gweithredu hyn.

Er hynny, ceir nifer o themâu allweddol eglur:

- Mae’r canfyddiadau’n awgrymu bod rhwydweithio parhaus a rhagweithiol gyda sefydliadau perthnasol wedi llwyddo i ysgogi ymwybyddiaeth o’r Ymgyrch.

  Roedd datblygu cysylltiadau ag ystod eang o rwydweithiau a sefydliadau partner yn bwysig i gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill ynglŷn â chymhwysedd posibl eu cleientiaid i dderbyn budd-daliadau anabledd ac yn benodol, ynglŷn â’r cymorth a gynigiai Canolfannau Cyngor ar Bopeth lleol. Amrywiai’r sefydliadau o sefydliadau iechyd i ysgolion arbennig a grwpiau anabledd a oedd yn debygol o fod yn ymwneud â phlant ag anabledd a’u teuluoedd.

  Hefyd, roedd hi’n bwysig cynnal rhyw ffurf ar gysylltiad rheolaidd â’r cysylltiadau hyn i’w hatgoffa am yr Ymgyrch a rhoi’r newyddion diweddaraf ynglŷn â’i llwyddiant. Yn bendant, cafodd hyn rhywfaint o effaith ar allu’r Canolfannau i ganolbwyntio adnoddau ar amser cyswllt â chwsmeriaid. Yn yr un modd, roedd rhaid sicrhau llif o atgyfeiriadau. Roedd gan rai Canolfannau ddulliau arloesol o gyflwyno newyddion am yr Ymgyrch, megis dosbarthu bwletin newyddion cryno neu neilltuo amser yng nghyfarfodydd timau staff chwarterol sefydliadau rhwydwaith allweddol.

- Targedu grwpiau penodol o gleientiaid gyda llwybr atgyfeirio clir.

Casnewydd oedd un o'r Canolfannau mwyaf llwyddiannus o ran y cleientiaid a gynorthwywyd a budd-daliadau a gadarnhawyd, gyda chymhareb Gwerth am Arian o 1:20. Roedd Casnewydd yn unigryw yn yr ystyr bod ei ddull gweithredu'n canolbwyntio'n llwyr ar dargedu plant yn y cyfnod pontio rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a rhai oedolion, gan dderbyn atgyfeiriadau uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Yn wir, mae dull Casnewydd o weithredu'n adlewyrchu nifer o themâu allweddol o'r llenyddiaeth ar fesurau i gynyddu defnydd, ac mae'n adlewyrchu dull rhagweithiol o weithio mewn partneriaeth rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a CAB Casnewydd, cysylltiad personol gan ganolwr dibynadwy h.y. gweithiwr cymdeithasol yn atgyfeirio cleient at CAB Casnewydd, a newid mewn amgylchiadau personol h.y. symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Fodd bynnag, nid oedd dull Casnewydd o weithredu yn canolbwyntio ar gynyddu defnydd o DLA ynddo'i hun.

Mae hyn yn codi cwestiwn mwy cyffredinol i Lywodraeth Cymru: ai cynyddu defnydd o fudd-daliadau penodol neu gynyddu incwm cartrefi ddylai fod yn ganlyniad allweddol ymgyrch ar gyfer cynyddu defnydd? O ystyried mai'r brif sail resymegol dros yr Ymgyrch oedd cynyddu incwm cartrefi, awgryma hyn fod dull Casnewydd o weithredu yn ddilys. Fodd bynnag, er ei bod yn addas i gynllun peilot ymchwilio gwahanol fodelau darparu, argymhellir y byddai gofyn i unrhyw ymgyrchoedd yn y dyfodol fod yn fwy eglur ynglŷn â'u ffocws a'u prif nod.

## 8.5 Argymhellion ar gyfer gweithredu ymgyrchoedd yn y dyfodol

Mae canfyddiadau'r Ymgyrch DLA hon yn awgrymu fod yr elw cadarnhaol ar fuddsoddiad a gwerth am arian yn rhesymol o gymharu â chynlluniau mewn mannau eraill ac o ystyried mai menter beilot oedd hon. Mae canlyniadau o Ganolfannau penodol fel Casnewydd, Sir Ddinbych a Chaerffili yn gadarnhaol tu hwnt.

Gwneir yr argymhellion canlynol:

- Argymhelliad 1 – bod Llywodraeth Cymru'n egluro nod penodol, ac felly ffocws, unrhyw Ymgyrch DLA yn y dyfodol h.y. cynyddu defnydd o DLA neu gynyddu incwm.

  Mae arolwg o gynlluniau mewn mannau eraill yn awgrymu y gallai'r grŵp cleientiaid a dargedir a gweithgareddau penodol i hybu defnydd fod yn ffactor allweddol ar gyfer cynyddu defnydd, a bod defnyddio gwiriadau budd-daliadau llawn yn ffactor allweddol ar gyfer gynyddu incwm. Felly, os mai cynyddu incwm yw'r nod penodol, argymhellir bod Llywodraeth Cymru'n caffael cynllun cynyddu defnydd o fudd-daliadau lluosog.

- Argymhelliad 2 – dylai unrhyw Ymgyrch yn y dyfodol ddefnyddio gwiriadau budd-daliadau llawn, waeth a yw Ymgyrch o'r fath yn canolbwyntio ar un neu fwy o fudd-daliadau penodol ai peidio. Byddai hyn yn sicrhau bod cynyddu incwm teuluol yn elfen greiddiol a byddai'n cynyddu effaith gyffredinol yr Ymgyrch.

- Argymhelliad 3 - dylai Llywodraeth Cymru ystyried caffael unrhyw Ymgyrch yn y dyfodol drwy broses gaffael gyhoeddus er mwyn helpu i sicrhau tryloywder, mwy o gystadleuaeth ac arloesedd o ran dull o weithredu, a gwella gwerth am arian.

- Argymhelliad 4 – dylai darparwr (neu ddarparwyr) llwyddiannus nodi'n glir sut y byddai Ymgyrch o'r fath yn cael ei hyrwyddo, gan ddarparu strategaeth gyfathrebu, a marchnata ganolog y mae modd ei chyflawni ar lefel leol.

- Argymhelliad 5 – dylai darparwr (neu ddarparwyr) llwyddiannus gynhyrchu cynlluniau gweithredu clir, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r llenyddiaeth ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio, a dylai adrodd ar fewnbwn a chanlyniadau ar draws y cynlluniau. Dylai hyn helpu i sicrhau lefelau teg a safonol o wasanaeth i gleientiaid ledled Cymru (yn gymesur â'r adnoddau), i helpu monitro

perfformiad a sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni ledled Cymru.

- Argymhelliad 6 – yn gysylltiedig ag argymhelliad 5 uchod, dylai darparwr (neu ddarparwyr) llwyddiannus fanylu ar sut y byddant yn sicrhau mynediad i wasanaethau o fewn yr adnoddau fydd ar gael. Dylai hyn gynnwys nodi lleoliadau ac oriau agor, darparu allgymorth ac ymweliadau cartref yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o dechnoleg drwy wasanaethau ffôn a'r we.

- Argymhelliad 7 – ystyrid bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i lwyddiant yr Ymgyrch gyfredol. Dylai darparwr (neu ddarparwyr) llwyddiannus fanylu ar sut y byddant yn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn llwyddo ar lefel strategol, genedlaethol a lleol er mwyn ymgysylltu'n llwyddiannus â'r holl randdeiliad allweddol a sicrhau bod rhwydweithiau ffurfiol yn cael eu datblygu i hwyluso atgyfeirio a chyfathrebu llwyddiannus.

- Argymhelliad 8 – dylai Llywodraeth Cymru nodi'r trefniadau adrodd yn fwy eglur, yn enwedig y math o ddata perfformiad sydd i'w gasglu a'i ddefnyddio ar gyfer adrodd, gan gofio'r angen am ymdrech gymesur. Ar yr un pryd, mae angen digon o wybodaeth i ddangos beth sy'n gweithio'n dda. Golyga hyn ddatblygu system fonitro ac adrodd addas ac ymarferol sy'n cofnodi gwybodaeth ynghylch pam y mae hawlwyr yn hawlio a sut y dônt yn ymwybodol o fudd-daliadau anabledd a/neu eu cymhwysedd i'w derbyn. Mae'n bwysig bod trefniadau adrodd yn cael eu monitro'n effeithiol dros gyfnod yr ymgyrch er mwyn sicrhau bod y canlyniadau gorau'n cael eu cyflawni. Hefyd, dylai trefniadau adrodd a data perfformiad hwyluso gwerthusiad dilynol o effaith yr ymgyrch.

Pwynt mwy cyffredinol i unrhyw fenter beilot yw'r angen am ddull mwy strwythuredig o fynd ati i dreialu, monitro'r treialon hyn a gwybodaeth gadarn am weithgareddau penodol er mwyn dod i gasgliadau pendant ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda. Argymhellir bod Llywodraeth Cymru'n rhoi mwy o

ystyriaeth i sut yr aiff ati i fesur effaith menter newydd a sicrhau bod y data angenrheidiol yn cael ei gasglu er mwyn hwyluso gwerthusiad cadarn.

# Atodiad 1 Adolygiad o'r Llenyddiaeth

<table>
<tr><th>Dogfen</th><th>Crynodeb</th></tr>
<tr><td>Adran Nawdd Cymdeithasol: Overcoming Barriers: Older People and Income Support (1999)</td><td>Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau astudiaeth ymchwil a wnaed gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol gynt sy'n ymwneud â'r rhwystrau pwysicaf i hawlio Cymhorthdal Incwm ymhlith pobl 60 oed a hŷn. Roedd hefyd yn ceisio canfod ffyrdd o gynyddu'r defnydd ymhlith pobl â hawl nad ydynt yn dderbynyddion.<br><br>Nodwyd dwy brif ran i'r rhwystrau i hawlio Cymhorthdal Incwm:<ul><li>Rhan agweddol, a ddisgrifir hefyd fel dimensiwn y 'stigma'; a</li><li>'Dimensiwn y broses' sy'n cynnwys gwrthwynebiadau i agweddau amrywiol ar y broses hawlio neu safbwyntiau negyddol amdanynt.</li></ul>Cyflwynodd yr adroddiad hwn restr o'r rhwystrau i hawlio cymhorthdal incwm a oedd yn cynnwys, ymhlith eraill, ofn y stigma negyddol a'r ensyniadau o hawlio cymohorthdal incwm. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu sbardunau i hawlio cymhorthdal incwm, megis cael eu hannog i wneud hynny gan gyswllt proffesiynol, neu ei chael hi'n anodd i ymdopi ar eu hincwm cyfredol ac felly penderfynu hawlio cymhorthdal incwm.<br><br>Perthnasedd i Gymru<br>Mae'r adroddiad hwn yn nodi amrywiaeth o rwystrau sy'n effeithio ar hawlio budd-daliadau a allai awgrymu bod angen dull gweithredu amlochrog i'w goresgyn neu i leihau eu heffaith. Mae hefyd yn amlwg bod y rhwystrau i hawlio budd-daliadau wedi cael eu cofnodi ers dros ddegawd, sy'n dangos eu bod yn rhwystrau hirdymor sydd, felly'n anodd eu goresgyn. Mae'n awgrymu y byddai dull gweithredu mwy rhagweithiol yn debygol o fod yn fwy</td></tr>
</table>

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | *llwyddiannus na chyhoeddusrwydd cyffredinol a bod pobl hŷn yn disgwyl i'r llywodraeth gysylltu â nhw i gychwyn, er y byddai newidiadau mewn amgylchiadau personol yn annog pobl i edrych yn fanylach ar eu hawliau.*<br><br>*Awgryma hyn y byddai sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm yng Nghymru yn llwyddo'n well i annog pobl i hawlio budd-daliadau'n fwy llwyddiannus pe baent yn mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol ac amlochrog sy'n targedu pobl, yn arbennig trwy ganolwyr dibynadwy gan gynnig cymorth penodol iddynt, neu'n eu targedu ar adegau penodol yn eu bywydau fel, er enghraifft, ar adegau o brofedigaeth neu wrth symud o oedran gwaith i oedran pensiwn ac ati, neu drwy gynnwys gwybodaeth am hawliau posibl gyda'u biliau cartref a'r dreth gyngor.* |
| **Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: *Tackling Pensioner Poverty: Encouraging take-up of entitlements* (2002)** | Archwiliodd yr adroddiad hwn y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ar ei phen ei hun a gydag amrywiaeth o sefydliadau eraill, i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pensiynwyr rhag hawlio.<br><br>Nododd yr adroddiad fod creu'r Gwasanaeth Pensiwn bryd hynny'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio dull rhagweithiol o weithredu'r ddarpariaeth o wasanaethau i bensiynwyr, ond na allai'r Gwasanaeth Pensiwn fynd i'r afael â thlodi pensiynwyr ar ei ben ei hun. Yn wir, nododd yr adroddiad y cyfoeth o brofiad a oedd eisoes yn bodoli mewn mannau eraill, ac na fyddai'n gost effeithiol nac yn briodol i'r Gwasanaeth Pensiwn geisio gwneud hynny. Awgrymwyd ei bod yn hanfodol i'r Gwasanaeth Pensiwn ddatblygu strategaethau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.<br><br>Nododd yr adroddiad hefyd nad oedd llawer o weithgareddau defnyddio'n ddrud ac roeddynt i'w gweld yn cael cryn effaith, ond cydnabu mai ychydig iawn o dystiolaeth oedd ar gael o'u heffeithiolrwydd cyffredinol, ac roedd angen data gwell i alluogi'r Gwasanaeth Pensiwn ac asiantaethau eraill i benderfynu ble i ganolbwyntio eu hymdrechion |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | er mwyn annog defnydd.<br><br>Nododd yr adroddiad fwy na 20 rhwystr sylweddol a oedd yn atal pensiynwyr rhag hawlio – rhwystrau y gwyddys eu bod yn atal neu'n oedi hawliadau, ac mae'r rhain yn ymwneud â'r system fudd-daliadau, y ffordd y caiff ei gweinyddu ac agweddau'r cwsmeriaid. Dyma'r rhwystrau a nodwyd:<br><br>**System**<br>1 Cydweithredu gwael rhwng gweinyddiaethau<br>2 Y broses ddilysu<br>3 Cymhlethdod y system yn gyffredinol<br>4 Casáu budd-daliadau prawf modd<br>**Gweinyddiaeth**<br>5 Gormod o ffurflenni i'w llenwi am gymhwysedd<br>6 Ffurflenni hawlio hir a chymhleth<br>7 Diffyg gwybodaeth a dryswch<br>8 Problem o gael mynediad corfforol i swyddfa Asiantaeth Fudd-daliadau<br>9 Disgwyl cael eu hysbysu o'u hawl (h.y. gadael hynny i'r pensiynwr ei hun)<br>**Lefel cwsmer**<br>10 Anhawster i gwblhau'r ffurflenni cais<br><br>**Lefel cwsmer (parhad)**<br>14 Amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth bersonol (sy'n ymwneud ag arian ac iechyd)<br>15 Ddim eisiau ymweld â swyddfeydd yr Asiantaeth Fudd-daliadau<br>16 Ddim eisiau derbyn cardod am nad ydynt yn gweld budd-daliadau fel hawl/stigma'n gysylltiedig â derbyn budd-daliadau<br>17 Ofn cael eu gwrthod<br>18 Ofn dyled (e.e. os bydd angen ad-dalu gordaliad budd-dal)<br>19 Ofn y byddai camgymeriadau'n cael eu gweld fel celwydd neu dwyll<br>20 Ofn colli annibyniaeth<br>21 Ddim yn hoffi ymdrin â biwrocratiaeth/pryder |

| Dogfen | Crynodeb |
| --- | --- |
| | 11 Methu ailymgeisio pan fydd y rheolau neu'r amgylchiadau'n newid<br>12 Anhawster deall gwybodaeth<br>13 Diffyg gwybodaeth sylfaenol am fudd-daliadau a rheolau<br>ynghylch ymdrin â swyddogion<br>22 Gormod o ffwdan/nid yw swm y budd-dal yn werth yr ymdrech.<br><br>Canolbwyntiodd yr adroddiad ar y 10 prif rwystr a gwnaeth yr argymhellion canlynol er mwyn cynyddu'r defnydd:<br>• Dylai'r Gwasanaeth Pensiwn osod targedau cenedlaethol realistig ac uchelgeisiol ar gyfer hawlio Credydau Pensiwn.<br>• Er mwyn gosod targedau realistig, asesu effeithiolrwydd y mentrau defnyddio a mesur y tueddiadau dros amser, rhaid i'r Adran gael data gwell ar y nifer amcangyfrifol nad ydynt yn defnyddio budd-daliadau, a adroddir mewn bandiau eang dros ben ar hyn o bryd;<br>• Dylai'r Adran wneud mwy i symleiddio'r broses o hawlio budd-daliadau.<br>• Dylai'r Adran barhau â'i hymchwil i ddeall y rhwystrau i hawlio ymhlith is-grwpiau arbennig, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, pensiynwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, a'r rhai â nam ar y synhwyrau.<br>• Dylai'r Gwasanaeth Pensiwn wneud y defnydd gorau posibl o gysylltiadau cyfredol pensiynwyr ag asiantaethau dibynadwy fel gweithwyr iechyd proffesiynol.<br>• Dylai penderfyniadau ynghylch lle i ganolbwyntio adnoddau ar ddefnyddio fod ar sail tystiolaeth a fydd, yn ei dro, yn golygu bod angen ymchwil pellach ar beth sy'n gweithio, i bwy mae'n gweithio, ac o dan ba amgylchiadau. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | • Ni all y Gwasanaeth Pensiwn fynd i'r afael â rhwystrau i hawlio ar ei ben ei hun, felly rhaid iddo weithio gyda nifer o sefydliadau eraill, y sector gwirfoddol a'r ALlau sydd â phrofiad a chysylltiadau i helpu i annog pensiynwyr i hawlio.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae hyn yn awgrymu y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm yng Nghymru osod targedau ar gyfer hawlio a mesur y cynnydd dros amser. Byddai hyn yn golygu buddsoddi rhywfaint o amser ac adnoddau i asesu effaith eu gweithgareddau, ond byddai hyn yn eu helpu i fabwysiadu dulliau gweithredu sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth ac felly'n eu helpu i sicrhau bod cynlluniau dilynol yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Byddai'n awgrymu hefyd y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm fabwysiadu dull o weithredu mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau lleol perthnasol yn ogystal â thrwy ganolwyr dibynadwy.* |
| **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin** ***Tackling Pensioner Poverty – Encouraging Take-Up of*** | Yn dilyn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2002, archwiliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin gamau gweithredu'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gwasanaeth Pensiwn ar ei ben ei hun ac mewn partneriaeth ag eraill i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pensiynwyr rhag hawlio.<br><br>Daeth y Pwyllgor i nifer o gasgliadau:<br>• Roedd yna ffocws a dull gweithredu newydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer hawlio, ond roedd eu llwyddiant yn dibynnu ar gael targedau uchelgeisiol a gwella safon y wybodaeth am lefelau hawlio.<br>• Roedd dryswch a chymhlethdod yn parhau'n rhwystrau mawr i hawlio. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| ***Entitlements* (2003)** | • Roedd gweithio mewn partneriaeth yn rhoi'r cyfle i gyfuno ymdrechion asiantaethau a sefydliadau eraill ac, er bod yna enghreifftiau o arferion da, ychydig o ddata oedd wedi'i gyhoeddi ar beth oedd yn gweithio.<br>• Roedd yna le i symleiddio prosesau, i ddefnyddio gwybodaeth yn fwy effeithiol ac i leihau dyblygu.<br>Gwnaeth y Pwyllgor gyfres o argymhellion, gan gynnwys:<br>• Gosod targedau, a oedd yn fwyfwy uchelgeisiol.<br>• Symleiddio'r prosesau a lleihau dyblygu.<br>• Cyfathrebu'n effeithiol â phensiynwyr trwy lenyddiaeth ac amrywiaeth o gyfryngau. Awgrymwyd bod yn greadigol wrth gyflwyno'r neges i'r cyhoedd, er enghraifft, cael llinell storïol mewn cyfres deledu boblogaidd.<br>• Gweithio gydag eraill mewn ffyrdd cost-effeithiol, er enghraifft, cysylltu â meddygfeydd, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a swyddfeydd post – canolwyr dibynadwy.<br>Mae'n werth nodi bod y Pwyllgor wedi nodi nad oedd digon o wybodaeth am hawlio ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i DWP asesu ble i ganolbwyntio'i hadnoddau. Awgrymwyd datblygu Arolwg o Adnoddau Teulu.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae hyn yn awgrymu bod angen i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm osod targedau heriol a mesur eu cynnydd, er bod y prinder o wybodaeth ddibynadwy am y rhai nad ydynt yn hawlio yn her wrth benderfynu lle i ganolbwyntio adnoddau. Mae hefyd yn awgrymu bod yna le i symleiddio a lleihau'r dyblygu a allai gynnwys adolygu a diwygio'r ffurflenni ymgeisio'n rheolaidd. Mae hefyd yn awgrymu y dylai* |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | *sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm fod yn greadigol yn eu gwaith cyhoeddusrwydd er mwyn cyflwyno'u neges ar hawlio budd-daliadau a gallent fod yn fwy cost-effeithiol trwy weithio gyda chanolwyr dibynadwy* |
| **Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon: *Encouraging Take-up of Benefits by Pensioners* (2003) (2003)** | Roedd yr adroddiad hwn yn archwilio beth oedd yr Adran Datblygu Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r broblem o dlodi pensiynwyr trwy gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau. Roedd rhai o'r canfyddiadau allweddol yn dangos bod yna:<br>• Brinder gwybodaeth ddigonol a dibynadwy am ddefnyddio budd-daliadau. Argymhellodd yr adroddiad y dylid casglu data ar y niferoedd y tybiwyd nad oeddynt yn defnyddio er mwyn gallu dadansoddi'r broblem a gosod targedau realistig ac asesu effeithiolrwydd mentrau defnyddio.<br>• Roedd yna angen parhaus i fynd i'r afael â materion dylunio a llunio opsiynau haws a chost-effeithiol mewn perthynas â'r ffurflenni cais.<br>• Dylai'r Adran ddal ati i fonitro effeithiolrwydd defnyddio'r ffôn fel y brif ffordd o ddarparu gwybodaeth a chyngor ar fudd-daliadau, yn hytrach na chysylltiad wyneb-yn-wyneb.<br>• Dylai'r Adran ganolbwyntio ar amrywiaeth o fudd-daliadau yn ei mentrau defnyddio.<br>• Er mwyn darbwyllo pensiynwyr cyndyn i hawlio'r hyn y mae ganddynt yr hawl i'w dderbyn, mae angen mwy o gydgysylltu rhwng yr Adran a'r sefydliadau gwirfoddol hynny sydd wedi meithrin cysylltiadau â phensiynwyr yn lleol.<br>• Roedd yna le i'r Adran weithio'n fwy dwys gyda'r sector gwirfoddol er mwyn cysylltu'n fwy uniongyrchol â phensiynwyr yn eu cymunedau eu hunain trwy chwilio am gyfleoedd i ddarparu cyngor ar fudd-daliadau mewn |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | meddygfeydd a chanolfannau iechyd.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â phrinder gwybodaeth ddigonol a dibynadwy am hawlio budd-daliadau, ond byddai'n awgrymu bod yna le o hyd i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau gweinyddol sy'n gysylltiedig â hawlio a gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a thrwy ganolwyr dibynadwy.* |
| **Is-adran Cymorth Tai yr Adran Gwaith a Phensiynau: *Council Tax Benefit Take-up: A Best Practice Guide* (2004)** | Mae'r Canllaw hwn, a gynhyrchwyd gan Is-adran Cymorth Tai'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn darparu rhesymau pam nad yw rhai pobl yn hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor (CTB) y mae ganddynt yr hawl i'w gael ac yn rhoi enghreifftiau o fentrau diweddar gan Awdurdodau Lleol (ALlau) i helpu i gynyddu'r defnydd o'r CTB.<br>Roedd rhai o'r rhwystrau a oedd yn atal pobl rhag hawlio'r CTB a nodwyd yn y cyhoeddiad yn cynnwys:<br>• Diffyg gwybodaeth am y CTB.<br>• Gweithgareddau heb eu cydgysylltu gan awdurdodau.<br>• Stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau.<br>• Profiadau gwael yn y gorffennol wrth fynd i'r afael â cheisiadau am fudd-daliadau.<br>• Bod hawlio dros y ffôn yn anaddas i grwpiau arbennig sy'n agored i niwed.<br>• Proses hawlio gymhleth.<br>• Diffyg cysylltiad personol yn ystod y drefn ymgeisio.<br>Rhoddwyd awgrymiadau hefyd ar sut i oresgyn y rhwystrau hyn. Dyma rai enghreifftiau o arferion gorau ALlau: |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | • Sioeau teithiol budd-daliadau yn yr ardal.<br>• Darparu “cyfrifyddion parod” bach fel y gall cwsmeriaid weld y cyfyngiadau incwm ar gyfer y CTB.<br>• Cyfrifiannell budd-daliadau ar-lein.<br>• Bws budd-daliadau i gyrraedd hawlwyr cyfredol a darpar-hawlwyr gyda chyfrifiaduron ar-lein fel y gall staff brosesu ceisiadau.<br>• Gweithio ar y cyd gyda grwpiau gwirfoddol i dargedu ardaloedd lle ceir defnydd isel o fudd-daliadau.<br>Yn olaf, roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr wirio i ALlau oedd â saith cam gweithredu a oedd yn cynrychioli meysydd hanfodol o weithgareddau defnyddio. Roedd y rhain yn amrywio o arddangos deunydd hyrwyddo i ymwybyddiaeth staff i ddefnyddio holl gysylltiadau’r ALlau a gweithio gyda grwpiau hunangymorth.<br>Mae gwefan DWP yn cynnwys gwybodaeth a thaflenni i ategu ymgyrchoedd Defnyddio’r CTB.<br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae’r canllaw hwn yn darparu amrywiaeth o awgrymiadau ymarferol ac yn cynnig rhestr wirio y gall sefydliadau sy’n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm ei defnyddio er mwyn asesu neu archwilio eu gweithgareddau defnyddio yn ei herbyn.* |
| **Macmillan Cancer Relief – *Better Deal: Access*** | Cyflwynodd yr adroddiad hwn ganfyddiadau astudiaeth a archwiliai brofiadau cleifion canser wrth hawlio DLA a Lwfans Gweini (AA). Dangosodd canfyddiadau’r adroddiad fod cleifion canser yn wynebu amryw o rwystrau i hawlio fel diffyg gwybodaeth a chyngor ar fudd-daliadau anabledd, a chamddeall y meini prawf asesu a’r broses wneud ceisiadau. Hefyd, gall gweithwyr iechyd proffesiynol fod yn ddryslyd eu meddwl ynghylch diben y budd- |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| ***Denied*, Mai 2005** | daliadau a'r profion a ddefnyddir i asesu cymhwysedd, gan atal cleifion rhag darparu gwybodaeth i gefnogi eu cais. Er enghraifft, gall cleifion canser ei chael hi'n anodd rhagweld eu hanghenion gofal a symudedd yn y dyfodol tra bo meddygon yn methu rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn ag anghenion gofal claf yn y dyfodol. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, gan gynnwys:<br>• Darparu cyngor arbenigol ar fudd-daliadau i gleifion canser. Fodd bynnag, rhaid ystyried sut y dylai gwasanaeth cyngor arbenigol o'r fath gael ei ddarparu, pwy ddylai ei gynnig a sut y dylid ei ariannu.<br>• Darparu gwell gwybodaeth, cymorth ac adnoddau i feddygon teulu a meddygon ymgynghorol i'w helpu i gael gwell dealltwriaeth o system hawlio DLA ac i wneud asesiadau mwy cyson o gymhwysedd eu cleifion i dderbyn DLA ac AA.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen ystyried sut y dylai cyngor arbenigol ar fudd-daliadau gael ei ddarparu ar gyfer cleifion canser, gan adlewyrchu'r rhwystrau ychwanegol a wynebir gan bobl nad ydynt yn gallu rhagweld beth fydd eu hanghenion gofal a/neu symudedd yn y dyfodol.* |
| **Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: *Progress in Tackling*** | Yn 2006, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol adroddiad ar asesu'r cynnydd yr oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'i wneud yn helpu pensiynwyr i sicrhau eu hawliau. Canfu'r adroddiad fod y Gwasanaeth Pensiwn wedi gwneud cynnydd gwirioneddol a sylweddol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy o welliannau, gan gynnwys:<br>• Dylai targedau a osodwyd i'r Gwasanaeth Pensiwn gan yr Adran adlewyrchu'r angen i hyrwyddo'r gwaith o fynd |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| ***Pensioner Poverty: Encouraging take-up of entitlements* (2006)** | i'r afael â thlodi pensiynwyr ymhellach, gan wneud mwy nag annog defnydd o'r Credyd Pensiwn yn unig.<br>• Dylai'r Adran wella'r data ymhellach ar y rhai nad ydynt yn hawlio, yn arbennig o ran y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.<br>• Dylai gwaith lleol gael ei dargedu'n well trwy gyfuno ffynonellau data ac annog ymreolaeth leol;<br>• Dylai'r Adran ddatblygu sut mae'n monitro cost-effeithiolrwydd er mwyn llywio strategaethau'r dyfodol a thargedu adnoddau lleol.<br>• Mae angen polisi clir ar rôl ehangach y Gwasanaeth Pensiwn fel porth i wasanaethau eraill.<br>Nododd yr adroddiad bod llai o bobl wedi defnyddio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ac awgrymwyd bod defnyddio'r budd-daliadau hyn cyn bwysiced â defnyddio'r Credyd Pensiwn o ran ceisio lleihau tlodi pensiynwyr.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn darparu sail resymegol glir i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm ganolbwyntio ar HB a CTB ac awgrymir bod yna le a gwerth i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i amcangyfrif y niferoedd nad ydynt yn hawlio.* |
| **Yr Adran Gwaith a Phensiynau: *Understanding the*** | Cofnododd yr adroddiad hwn ganfyddiadau prosiect ymchwil ansoddol mawr a oedd â'r nod o ddarparu golwg fwy treiddgar ar y rhwystrau i hawlio Credyd Pensiwn a sut y gellir eu goresgyn. Y rhwystr mwyaf cyffredin a ganfuwyd oedd y gred na fyddent yn gymwys i gael y Credyd Pensiwn. Roedd rhwystrau llai yn ymwneud â'r broses hawlio, gan gynnwys amharodrwydd i ddatgelu gwybodaeth ariannol, ofn cyflwyno dogfennau ac ofn gwneud camgymeriadau ar y ffurflen gais. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| ***relationship between the barriers and triggers to claiming Pension Credit* (2006)** | Y sbardun mwyaf cyffredin i ddefnyddio oedd ymweliad personol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Gwasanaeth Pensiwn. Mewn rhai achosion, roedd llythyr gan y Gwasanaeth Pensiwn yn sbardun i wneud cais, gydag eraill wedi cael cyngor neu anogaeth gan drydydd parti neu berthnasau.<br>Daeth yr adroddiad i'r casgliad y byddai llinell gymorth gyfrinachol i benderfynu a oedd rhywun yn gymwys ai peidio yn help i annog defnydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd marchnata hyn i deuluoedd, gan adael iddynt wybod y gallent ddefnyddio'r llinell i weld a oedd perthynas yn gymwys heb orfod rhoi enw.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen codi ymwybyddiaeth o gymhwysedd ymhlith trigolion cynghorau a bod dull gweithredu rhagweithiol yn llwyddo'n well i annog pobl i ymgeisio. Mae hefyd yn nodi bod helpu pobl i weld a ydynt yn gymwys mewn modd cyfrinachol yn ffordd lwyddiannus o fynd ati. Gan y gallai llinell frys fod yn rhy gostus i nifer o sefydliadau bach sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm, awgrym arall fyddai cael cyfrifyddion parod neu declyn budd-daliadau ar y we. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n darparu Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar hyn o bryd sy'n rhoi gwybodaeth am fudd-daliadau nawdd cymdeithasol. Mae yna hefyd wasanaeth cynghori ar fudd-daliadau ar-lein ar wefan Directgov sy'n galluogi darpar hawlwyr i gael gafael ar wybodaeth am fudd-daliadau a chredydau treth y gallent fod â'r hawl i'w derbyn, a allai gael gwared â'r angen am linellau cymorth i awdurdodau unigol.* |
| **Yr Adran Gwaith a** | Roedd yr adroddiad hwn yn gwerthuso Cronfa Bartneriaeth y Gwasanaeth Pensiwn, gan archwilio sut y cafodd y Gronfa ei gweithredu, ei chyflwyno a'i chanlyniadau a sut yr oedd wedi cyfrannu at ddealltwriaeth well o arferion da |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| **Phensiynau:** ***Helping older people engage with benefits and services: an evaluation of the Partnership Fund*** **(2007)** | wrth ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn. Nod y Gronfa Bartneriaeth oedd datblygu rhwydweithiau clir o wasanaethau i bobl hŷn trwy annog partneriaid i weithio ar y cyd ac ariannu amrywiaeth eang o sefydliadau lleol a chenedlaethol i gynnal prosiectau unigol i wella'r defnydd o fudd-daliadau, yn arbennig ymhlith y rhai anoddach i'w cyrraedd.<br><br>Nododd yr adroddiad fod y rhwystrau a ganfuwyd yn debyg i'r rhai a ganfuwyd mewn ymchwil flaenorol, sef diffyg dealltwriaeth o'r system fudd-daliadau, diffyg eglurder ynghylch cymhwysedd, y gred bod ymgeisio am fudd-daliadau'n broses gymhleth a'r stigma o dderbyn budd-daliadau.<br><br>Canfu'r astudiaeth fod y prosiectau'n defnyddio chwe dull eang o dargedu pobl hŷn:<br>• Defnyddio cronfeydd data cyfredol i gysylltu â phobl hŷn.<br>• Dosbarthu deunydd wedi'i argraffu, e.e. taflenni a phosteri.<br>• Annog y cyfryngau lleol a chyfryngau arbenigol i gymryd rhan.<br>• Trosglwyddo manylion y gwasanaeth ar lafar.<br>• Cynnal gwasanaeth allgymorth cymunedol.<br>• Defnyddio'r ffôn i gyflwyno'r prosiect ac i esbonio beth y gallai gynnig.<br><br>Gwerthuswyd y Gronfa Bartneriaeth yn 2007. Amcangyfrifwyd mai £61 miliwn y flwyddyn oedd cyfanswm y budd-daliadau a ddyfernid trwy'r Gronfa Bensiwn. Fodd bynnag, nodwyd bod yna nifer o heriau pwysig wrth asesu effaith y Gronfa Bartneriaeth ar gwsmeriaid prosiectau, gan ei bod hi'n anodd gwahanu'r canlyniadau a ddaeth yn sgil gweithgareddau'r Gronfa Bartneriaeth yn unig a chanlyniadau a allai fod wedi dod yn sgil cysylltiad arferol pobl |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | hŷn â'r Gwasanaeth Pensiwn. Mae'n werth nodi hefyd bod yr adroddiad yn nodi bod yna waith partneriaeth i'w weld yn amlwg ar draws mwy na thri chwarter o'r prosiectau a arolygwyd ac roedd y prosiectau hynny a oedd yn sôn am weithio mewn partneriaeth yn enwi amrywiaeth eang o sefydliadau partner. Fodd bynnag, roedd mentrau nad oeddynt yn bodoli cyn y Gronfa Bartneriaeth neu nad oeddynt â phartneriaid yn dueddol o fynd trwy gyfnod o sefydlu.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad gwerthuso hwn yn awgrymu bod angen i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm fabwysiadu ystod o fesurau i ymgysylltu â derbynyddion budd-dal posibl a gallai partneriaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu weithio'n well na sefydlu partneriaethau newydd o bosibl. Mae hefyd yn awgrymu bod angen ystyried sut i fesur effaith gweithgareddau a phennu dylanwad y gweithgareddau hyn dros ac uwchlaw dylanwad y dirwasgiad.* |
| **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin: *Progress in tackling pensioner poverty –*** | Roedd rhagflaenydd y Pwyllgor wedi gwneud argymhellion i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i fynd i'r afael â thlodi pensiynwyr trwy annog pensiynwyr i hawlio'r budd-daliadau yr oedd ganddynt yr hawl i'w derbyn. Roedd y Pwyllgor hwnnw wedi argymell gosod targedau, cyfathrebu'n effeithiol â phensiynwyr; gweithio mewn partneriaeth; a symleiddio a lleihau'r ailadrodd mewn prosesau. Roedd y Llywodraeth wedi gosod targed i dalu Credyd Pensiwn i 3 miliwn o gartrefi erbyn 2006 a 3.2 miliwn erbyn 2008. Fodd bynnag, ni chyflawnodd DWP darged 2006 ac nid oedd yn disgwyl cyflawni targed 2008.<br><br>Daeth yr adroddiad i'r casgliadau canlynol: |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| ***encouraging take-up of entitlements* (2007)** | • Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cynyddu nifer y bobl a oedd yn hawlio Credydau Pensiwn, ond nid oedd targed Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus DWP yn mynd i'r afael â'i nod ehangach o roi i dull cyfannol i bensiynwyr hawlio'r budd-daliadau yr oedd ganddynt yr hawl i'w cael.<br>• Nid oedd y Gwasanaeth Pensiwn yn cydgysylltu ei ddull gweithredu ddigon gyda'r prif sefydliadau iechyd a thai, er bod ganddo'r un nod cyffredin o gynyddu lles pobl hŷn.<br>• Roedd y gwaith o baru a rhannu data wedi gwella, ond nid oedd gan DWP ddigon o wybodaeth am amgylchiadau unigol pensiynwyr i fedru nodi eu holl hawliau budd-daliadau, a dim ond gwybodaeth am bobl o fewn y system fudd-daliadau oedd ganddi.<br>• Roedd nifer y rhai a oedd yn hawlio'r HB a'r CTB wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, er bod y Gwasanaeth Pensiwn yn gwirio hawl pensiynwyr i fudd-daliadau'n llawn. Awgrymodd yr adroddiad mai sut roedd ALlau yn rheoli budd-daliadau a darparu cyngor oedd yn debygol o fod yn gyfrifol am yr amrywiaeth mewn defnydd rhwng un ardal â'r llall.<br>• Mater arall oedd yr anawsterau o fesur cyfraddau hawlio oherwydd cymhlethdod yr asesiad o gymhwysedd i fudd-daliadau anabledd. Mae DWP wedi comisiynu ymchwil ar ddichonoldeb mesur y defnydd o'r Lwfans Gweini ac archwilio'r rhesymau pam nad yw pobl yn ei hawlio. Awgrymwyd y dylai canfyddiadau'r adroddiad hwn gael eu defnyddio i osod targed ar gyfer y lefel hawlio, gan nad oes gan DWP unrhyw dargedau ar gyfer hawlio.<br>• Er gwaetha'r ffaith ei bod hi'n symlach hawlio budd-daliadau pensiynwyr bellach, mae yna nifer o gyfnodau'n parhau lle mae angen i'r cwsmeriaid ddeall y cysylltiadau cymhleth rhwng budd-daliadau anabledd a'r rhai sy'n seiliedig ar incwm. Awgrymwyd y dylai'r DWP ganiatáu i gwsmeriaid hawlio budd-daliadau cysylltiedig trwy un |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | taliad sengl.<br>• Nododd yr adroddiad fod pensiynwyr hŷn, pensiynwyr o leiafrifoedd ethnig ac o ardaloedd mwy cefnog yn llai tebygol o hawlio Credyd Pensiwn, yn ogystal â phensiynwyr mewn ardaloedd gwledig. Er bod yna nifer o ddulliau gweithredu gwahanol i annog defnydd, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd ar gael o beth sy'n gweithio orau. Trwy rannu arferion da ac annog arferion arloesol, gellir cynyddu'r defnydd, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae llai o ddefnydd.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad pwyllgor hwn yn awgrymu bod angen i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm fabwysiadu dull gweithredu cyfannol sy'n seiliedig ar waith partner, ac mae yna le o hyd i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm wella rhai o'r rhwystrau gweinyddol. Mae hefyd yn awgrymu y gallai sefydliadau o'r fath elwa ar dargedu categorïau arbennig o bobl fel pensiynwyr hŷn, pensiynwyr o leiafrifoedd ethnig ac o ardaloedd mwy cefnog a phensiynwyr mewn ardaloedd gwledig sy'n llai tebygol o hawlio budd-daliadau ychwanegol. Yn olaf, mae'n bwysig bod sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm yng Nghymru'n rhannu arferion gorau ac yn annog arferion arloesol er mwyn cynyddu defnydd.* |
| **Ymchwilio Marchnata ac Ymchwil** | Roedd yr adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan *Access to Benefits* (A2B) yn ceisio darparu dealltwriaeth well o'r amrywiaeth o agweddau sydd gan bobl hŷn tuag at hawlio budd-daliadau a chanfod ffyrdd eraill o gyrraedd pobl hŷn. Cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda phobl hŷn mewn amrywiaeth o leoliadau daearyddol yng Ngogledd |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| **Cymdeithasol:** ***Research on Access to Benefits*** **(2007)** | Iwerddon ac ymgynghorwyd hefyd â chynrychiolwyr o Weithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Casglu Trethi ac ymddiriedolaethau ysbyty lleol a chyngor lleol. Dyma rai o'r rhwystrau a ganfuwyd yn yr ymchwil hwn:<br>• Diffyg ymwybyddiaeth o fudd-daliadau.<br>• Cymryd yn ganiataol nad oeddynt yn gymwys.<br>• Credu bod natur y broses ymgeisio'n gymhleth/rhy bersonol.<br>• Ofn colli budd-daliadau.<br>• Yr hawl i fudd-daliadau'n cael ei gyfathrebu'n wael.<br>• Stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau.<br>• Balchder.<br>• Ofn y byddai gwneud cais am fudd-dal yn golygu bod budd-daliadau eraill yn dod i ben.<br>• Sgiliau cyfrifiadurol gwael.<br>Roedd yr awgrymiadau i gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau'n cynnwys:<br>• Ymweliadau personol gan gynghorwyr.<br>• Llythyron a oedd yn rhoi'r argraff gref y gallent fod yn gymwys.<br>• Cymorth neu anogaeth gan sefydliadau trydydd parti.<br>• Llinell gymorth gyfrinachol i benderfynu a oedd rhywun yn gymwys ai peidio.<br>• Ffurflenni parod. |

<table>
<tr><th>Dogfen</th><th>Crynodeb</th></tr>
<tr><td></td><td>Perthnasedd i Gymru<br>Mae’r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen i sefydliadau sy’n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol, gwella’r broses weinyddol a gweithio trwy ganolwyr dibynadwy.</td></tr>
<tr><td>Llywodraeth Cynulliad Cymru: Budd-dal y dreth gyngor a'r budd-dal tai: Rhwystrau i hawlio yng Nghymru (2008)</td><td>Yn ogystal â darparu arian ar gyfer defnyddio budd-daliadau, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithgor i ymchwilio i’r rhwystrau i hawlio CTB yng Nghymru ac i amlygu a hyrwyddo arferion gorau, ar sail profiadau’r ALlau a oedd wedi llwyddo i gynyddu’r defnydd o CTB.<br><br>Amlygodd canfyddiadau’r ymchwil annibynnol hwn y rhwystrau a’r argymhellion canlynol:
<table>
<tr><th>Rhwystr</th><th></th><th>Argymhelliad</th></tr>
<tr><td>Y ffurflen gais a’r dogfennau angenrheidiol yn cynnwys cymaint o wybodaeth amrywiol ag sydd ei angen.</td><td>–</td><td>Adolygu ffurflenni’n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweddu i’r diben.</td></tr>
<tr><td>Amserlen ar gyfer anfon ffurflenni cais.</td><td>–</td><td>Adolygu systemau ymgeisio fel bod ffurflenni cais y gofynnir amdanynt yn cael eu cyflwyno ar unwaith.</td></tr>
<tr><td>Rhwystrau’n ymwneud â llythrennedd, iaith a chyfathrebu.</td><td>–</td><td>Adolygu gwefannau i sicrhau eu bod yn hawdd i’w defnyddio ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.</td></tr>
<tr><td>Profiad cyffredinol y cwsmer a diffyg cyswllt personol â chwsmeriaid.</td><td>–</td><td>Sicrhau bod staff hyfforddedig ar gael drwy gydol y broses hawlio.</td></tr>
</table>
Nododd yr ymchwil hefyd amrywiaeth o rwystrau i ddefnyddio budd-daliadau a chyflwynwyd cyfres o awgrymiadau ar sut i’w goresgyn, ond cydnabu na fyddai pob un o’r rhain yn briodol i bob ALl.  Roedd y rhain yn cynnwys:<br>• Trothwy cynilion - angen ymateb strategol.</td></tr>
</table>

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | • Stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau. Roedd awgrymiadau'n cynnwys hyrwyddo "hawl" yn hytrach na "budd-dal".<br>• Rhwystrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys hyrwyddo gwasanaethau wyneb-yn-wyneb, marchnata, defnyddio cyfrifyddion parod ac ati.<br>• Ofn colli budd-daliadau cyfredol a phrofiad negyddol blaenorol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys defnyddio datganiadau i'r wasg a thynnu sylw at astudiaethau achos hawlwyr llwyddiannus.<br>• Ddim yn gyfarwydd ag iaith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys gofyn i ALlau adolygu ac egluro termau dryslyd.<br>• Analluu i rannu gwybodaeth ag adrannau eraill o'r llywodraeth – angen ymateb strategol<br>• Mynediad, h.y. i bobl sy'n gaeth i'r tŷ, y rhai sy'n gweithio'n llawn amser ac ati. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys ymweliadau cartref a gwasanaethau y tu allan i oriau.<br>• Ofn cysylltiadau'n cael eu gwneud ag asiantaethau eraill, e.e. rhannu gwybodaeth â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys sefydlu partneriaethau gyda chanolwyr dibynadwy, e.e. Age Concern.<br>• Y gost bosibl o ddarparu gwybodaeth gefnogol, e.e. copïau o gyfriflenni banc.<br><br>Canfuwyd sawl ffactor allweddol gan y gweithgor hefyd y tybiwyd eu bod yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus cynlluniau gweithredu'r ALlau ar ddefnyddio budd-daliadau. Y ffactorau hyn oedd:<br>• Pwysigrwydd cael cymorth a chefnogaeth Aelodau Cabinet a Thimau Rheoli Uwch yr awdurdodau lleol. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | • Agwedd ac ymrwymiad staff.<br>• Uno ac eraill, yn fewnol ac yn allanol, i gyflawni targedau, e.e. gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o fewn yr ALl, gydag awdurdodau cyfagos neu drwy weithio gyda sefydliadau partner fel y Gwasanaeth Pensiwn.<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod angen i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau wella'u prosesau gweinyddol a'u deunyddiau cyfathrebu/marchnata, mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a phersonol, gweithio mewn partneriaeth ag eraill a thrwy ganolwyr dibynadwy yn ogystal â sicrhau cymorth gan reolwyr uwch ac ymrwymiad staff trwy, er enghraifft, hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.* |
| ***Access to Benefits for Older People: Summary of findings of workshops* (2008)** | Trefnodd *Access to Benefits* (A2B) gyfres o weithdai seiliedig ar thema gyda phobl hŷn a gweithwyr datblygu cymunedol yng Ngogledd Iwerddon er mwyn ceisio cysylltu â phobl hŷn a'r bobl a oedd yn gweithio gyda nhw a dysgu mwy am sut y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau i hawlio budd-daliadau. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:<br>• Roedd pob grŵp o ymatebwyr yn gallu adnabod y Credyd Pensiwn a'r *Smartpass* fel budd-daliadau a oedd ar gael i bobl dros 60 oed. Roedd y mwyafrif yn gallu enwi'r Lwfans Byw i'r Anabl, y Budd-dal Tai, Taliad Tanwydd Gaeaf a'r Drwydded Deledu am ddim.<br>• O ran y rhwystrau i ddefnyddio cyfrifiaduron, roedd y materion a nodwyd yn cynnwys rhwystrau fel cost offer cyfrifiadurol, band-eang a chyrsiau, mynediad i gyfrifiaduron, iechyd a rhwystrau technolegol.<br>• Credai nifer o'r grwpiau bod y broses yn ei gwneud hi'n rhy gymhleth i hawlio budd-daliadau. Nid oedd eraill |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | am gwblhau ffurflenni yr ystyrient yn bersonol neu'n amharchus, tra bod rhai grwpiau wedi nodi nad oedd ganddynt unrhyw un i'w helpu i lenwi'r ffurflenni.<br>• Defnyddio grwpiau gwirfoddol a chymunedol oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o gael gwybodaeth i bobl hŷn, gan gynnwys sefydliadau mwy o faint yn ogystal â grwpiau cymunedol lleol.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd mewn codi ymwybyddiaeth o argaeledd neu/a chymhwysedd i dderbyn HB a CTB, gwella'r broses weinyddol a sicrhau bod yna gymorth penodol ar gael, yn ogystal â gweithio gyda'r sector gwirfoddol.* |
| ***Access to Benefits: Take-Up Study: Rate Relief and Disabled Person's Allowance (2008)*** | Roedd y papur hwn yn archwilio'r materion a oedd yn effeithio ar ddefnydd isel o'r Budd-dal Tai, Rhyddhad Ardrethi a'r Lwfans i Bobl Anabl a gwnaeth argymhellion ar sut y gellid gynyddu eu defnydd.<br><br>Roedd y materion a oedd yn ymwneud â defnydd isel yn cynnwys:<br>• Hyd a chymhlethdod ffurflenni cais.<br>• Materion hygyrchedd.<br>• Camsyniadau ynghylch anghymhwysedd.<br>• Amharodrwydd i rannu gwybodaeth bersonol.<br>• Profiadau gwael yn y gorffennol wrth wneud cais am fudd-daliadau. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | Roedd yr argymhellion ar sut y gellid cynyddu'r defnydd yn cynnwys:<br>• Dylai taflenni cael eu hadolygu a'u gwneud yn fwy eglur.<br>• Sefydlu llinell gymorth ddienw am ddim.<br>• Hysbysebu a darparu ymweliadau cartref.<br>• Defnyddio galluogwyr lleol.<br>• Symleiddio ffurflenni.<br>• Darparu budd-daliadau'n awtomatig.<br>• Ffurflenni parod.<br>• Darparu pecynnau gwybodaeth i'r rhai sy'n ymddeol.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd mewn gwella'r broses weinyddol a sicrhau bod yna gymorth penodol ar gael, yn ogystal â gweithio trwy'r sector gwirfoddol a thargedu pobl ar adegau penodol yn eu bywydau.* |
| **Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin: *Tackling Pensioner*** | Bu'r Pwyllgor yn edrych ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'r Gwasanaeth Pensiwn i leihau lefel tlodi ymhlith pensiynwyr. Canfuwyd bod DWP wedi ymdrechu'n galed i annog pensiynwyr i hawlio'r Credyd Pensiwn ac yna'u hatgyfeirio i fudd-daliadau eraill, ond nododd y gallai annog pobl i hawlio'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor cyn dechrau gwneud cais am y Credyd Pensiwn fod yn fwy effeithiol.<br><br>Nododd y Pwyllgor bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i annog pobl i hawlio'r Credyd Pensiwn, ond ei fod |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| ***Poverty* (2009)** | bellach yn gweld ei ymdrechion yn arwain at lai o geisiadau ac mai ychydig iawn o gynnydd pellach sy'n cael ei wneud i wella'r defnydd.<br><br>Nododd fod pensiynwyr sy'n berchen ar eu cartrefi'n llai tebygol o fod yn byw mewn tlodi na'r rhai nad oedd yn berchen eu cartrefi, ond nad oedd nifer o'r rhai a oedd â hawl yn manteisio ar fudd-daliadau prawf modd.<br><br>Awgrymodd y Pwyllgor bod angen i'r Adran ganfod maint y broblem a deall y rhesymau dros hyn cyn y gallai fynd i'r afael â'r mater yn effeithiol.<br><br>Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol y gallai canolbwyntio ar wella'r defnydd o'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor gael cryn effaith ar nifer y pensiynwyr a oedd yn byw mewn tlodi ac awgrymwyd bod angen i ALlau wneud mwy i gynyddu'r defnydd o'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor, a gweithio'n agosach ag Asiantaethau'r Adran.<br><br>Roedd argymhellion eraill a gyflwynwyd yn cynnwys cymell ALlau i wella'r defnydd o'r Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor, gyda'r Adran yn gosod targedau ar gyfer naill ai defnydd o'r budd-daliadau hyn, neu'r nifer o geisiadau newydd a gynhyrchir. Argymhellodd hefyd y dylai fod yna un llinell ffôn ar gyfer y Credyd Pensiwn, y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.<br><br>*Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod yna fudd mewn gofyn i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynddu incwm dargedu perchen-feddianwyr, gosod targedau hawlio a gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.* |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| **Y Comisiwn Archwilio**<br><br>***Benefit Take-up*, Mawrth 2010** | Cynhaliodd y Comisiwn Archwilio gyfres o archwiliadau peilot o fudd-daliadau mewn nifer o ALl yn Lloegr. Nododd y Comisiwn bedwar maes ymarfer arwyddocaol, sef:<br><br>• Nodi a thargedu hawlwyr posibl, gan ddangos bod defnydd deallus o ffynonellau data wedi galluogi ALlau i nodi cwsmeriaid posibl yn fwy effeithiol. Nododd fod Newham yn archwilio ffyrdd o rannu data rhwng adrannau.<br>• Marchnata a hyrwyddo gwasanaethau budd-daliadau, gan awgrymu bod gwaith hyrwyddo a addaswyd i weddu i broffil y gymuned leol yn gallu helpu i wella llwyddiant ymgyrchoedd i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau. Dangosodd yr angen i fesur a deall effaith ymgyrchoedd i annog pobl i hawlio ar yr ardal leol er mwyn helpu i adeiladu ar lwyddiant a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddiadau llai effeithiol.<br>• Adolygu dyluniad y llenyddiaeth i sicrhau ei bod yn hawdd i'w defnyddio, a darpau cyngor eglur gydag enghreifftiau o ganllawiau a thynnu sylw at wahanol ddulliau o gysylltu.<br>• Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfraddau hawlio. Awgrymodd y gallai gweithio mewn partneriaeth helpu i ddeall anghenion lleol ac addasu gwasanaethau'n briodol.<br><br>Darparodd y Comisiwn enghreifftiau bach o weithgareddau i annog defnydd o fudd-daliadau mewn nifer o ALlau, gan amlygu gweithgareddau arloesol a oedd yn cynnwys gweithio gyda Sure Start er enghraifft, a chydag ysgolion lleol a mynychu gweithdai ar ddileu swyddi gyda busnesau a gafodd eu heffeithio. Fodd bynnag, tynnodd y Comisiwn sylw hefyd at enghreifftiau lle roedd cynlluniau heb eu datblygu'n llawn, heb fod yn ddigon manwl, a heb drefniadau digonol i werthuso effaith gweithgaredd ar gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio a lle nad oedd cynyddu'r nifer sy'n hawlio'n cael blaenoriaeth mewn cynlluniau busnes lleol. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | *Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu ei bod hi'n werth i ALlau dargedu, archwilio ffyrdd o rannu data, creu cyhoeddusrwydd wedi'i addasu i anghenion lleol, gwella'r broses weinyddol a mabwysiadau dull o weithio mewn partneriaeth gydag sefydliadau perthnasol eraill. Mae hefyd yn awgrymu bod angen i sefydliadau sy'n ymwneud â hawlio budd-daliadau a chynyddu incwm gael cynlluniau gwaith manwl a chynnwys mesurau i asesu effaith eu gweithgareddau, ac mae angen i gynlluniau i annog defnydd o fudd-daliadau gael eu cefnogi ar lefel strategol o fewn y cynghorau.* |
| **Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon 2011,** ***Take-up of Benefits by Pensioners*** **(2011)** | Adeiladai'r adroddiad hwn ar adroddiad NIAO 2003 ac archwiliai beth oedd adrannau allweddol o'r llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon wedi'i wneud i fynd i'r afael â phroblem tlodi pensiynwyr drwy gynyddu'r nifer a hawliau fudd-daliadau. Nododd yr adroddiad:<br>• Fod cynnydd wedi'i wneud i wella'r nifer sy'n hawlio drwy amryw o weithgareddau i gynyddu'r defnydd o fudd-daliadau.<br>• Mae amcangyfrif cyfraddau hawlio budd-daliadau yn anodd ac felly, mae'n anodd mesur maint y broblem na'r gwelliant ers adroddiad 2003. Noda, fodd bynnag, os yw asiantaethau'n mynd i gynyddu'r niferoedd sy'n hawlio budd-daliadau, rhaid iddynt barhau i ystyried ffyrdd cost-effeithiol o gynhyrchu gwybodaeth berthnasol.<br>• Croesawyd deddfwriaeth a fyddai'n galluogi asiantaethau i rannu data er mwyn gwella gwybodaeth ac ymgyrchoedd i annog pobl i hawlio budd-daliadau. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth sy'n bodoli'n barod fel data budd-daliadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn nodi pa bobl yng Ngogledd Iwerddon a allai fod yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn y Wladwriaeth ond nad ydynt yn ei hawlio. |

| Dogfen | Crynodeb |
|---|---|
| | *Perthnasedd i Gymru*<br>*Mae’r adroddiad hwn yn cydnabod yr heriau sy’n gysylltiedig â phrinder gwybodaeth ddibynadwy am amcangyfrifon o’r defnydd o fudd-daliadau. Er ei fod yn awgrymu y dylai asiantaethau barhau i ystyried ffyrdd o gynhyrchu gwybodaeth berthnasol, nid yw’n gwneud awgrymiadau penodol ar sut y gellid cyflawni hyn.* |

# Atodiad 2 Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos 1**

Mae Mrs A yn ofalwr maeth i Awdurdod Lleol. Mae wedi bod yn rhoi gofal maeth i'w mab er pan oedd yn 6 wythnos oed. Mae bellach yn 15 mis oed. Wrth iddo dyfu'n hŷn, daeth yn amlwg fod ganddo anableddau meddyliol a chorfforol, ac mae'n mynychu meithrinfa ar gyfer plant ag anableddau dysgu.

Yn y feithrinfa, dywedodd Mrs A ei bod yn cael trafferth defnyddio'r gadair wthio oedd ganddi ar gyfer ei mab. Awgrymodd aelod o'r staff y gallai hawlio DLA ar ei gyfer a chael cadair wthio arbenigol a fyddai'n fwy addas i'w anghenion. Roedd Mrs A yn nerfus ynglŷn â llenwi'r ffurflenni oedd eu hangen ar gyfer gwneud cais am DLA a chafodd yr argraff bod ei gweithiwr cymdeithasol yn rhy brysur i'w helpu gyda hynny - a beth bynnag, nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn gyfarwydd iawn â chyflwr ei mab.

Dyna pryd y trodd Mrs A at ei CAB lleol. Daeth o hyd i'r manylion cyswllt ar y rhyngrwyd, er ei bod hi hefyd yn ymwybodol bod cynrychiolydd o'i CAB lleol wedi ymweld â'r feithrinfa i siarad am fudd-daliadau.

Cafodd gymorth i lenwi'r ffurflenni gan y cynghorwr yn ei CAB lleol ac o fewn pythefnos, clywodd fod y cais wedi'i dderbyn ac y byddai'r lwfans yn cael ei dalu ar y gyfradd ganol. Nid oedd y plentyn yn gymwys i dderbyn yr elfen symudedd am ei fod yn rhy ifanc.

Mae Mrs A bellach yn derbyn £47 yr wythnos (sy'n codi i £49.30 yr wythnos cyn bo hir) o DLA ar ran ei mab maeth.

O ganlyniad i'r incwm ychwanegol, gallodd Mrs A brynu cadair wthio fwy addas i'w mab sy'n diwallu ei anghenion yn well

(dywedodd fod ôl tipyn o draul ar y cadeiriau gwthio a ddarperir i blant maeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae natur ei anableddau yn eu gwneud yn anaddas).

Mae ei mab yn ddioddef o heintiau ar y frest yn aml felly mae hi hefyd wedi prynu dadleithydd ar gyfer ei ystafell wely er mwyn lleddfu'r broblem. Roedd yn costio dros £50, ac ni fyddai wedi gallu ei fforddio oni bai am y DLA. Mae ei mab hefyd yn derbyn ffisiotherapi'n rheolaidd ac awgrymodd y ffisiotherapydd y gallai trampolinio helpu i ddatblygu cryfder ei gyhyrau, felly defnyddiwyd y DLA hefyd i brynu trampolîn gardd ar ei gyfer.

Wrth sgwrsio â'i Gweithiwr Cyswllt Gofal Maeth, clywodd Mrs A am sawl gofalwr maeth yn ei hardal mewn sefyllfaoedd gofal tebyg iddi hi a oedd wedi llenwi ffurflenni cais eu hunain, a'u ceisiadau wedi cael eu gwrthod. Mae hi wedi gofyn i'r Gweithiwr Cyswllt annog y gofalwyr maeth hyn i gysylltu â CAB i'w helpu i wneud cais yn y dyfodol. Mae hi hefyd wedi siarad â'r cynghorwr CAB yn ei hardal, sy'n hapus i roi pobl mewn cysylltiad â'r cynghorwr CAB cywir.

Nid oedd Mrs A yn credu bod hawl ganddi i wneud cais am nad hi oedd rhiant y plentyn.

Yn ei barn hi, efallai nad yw pobl yn ceisio am fudd-daliadau fel DLA gan fod y ffurflenni'n anodd i'w llenwi ac nid yw'n amlwg bob amser pa wybodaeth sydd ei hangen. Mae hi'n credu bod pobl yn aml yn amharod i gyfaddef bod gan eu plentyn anabledd.

Nid oedd hi'n ymwybodol o'r blaen o'r gwasanaethau a ddarparai CAB ac nid oedd hi erioed wedi defnyddio'u gwasanaethau am ei bod hi'n meddwl na fyddent yn berthnasol i'w hanghenion hi. Camsyniad Mrs A cyn hyn oedd nad "ar gyfer pobl fel fi" oedd CAB. Felly, byddai hyrwyddo gwell ar yr holl amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gan CAB yn gymorth i annog pobl i ddod i gysylltiad. Teimlai Mrs A fod CAB yn broffesiynol ac yn barod iawn i helpu, a byddai'n bendant yn defnyddio'u gwasanaethau eto pe bai angen.

Hefyd, teimlai Mrs A y gallai ffurflen gais y DLA fod wedi'i geirio'n gliriach (gan roi enghreifftiau efallai) i helpu pobl ddeall pa wybodaeth sydd ei hangen.

**Astudiaeth Achos 2**

Mae gan Mr a Mrs B ferch 6 oed yn dioddef o anhwylder genetig sy'n peri iddi gael ffitiau difrifol. Mae'n gyflwr sy'n gwaethygu ac yn bygwth ei bywyd. Hefyd, mae ganddynt fab yn ei arddegau nad yw'n anabl.

Mae eu merch wedi bod yn dioddef o'r cyflwr hwn ers iddi gael ei geni ac ers hynny, bu tîm o weithwyr proffesiynol (nyrsys, meddygon) yn rhoi cyngor i Mr a Mrs B ynglŷn â'r cyflwr a sut i gynllunio'i gofal (e.e. cynllunio i gael man parcio agos at ddrws y tŷ yn y dyfodol). Mae'r teulu wedi bod yn derbyn elfen ofal y budd-dal ers sawl blwyddyn.

Wrth i'w merch dyfu'n hŷn, roedd Mr a Mrs B yn ymwybodol y gallent fod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau/cymorth gwahanol a chynghorwyd nhw gan ffrind i'r teulu i siarad â CAB.

Llwyddodd CAB i ddelio â phwysau'r gwaith papur ar ran Mr a Mrs B, a chododd y cynghorwr gwestiynau nad oeddynt wedi eu hystyried hyd yn oed. O'r herwydd, maent bellach yn derbyn DLA a'r elfen ofal ar y gyfradd uwch yn ogystal â Lwfans Gofalwr. Cyn ymweld â CAB nid oedd syniad ganddynt y gallent hawlio unrhyw un o'r budd-daliadau hyn.

O ganlyniad i dderbyn yr incwm ychwanegol, mae ansawdd bywyd y teulu cyfan wedi gwella. Er enghraifft, gyda'r arian maent wedi gallu prynu monitorau fideo a sain (o ansawdd gwell na'r rhai a ddarparai'r GIG) sy'n rhoi mwy o dawelwch meddwl iddynt ac sy'n llythrennol yn galluogi'r rheini i gysgu yn y nos. Mae'r arian hefyd wedi helpu i ariannu'r teithiau niferus i'r ysbyty a'r apwyntiadau

sy’n rhaid mynd iddynt. Hefyd, prynwyd clustogau a phadiau arbennig ar gyfer gwneud cadair eu merch yn fwy cyfforddus ac maent wedi gallu cael mwy o dripiau dydd/gwyliau arbenigol.

Roedd incwm digonol gan y teulu cyn iddynt dderbyn y budd-daliadau ond dywedant ei bod yn fendith ei gael.

Eu rheswm dros beidio â bod wedi gwneud cais am fudd-dal o’r blaen oedd nad oeddynt yn ymwybodol ei fod ar gael.

Cred Mrs B fod pobl yn teimlo bod gwneud cais yn rhy gymhleth. Er bod pobl yn gwybod y gallai derbyn y budd-dal eu helpu, wrth iddynt ofalu am blentyn anabl o ddydd i ddydd, mae’r syniad o orfod gwneud yr holl waith papur yn ogystal â’u cyfrifoldebau gofal “yn ormod”. Fodd bynnag, rhoddodd CAB lawer o gymorth gyda’r broses ymgeisio a olygodd fod un peth yn llai iddynt boeni yn ei gylch.

Mae Mrs B yn meddwl y gellid gwneud mwy i gynyddu’r defnydd o fudd-daliadau yn y dyfodol drwy godi ymwybyddiaeth o’r DLA. Hefyd, hoffai weld newid yn y broses: mae’n cydnabod bod rhaid adolygu’r hawliadau o dro i dro ond teimlai fod yr adolygiadau hyn yn ddiangen ac yn achosi rhwystredigaeth a straen ychwanegol mewn achosion lle gwyddys na fydd y plentyn yn gwella o’r cyflwr/lle bydd y cyflwr yn gwaethygu dros amser (fel yn achos merch Mrs B).

**Astudiaeth Achos 3**

Mae gan Mrs C fab 10 oed sy’n cael trafferthion gyda’i gydbwysedd. Mae’r broblem yn golygu ei fod yn cwympo’n aml. O’r herwydd, mae angen esgidiau newydd arno bob mis a throwsusau newydd yn aml am eu bod yn rhwygo. Gwnaed diagnosis o gyflwr ei mab pan oedd yn 5 oed (5 mlynedd yn ôl) ond ni ddywedodd neb wrthi'r adeg honno y gallai fod ganddi hawl i dderbyn

budd-daliadau. Mae’n gweithio’n rhan-amser ac felly, credai na fyddai ganddi hawl i fudd-daliadau.

Clywodd Mrs C am y DLA wrth siarad â ffrind a oedd eisoes yn ei dderbyn. Cynghorwyd hi i fynd i siarad â’i CAB lleol.

Helpodd y cynghorwr CAB hi i wneud cais am DLA a llwyddodd i hawlio’r Lwfans ar y gyfradd ganol. Roedd hi eisoes yn hawlio Lwfans Gofalwr am ofalu am ei thad, ond helpodd y cynghorwr CAB hi i’w newid i gynnwys gofalu am ei mab.

Galluogodd yr incwm ychwanegol Mrs C i fynd â’i mab ar wyliau, i brynu trampolîn newydd iddo ac i dalu iddo fynychu gweithgareddau’r clwb pêl-droed, ac mae hyn wedi cyfrannu at wella ansawdd ei fywyd. Mae hi hefyd yn ei chael yn haws talu am yr esgidiau a’r dillad newydd sydd eu hangen ar ei mab yn rheolaidd.

Mae derbyn y DLA wedi gwella ansawdd bywyd Mrs C hefyd am ei fod “cael gwared ar faich oddi ar fy ysgwyddau”. Er nad yw eu statws cyflogaeth wedi newid, roedd Mrs C a’i gŵr wedi bod yn cael trafferth talu’r biliau ac mae’r incwm ychwanegol hwn wedi bod yn fuddiol iawn ac wedi lleddfu eu pryderon ynglŷn â gallu fforddio hanfodion fel esgidiau.

Nid yw’n siŵr pam nad yw pobl eraill yn hawlio, ond mae’n credu nad yw pobl yn ymwybodol o’u cymhwysedd i hawlio.

Mae hi’n llawn canmoliaeth i CAB: “maen nhw wedi bod yn wirioneddol wych”.

Roedd hi’n teimlo y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol sy’n helpu plant anabl. Er enghraifft, bu ei mab yn mynd am wersi ffisiotherapi trampolinio ers peth amser ac ni soniodd neb o’r staff sy’n darparu’r gwasanaeth wrthi y gallai fod yn gymwys i hawlio DLA neu fudd-daliadau eraill, na’i hannog i ofyn am gyngor gan CAB.

**Astudiaeth Achos 4**

Cafodd mab (12 oed) Mrs D salwch difrifol tua blwyddyn yn ôl. Mae bellach yn gwella ond mae ei olwg yn dal yn wael iawn. Mae angen cymorth un i un arno yn yr ysgol, ac er ei fod yn ymdopi o ddydd i ddydd, mae'n anodd arno.

Soniwyd am ymgyrch CAB yn ystod ymweliad â'r ysbyty a daeth Mrs D o hyd i ragor o wybodaeth ar y rhyngrwyd.

Helpodd CAB hi i lenwi'r ffurflen, ac er iddi gael gwybod y gallai ei chais orfod mynd i apêl, derbyniodd y DLA (ar y gyfradd ganol ar gyfer un elfen a'r gyfradd isaf ar gyfer y llall) ar y cais cyntaf. Gwnaeth gais am Lwfans Gofalwr hefyd ac mae hi bellach yn ei dderbyn.

Aeth derbyn y DLA/Lwfans Gofalwr â baich oddi ar ei meddwl. Arferai weithio'n rhan-amser cyn i'w mab fynd yn sâl ond roedd gorfod ymateb i alwadau o'r ysgol ar fyr rybudd yn ei gwneud yn anodd iddi weithio. Mae'r lwfans wedi golygu nad oes raid iddi weithio nawr a gall fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion ei mab.

Yn ogystal â'i digolledu am yr incwm a gâi o'i gwaith blaenorol, gallodd ddefnyddio'r incwm ychwanegol i gael rhagor o gymorth a chymhorthion gweld ar gyfer ei mab, er enghraifft chwyddaduron.

Mae hi'n teimlo nad yw pobl yn gwybod beth sydd ganddynt hawl i'w gael ond daeth hi o hyd i wybodaeth ar y rhyngrwyd a thrwy CAB.

Bu CAB o gymorth mawr iddi ac roedd ei chais yn llwyddiannus. Roedd hi'n hapus â'r holl gymorth a dderbyniodd gan CAB.

Awgrymodd y dylai gwybodaeth gael ei roi i bobl yn haws gan nad yw pawb yn gallu cysylltu â'r rhyngrwyd. Mae'n credu mai CAB

sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r wybodaeth.

**Astudiaeth Achos 5**

Mae gan Ms E fab awtistig 5 mlwydd oed. Mae angen cymorth arno i fynd i'r toiled, mae hi'n cael trafferth ei gael i fwyta digon ac mae'n dioddef o byliau difrifol pan na all reoli'r hyn a wna.

Yn wreiddiol, roedd Ms E wedi gwneud cais uniongyrchol am y DLA. Anfonodd y dogfennau a'r adroddiadau niferus am ei mab i gefnogi ei chais ond derbyniodd ateb yn dweud nad oedd hi wedi darparu digon o wybodaeth ac na ellid dyfarnu DLA iddi ddim ond am fod ei phlentyn "yn cael stranciau". Parodd yr ateb hwn gryn loes iddi ac yn sgil camau dilynol, derbyniodd ymddiheuriad gan yr adran DLA. Cysylltodd Ms E â CAB yn rhwystredig ac yn ddig ynglŷn â'r ymateb a gafodd gan yr adran DLA. Helpodd CAB hi i ail-eirio'r cais yn fwy addas a chanmolodd CAB am y cymorth a dderbyniodd ganddynt ("roedden nhw'n ddi-fai"). O ganlyniad, derbyniodd ei mab DLA ar y gyfradd uchaf a lwfans Symudedd.

O ganlyniad i'r incwm ychwanegol o'r budd-daliadau hyn, mae Ms E wedi gallu cael pram arbennig i'w mab i wella'i symudedd. Mae hi wedi prynu sgriniau ochr ar gyfer ei wely a monitorau gwell, wedi gwella'r drws i'w ystafell er mwyn gallu mynd drwyddo'n haws ar frys, ac wedi troi ei ystafell yn "ystafell synhwyraidd fach".

Hefyd, mae'r incwm ychwanegol wedi ei galluogi i fynd â'i mab i farchogaeth yn amlach, na allai fforddio'i wneud o'r blaen, yn ogystal â thrip achlysurol i'r Ganolfan Synhwyraidd. Mae'n dweud fod ei mab yn hapusach yn amlach nawr, a phan mae'n cael pwl, gall ei dawelu'n gynt. Mae marchogaeth yn ei ymlacio ac yn ei helpu i fwyta gan ei fod bob amser eisiau bwyd ar ôl marchogaeth. Dywedodd Ms E fod yr incwm ychwanegol yn bendant wedi gwella ansawdd ei fywyd.

Mae'n teimlo nad yw pobl bob amser yn ymwybodol i dderbyn DLA ac efallai eu bod yn ddigon hyderus i ofyn amdano neu lenwi'r ffurflenni, sy'n hir ac yn gymhleth.

Yn ei barn hi, mae'r adran DLA yn ei gwneud yn anodd i bobl wneud cais. Mae'n teimlo nad yw'r staff yn rhoi eu hunain yn sefyllfa'r bobl sy'n ymgeisio ac nid ydynt yn deall yr anawsterau sy'n rhaid i'r rheiny eu hwynebu. I wella'r broses, mae'n teimlo y dylai staff yr adran DLA wella eu dealltwriaeth o sefyllfa ymgeiswyr: mae'n teimlo bod y staff ar hyn o bryd yn rhoi'r argraff mai prin edrych ar y ceisiadau a wnânt yn hytrach nag astudio'r holl wybodaeth yn fanwl, ac awgrymodd y gallai pob aelod o'r staff dreulio diwrnod gyda rhiant i ddeall yn well beth yw effaith cael plentyn anabl ar eu bywyd teuluol.

Hefyd, teimla Ms E y dylai'r adran DLA sicrhau bod y cyngor y mae'n ei roi yn fwy eglur a chyson. Ar y llaw arall, mae'n credu bod CAB yn esbonio pethau'n eglur ac yn ddealladwy i bobl, gan ddangos pa wybodaeth sydd ei hangen a rhoi hyder i bobl ymgeisio.

**Astudiaeth Achos 6**

Mae Mr a Mrs F yn gofalu am ddyn ifanc anabl 18 oed. Mae Mr F wedi ymddeol. Credai'r Gwasanaethau Cymdeithasol y dylai fod gan y dyn ifanc hawl i DLA ar y gyfradd uwch ac felly, awgrymwyd bod Mr F yn cysylltu â CAB.

Ni chafodd Mr F achos i hawlio budd-daliadau yn y gorffennol, felly nid oedd yn gyfarwydd â'r system, nac yn ymwybodol y gallai CAB ei helpu.

Gwnaed y cais am gyfradd uwch y DLA drwy CAB ac mae Mr F yn dal i aros am y penderfyniad ond mae CAB yn delio â'r mater ar ei ran.

Yn ogystal â DLA, cynghorodd CAB Mr F y gallai hawlio Credydau Treth Gwaith gan fod gofalu am y dyn ifanc yn cyfrif fel gwaith. Nid oedd yn ymwybodol y gallai hawlio hwn o'r blaen am iddo ymddeol yn gynnar. Mae bellach yn derbyn Lwfans Gofalwr a gostyngiad ar ei fil dŵr. Mae'r Lwfans Gofalwr tua £40 yr wythnos, fel y Credyd Treth Gwaith.

Mae'r dyn ifanc hefyd yn derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Mae'r incwm ychwanegol wedi golygu nad oes raid i Mr F "gyfri'r ceiniogau i'r fath raddau": roeddynt wedi bod yn byw ar eu cynilion ers iddo ymddeol.

**Astudiaeth Achos 7**

Mae gan Ms G ferch 3 oed sy'n awtistig iawn ac yn dioddef o orsymudedd. Hefyd, mae nam ar ei meddwl ac mae'n mynychu crèche anghenion arbennig. Daeth cynghorwr CAB i'r crèche i siarad am yr ymgyrch DLA a hefyd, cafodd Ms G wybodaeth am DLA gan ei phediatregydd.

Gwnaeth Ms G gais am DLA gyda chymorth CAB. Dyfarnwyd DLA ar y gyfradd ganol iddi a chyfradd uwch y Lwfans Symudedd. Mae hi wedi apelio am ei bod hi (a'i phediatregydd) yn credu bod hawl gan ei merch i DLA ar y gyfradd uwch gan fod angen gofal 24 awr arni.

Mae hi'n aros am ganlyniad yr apêl ond dywedwyd wrthi fod yn rhaid iddi aros 11 wythnos am y penderfyniad.

Dywed Ms G fod yr incwm ychwanegol "wedi gwneud gwahaniaeth mawr": mae ei merch yn mynychu crèche arall nawr (yn ogystal

â'r llall) ac mae hyn yn rhoi seibiant i'w rhieni o'u cyfrifoldebau gofalu. Hefyd, mae'r crèche angen rhoi goruchwyliaeth un i un i'w merch, sy'n ddrud, ac ni fyddai wedi Ms G wedi gallu fforddio hyn heb yr incwm ychwanegol y mae DLA yn ei roi. Mae hi'n bwriadu trefnu gwersi nofio ar gyfer ei merch (sydd eto'n galw am oruchwyliaeth un i un, ac mae hi wedi prynu teganau a chymhorthion i ysgogi ei merch.

Mae'r teulu'n symud i dŷ newydd mwy addas i anghenion y ferch ac felly bydd yr incwm ychwanegol yn helpu i brynu cyfarpar i'r cartref newydd hefyd.

Mae Ms G yn teimlo bod y DLA wedi rhoi "gwell ffordd o fyw" i'w merch.

Arferai Ms G weithio'n rhan-amser. Er ei bod yn dal i weithio, bu'n rhaid iddi haneru ei horiau er mwyn gofalu am ei merch. Dywed nad yw rhieni sy'n gweithio o bosib yn credu eu bod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau am eu bod yn ennill cyflog, bod pobl yn credu mai ar gyfer rhai nad ydynt yn gweithio'n unig y mae budd-daliadau, a bod pobl hefyd yn falch ac nad ydynt am gael eu gweld fel rhai sy'n hawlio budd-daliadau.

Ni fydd cyflwr merch Ms G yn gwella. Mae'r broses o wneud cais yn peri llawer o straen. Dealla Ms G fod ei chais yn mynd i gael ei adolygu bob 2-3 blynedd. Gan nad yw cyflwr ei merch yn mynd i wella, mae'n teimlo bod yr adolygiad yn faich diangen mewn sefyllfa sydd eisoes yn anodd.

Mae'r amser aros am benderfyniad apêl (11 wythnos) yn teimlo'n hir. Er y gall ffonio i weld lle mae'r cais arni, mae'n teimlo fod 11 wythnos yn rhy hir i aros.

**Astudiaeth Achos 8**

Mae gan Mrs H ddau o blant (merch 17 oed a mab 14 oed). Mae'r ddau blentyn wedi bod yn ddioddef o epilepsi ers eu geni.

Nid oedd Mrs H yn sylweddoli y gallai ei phlant fod yn gymwys i dderbyn DLA. Tybiai mai budd-dal a ddibynnai ar brawf modd oedd DLA ac ni chredai fod ei phlant yn ddigon anabl i dderbyn budd-dal.

Daeth yn ymwybodol gyntaf o'r ymgyrch i gynyddu defnydd o DLA pan welodd daflen yn ei hysbyty lleol. Hefyd, siaradodd â ffrind a oedd yn hawlio DLA ar gyfer ei mab a ddatblygodd epilepsi ar ôl cael anaf ar ei ben.

Cysylltodd â chynghorwr CAB a fu'n "wirioneddol wych". Helpodd y cynghorwr hi i lenwi'r ffurflenni ar gyfer y ddau blentyn. Pe bai hi wedi gorfod llenwi'r ffurflenni heb unrhyw gymorth, dywedodd na fyddai wedi parhau gan fod yr holl waith papur yn codi ofn arni.

Mae'r ddau blentyn bellach yn derbyn DLA ar y gyfradd ganol. Mae'r ddau riant yn gweithio ac yn ennill incwm digonol, ac nid ydynt yn gymwys i dderbyn unrhyw fudd-daliadau eraill. Pan oedd y plant yn iau, roeddynt yn cael trafferth i ymdopi yn ariannol a byddent wedi elwa'n wirioneddol yr adeg honno o'r incwm ychwanegol a rôi DLA pe baent yn gwybod amdano.

Newydd ddechrau derbyn y DLA mae'r plant, sy'n eithaf hwyr yn eu plentyndod er eu bod wedi bod yn dioddef o epilepsi ers eu geni. Felly, rhoddwyd yr arian mewn cyfrifon cynilo ar gyfer pan fyddant yn hŷn. Mae Mrs H yn dweud na fydd y plant yn gallu gyrru, felly bydd modd i'r arian ychwanegol eu helpu gyda phethau fel costau trafnidiaeth ychwanegol.

Nid oedd Mrs H yn ymwybodol tan y llynedd y gallai hawlio DLA ar gyfer ei phlant. Byddai wedi bod yn well iddi hi pe bai gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'i phlant, er enghraifft y meddyg teulu lleol, meddygon ymgynghorol a'r ymwelydd iechyd (a

welai'n rheolaidd, yn enwedig pan oedd y plant yn iau) wedi sôn wrthi amdano.

Mae'r cymorth a ddarparwyd gan CAB wedi creu argraff fawr arni.

**Astudiaeth Achos 9**

Mae gan Ms I ferch 13 oed â nam ar ei chalon. Mae hi wedi cael sawl llawdriniaeth ar ei chalon – y ddiweddaraf pan oedd hi'n 12 oed. Mae ei merch yn ddioddef o arswyd nos yn aml, sy'n peri iddi wlychu'r gwely.

Ceisiodd Ms I wneud cais am DLA ar sawl achlysur yn y gorffennol ond dywedodd y Ganolfan Waith wrthi na fyddai'n gymwys ac roedd ei cheisiadau am DLA yn aflwyddiannus.

Awgrymodd meddyg ymgynghorol a ffisiotherapydd ei merch y dylai ofyn i CAB am gymorth.

Aeth Ms I at ei swyddfa leol. Gwrthodwyd ei chais cyntaf, ond awgrymodd CAB y dylai apelio. Enillodd yr apêl a bellach mae ei merch yn derbyn DLA ar y gyfradd ganol.

Mae CAB wrthi'n ei helpu i wneud cais am Lwfans Gofalwr.

Mae incwm ychwanegol y DLA yn helpu i dalu ei chostau golchi dillad uwch yn sgil y gwlychu gwely aml. Adeiladwyd estyniad i'r tŷ er mwyn i'r ferch gael cawod drws nesaf i'w hystafell wely iddi allu cael cawod yn y nos. Mae'r incwm ychwanegol yn helpu rhywfaint i ad-dalu'r £12,000 a wariwyd i adeiladu a darparu cyfarpar i'r estyniad.

Gwrthodwyd y budd-dal i Ms I cynifer o weithiau fel ei bod hi fwy neu lai wedi rhoi'r gorau i geisio amdano, nes y dywedwyd wrthi am ofyn i CAB am gymorth. Mae hi'n teimlo fod llawer o rwystrau'n wynebu pobl, a chyfeiriodd at y jargon sy'n cael ei ddefnyddio ar ffurflenni cais fel un enghraifft.

Mae'n teimlo nad oes digon o amser ac arian gan wirfoddolwyr CAB i helpu pobl fel hi: mae'n rhaid iddi aros hyd at 8 wythnos am apwyntiad.

Dim ond pythefnos o amser sydd gan bobl i lenwi ffurflenni cais ar ôl eu derbyn. Golyga hyn fod y cyfnod o amser yn aml yn rhy fyr i gael cyngor a chwblhau'r ffurflen cyn y dyddiad cau.

Hoffai Ms I weld a) mwy o amser yn cael ei roi i CAB gyflawni gwaith i annog defnydd o fudd-daliadau iddynt allu delio â'r ôl-groniad o achosion neu leihau amserau aros am apwyntiadau, a b) ymestyn yr amser ar gyfer cwblhau ceisiadau gan nodi cyfnod mwy realistig.

**Astudiaeth Achos 10**

Mae gan Ms J fab 6 oed sydd â nam ar ei glyw ers iddo gael ei eni.

Digwydd clywed am y posibilrwydd y gallai hawlio DLA wnaeth Ms J wrth siarad ag ysgrifenyddes ysgol ei mab, sy'n gwirfoddoli gyda CAB yn rhan-amser.

Roedd cynghorwr yn ei CAB lleol wedi derbyn hyfforddiant ychydig cyn hynny ar fudd-daliadau i bobl â nam ar eu clyw, a bu o

gymorth mawr. Cynorthwyodd Ms J i feddwl am yr holl bethau, y mae hi fel mam yn eu cymryd yn ganiataol, sy'n rhaid iddi eu gwneud yn ychwanegol oherwydd cyflwr ei mab (e.e. gofal ychwanegol gyda chymorth i groesi'r ffordd). Mae Ms J yn dweud na fyddai wedi meddwl rhoi'r pethau hyn ar ffurflen pe na bai wedi cael cymorth gan y cynghorwr CAB. Roedd hi'n fuddiol hefyd bod y cynghorwr yn gweld pethau o bersbectif gwahanol.

Mae ei mab bellach yn derbyn y DLA ar y gyfradd ganol. Cynghorodd CAB hi hefyd i wneud cais am Lwfans Gofalwr ac mae hi'n derbyn hwnnw bellach hefyd.

Mae'r incwm ychwanegol maent wedi'i dderbyn yn cynnwys £55 yr wythnos o DLA a thua £200 y mis o Lwfans Gofalwr.

Defnyddiwyd hwn i ychwanegu at incwm y teulu ond mae'n arbennig o ddefnyddiol i dalu'r costau tanwydd ychwanegol sydd ei angen i fynd â'i mab i apwyntiadau ysbyty rheolaidd. Mae hefyd wedi galluogi'r teulu cyfan (mae gan Ms J blentyn arall hefyd) i fynd allan am y dydd weithiau na fyddent wedi gallu ei wneud fel arall.

Awgrymodd y cynghorwr CAB ei bod yn dweud wrth bobl roedd hi'n eu hadnabod, a allai fod yn gymwys, i gysylltu â CAB. Roedd y dull hwn o roi gwybod i eraill (fel y clywodd Ms J ei hun drwy ysgrifenyddes yr ysgol) yn cael ei weld fel ffordd effeithiol o ledaenu'r neges am DLA ac fe roddodd Ms J y neges i un o'i ffrindiau oedd â phlentyn yn ddioddef o Syndrom Asperger.

Yn ei barn hi, mae ffyrdd eraill o wella ymwybyddiaeth yn cynnwys rhoi gwybodaeth ar hysbysfyrddau ysgol a sicrhau mwy o sylw ar y cyfryngau.

Nid oedd pobl yn yr ysbyty, gan gynnwys therapydd lleferydd ac iaith ei mab, yn ymwybodol o'i gymhwysedd i dderbyn DLA ac nid oeddynt erioed wedi sôn am hyn wrthi.

Dywed fod “CAB yn wych ac mor barod i helpu. Fe egluron nhw’r broses a beth i’w ddisgwyl”.